# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 24 IONAWR 2023 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 24 JANUARY 2023 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

5 **ADRODDIAD AROLYGIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD (AGP) AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) O WASANAETHAU CYMDEITHASOL YNYS MÔN** (Tudalennau 25 - 46)

Cyflwyno adroddad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

6 **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2023/24** (Tudalennau 47 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **ADRODDIAD YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI: CYNLLUN Y CYNGOR DRAFFT (2023-2028)** (Tudalennau 63 - 110)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

8 **COSTAU BYW - CYNLLUN DEWISOL (CAM 2)** (Tudalennau 111 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

9 **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN BIOAMRYWIAETH** (Tudalennau 121 - 178)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**10** **TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT - RHAGLEN Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN** (Tudalennau 179 - 190)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 29 Tachwedd, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Alun Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr/Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Swyddog Polisi (RWJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Gary Pritchard, Nicola Roberts, Robin Williams, Mr Gethin Morgan (Rheolwr Perfformiad, Cynllunio Busnes a Rhaglen) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Swyddog Cyfathrebu (GJ), Rheolwr Sgriwtini (AGD) |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i adrodd arno.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 25 Hydref, 2022, i'w cadarnhau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 25 Ebrill, 2022 yn rhai cywir.**

**4 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**



DRAFT

Cyflwynwyd, i’w ystyried, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd, yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o fis Gorffennaf 2022 i fis Chwefror 2023.

Cyflwynodd y Swyddog Polisi'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch aildrefnu eitem 2 (Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Rhenti Tai a Thaliadau Gwasanaeth Tai 2023/24) o fis Tachwedd i gyfarfod 13 Rhagfyr ac eitem 3 (Adran 6 Deddf Dyletswydd Bioamrywiaeth yr Amgylchedd (Cymru) 2016) o fis Rhagfyr i gyfarfod 24 Ionawr, 2023 a dywedodd y byddai Eitem 4 (Trefniadau Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Cymru (awdurdod lleol)) bellach yn benderfyniad dirprwyedig gan yr Aelod Portffolio Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Gwasanaethau Ieuenctid.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith oedd wedi’i diweddaru am y cyfnod rhwng Rhagfyr, 2022 a Gorffennaf, 2023 gyda’r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5 ADRODDIAD MONITRO’R CERDYN SGORIO - CHWARTER 2, 2022/23

Cyflwynwyd, i’r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori’r Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 2, 2022/2023. Dangosai’r cerdyn sgorio sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion llesiant.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth a chadarnhaodd bod 94% o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Cyfeiriodd at y perfformiad yn erbyn tri amcan llesiant y Cyngor a thynnodd sylw at sawl hanesyn cadarnhaol ar draws yr amcanion hynny. Fodd bynnag, er bod perfformiad yn erbyn targedau ar y cyfan yn wyrdd neu’n felyn, roedd tueddiadau yn gostwng yn erbyn nifer o ddangosyddion oedd yn ymwneud â pherfformiad, yn enwedig felly mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2. Byddid yn rhoi sylw penodol i’r dangosyddion hynny, ynghyd â’u prosesau a’u ffrydiau gwaith cysylltiedig, wrth i'r Cyngor symud i gyfnod y gaeaf, yn enwedig felly o ystyried cyd-destun mwy o dlodi tanwydd a bwyd, a phwysau costau byw uwch.

Rhoddodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adborth o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd 22 Tachwedd, 2022, lle trafodwyd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, Chwarter 2. Cadarnhaodd y cyflwynwyd i’r Pwyllgor adroddiad cynhwysfawr ynghylch perfformiad corfforaethol yn erbyn y gwahanol ddangosyddion a bu iddo herio’r Swyddogion a'r Aelodau Portffolio ar nifer o feysydd. Roedd y Pwyllgor wedi croesawu’r sicrwydd a'r ymatebion a gafodd gan y Swyddogion a'r Aelodau Portffolio ac yn eu gwerthfawrogi ac wedi argymell yr adroddiad a'r mesurau lliniaru oedd ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.

Mewn perthynas â nifer o ddangosyddion perfformiad Melyn ac un Coch yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod nifer y cyfeiriadau’n cynyddu a bod achosion hefyd yn mynd yn fwy cymhleth ac, felly, yn rhoi pwysau ar y broses asesu. Cyflwynodd fwy o fanylion am Ddangosydd Perfformiad 23 (y cyfnod, ar gyfartaledd, y bu’r holl blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn) oedd wedi’i dynodi’n Goch. Eglurodd bod pob plentyn oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am gyfnod hwy na’r targed, sef 270 o ddiwrnodau, yn destun achos gofal Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) h.y. roeddynt yn parhau ar y gofrestr am resymau cyfreithiol a gofal cyfreithlon. Sicrhaodd fod yr holl ddangosyddion oedd wedi’u dynodi’n Felyn yn cael eu hadolygu'n fewnol yn rheolaidd a bod Dangosydd Perfformiad 23 yn cael ei ystyried er mwyn sefydlu a oedd modd mesur

perfformiad mewn ffordd oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn gywirach a'r cymhlethdodau dan sylw.

Wrth gydnabod cysondeb perfformiad ar draws gwasanaethau'r Cyngor, awgrymodd y Pwyllgor Gwaith, gan fod Cynllun newydd y Cyngor ar y gweill, y gallai hefyd fod yr amser iawn i adolygu ac adfywio'r fframwaith rheoli perfformiad a'r broses adrodd. Byddai hyn, efallai, yn rhoi mwy o sylw i nifer ddethol o ddangosyddion perfformiad a thargedau bob chwarter yn hytrach na'r fformat safonol a chyffredinol a ddefnyddid ar hyn o bryd i adrodd arno.

Wrth gydnabod y pwynt, dywedodd y Prif Weithredwr mai elfen bwysig arall wrth loywi adroddiadau perfformiad oedd y defnydd a wnaed o dechnoleg, cyfryngau digidol a phresenoldeb cyfryngau cymdeithasol i olrhain agweddau ar berfformiad. Elfen arall, hefyd, fyddai tynnu sylw'r cyhoedd at lwyddiannau'r Cyngor ac at unrhyw newidiadau mewn perfformiad trwy ddulliau ac eithrio cyfarfodydd ffurfiol a dogfennau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar fonitro'r Cerdyn Sgorio am Ch2 2022/23, ynghyd â'r mesurau lliniaru a amlinellwyd yn yr adroddiad.**

## 6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O WAITH RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn adolygiad o weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 a pherfformiad yn erbyn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22.

Gan nad oedd yr Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer yn bresennol, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg a thynnodd sylw at y gofynion adrodd statudol yng nghyswllt Rheoli'r Trysorlys a'r canlyniadau penodol a gâi eu cynnwys yn adroddiad adolygu 2021/ 22. Yn ei gyfarfod 28 Medi 2022, craffodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr adroddiad a chadarnhau bod perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel, enillion isel a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau costau llog.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wrth y Pwyllgor Gwaith nad oedd cyfrifon y Cyngor am 2021/22 wedi'u cymeradwyo oherwydd bod disgwyl datrys mater technegol oedd yn cael effaith ar gyfrifon holl awdurdodau lleol Cymru a rhai awdurdodau yn Lloegr. Roedd Llywodraeth Cymru, CIPFA ac Archwilio Cymru bellach wedi dod i gytundeb ar ffordd ymlaen, oedd yn golygu bod gwaith archwilio'r cyfrifon yn debygol o gael ei gwblhau ym mis Ionawr, 2023. Cadarnhaodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw faterion yn codi oedd yn cael effaith ar y ffigyrau yn yr adroddiad adolygu. Fodd bynnag, ers cyfnod yr adroddiad roedd y sefyllfa ariannol wedi newid yn sylweddol mewn perthynas â chyfraddau llog gwell oedd wedi esgor ar enillion gwell ar fuddsoddiadau'r Cyngor. Golygai hyn y gellid cynyddu'r llog a dderbynnir wrth osod cyllideb 2023/24. Ni fenthycwyd yn allanol o gwbl yn y flwyddyn ariannol 2021/22, gyda'r Cyngor, yn hytrach, yn cadw at ei strategaeth o ddefnyddio balansau arian parod yn lle hynny. Er y byddai'r sefyllfa honno'n debygol o newid yn 2023/24, byddai unrhyw fenthyciadau newydd y byddai'r Cyngor yn eu cymryd yn y dyfodol yn ddrytach.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 na châi adroddiad yr adolygiad ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn nes bod y cyfrifon wedi'u cymeradwyo. Barn y Cadeirydd oedd y byddai'n briodol cyflwyno'r cyfrifon terfynol a'r adroddiad ar adolygiad o waith Rheoli'r Trysorlys gyda'i gilydd i'r un cyfarfod o'r Cyngor Llawn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog

Adran 151  hefyd, sut roedd gwaith benthyca'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn gweithio a sut roedd ei gyfraddau llog yn cael eu pennu. Roedd hyn yn cadarnhau bod y gosb am ad-dalu'n gynnar yn uwch na'r llog a arbedwyd er bod benthyciadau'r Bwrdd yn rhatach ar y cyfan na rhai banciau masnachol,  gan ei wneud yn aneconomaidd i ad-dalu'n gynnar.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi y byddai'r ffigurau alldro yn yr adroddiad yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes y byddai gwaith archwilio Datganiad Cyfrifon 2021/22 wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo. Byddir yn adrodd fel bo'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigurau yn yr adroddiad.**
- **Nodi dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2021/22 yn yr adroddiad.**
- **Anfon yr Adroddiad ar yr Adolygiad Blynyddol o waith Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau pellach.**

## 7. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2 2022/23

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith, iddo ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2, blwyddyn ariannol 2022/23.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg a rhoddodd wybodaeth gefndir am y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2022/23. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelwyd ar gyfer 2022/23, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa Treth y Cyngor, oedd tanwariant o £1.128m, sef 0.71% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, roedd cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch y sefyllfa derfynol oherwydd costau ychwanegol yn sgil dyfarniadau cyflog staff a phrisiau ynni cynyddol; prisiau uwch i'w talu am y mwyafrif o'r nwyddau a gwasanaethau a brynir gan y Cyngor o ganlyniad i chwyddiant; cynnydd yn y galw a'r costau oedd yn gysylltiedig â misoedd y gaeaf yn ogystal â chynnydd cyffredinol yn y galw oherwydd yr argyfwng costau byw. Roedd y tanwariant a ragwelwyd hefyd yn cynnwys defnyddio £3m o gronfeydd wrth gefn i ymateb i bwysau ychwanegol. Er bod y prif ffigwr a ragwelwyd, felly, yn dangos sefyllfa bositif ar gyfer 2022/23, nid oedd yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa ac roedd yn hynod debygol ar ddiwedd y flwyddyn mai cadw ei phen uwchlaw'r dŵr fyddai'r gyllideb refeniw neu, o bosib, yn gorwario. Ar ôl defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a chyllid grant ychwanegol, roedd y sefyllfa sylfaenol yn sylweddol waeth, gyda diffyg sylfaenol o dros £4m y byddai'n rhaid mynd i'r afael ag o wrth bennu cyllideb 2023/24.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sylwadau'r Aelodau Portffolio a dywedodd fod y sefyllfa ariannol yn debygol o ddirywio yn ail hanner y flwyddyn gan olygu, hefyd, y byddai gosod cyllideb 2023/24 yn heriol iawn oherwydd y ffactorau y cyfeiriwyd atynt gan yr Aelod Portffolio ac a nodwyd yn fanwl yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at bryderon penodol ynglŷn â'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion, oedd dan bwysau cynyddol oherwydd y galw cynyddol. Rhagwelwyd y buasent yn gorwario i raddau sylweddol er y câi grantiau a chronfeydd wrth gefn ychwanegol eu defnyddio i leihau'r gorwariant. Ar y llaw arall, roedd gwarged a ragwelwyd yng nghyllideb y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff, yn bennaf yn sgil gwerthu tanysgrifiadau gwastraff gwyrdd a deunyddiau ailgylchadwy, yn gyfle i addasu'r gyllideb incwm at i fyny. Er rhagweld y byddai incwm craidd presennol Treth y Cyngor yn uwch na'r gyllideb a, hefyd, gyllideb Premiwm Treth y Cyngor, gallai'r sefyllfa newid wrth i amgylchiadau pobl newid, apeliadau gael eu gwneud, gostyngiadau ac eithriadau fod yn berthnasol a, hefyd, wrth i eiddo gael ei drosglwyddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr ardrethi busnes. Byddai'n rhaid i unrhyw orwariant diwedd blwyddyn gael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor oedd, yn ei dro, yn lleihau'r sgôp i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli cyllideb 2023/24. Y

DRAFT

disgwyl oedd y byddai gosod y rhain yn dasg anodd iawn. Câi’r gyllideb refeniw ei hadolygu'n fisol yn ail hanner y flwyddyn.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Craffu Cyllid, y byddai’r Panel yn canolbwyntio ar y sefyllfa yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd mewn cyfarfodydd i ddod.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y sefyllfa a chydnabod yr heriau oedd i ddod a chydnabuwyd bod llawer ohonynt yn deillio o ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Nododd y Pwyllgor Gwaith, hefyd, nad oedd y prif ffigurau yn unig yn dangos y gwir ddarlun, sef cyllidebau oedd yn dod dan bwysau cynyddol o ganlyniad i gostau uwch a galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig yn y maes Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion, a bod defnyddio cronfeydd wrth gefn a grantiau yn cuddio'r gwir sefyllfa. Holwyd ynghylch costau ynni'r Cyngor a'r sefyllfa o ran bargeinion sefydlog yr oedd y Pwyllgor Gwaith yn eu hystyried yn risg uchel, o ystyried nifer ac ystod ei adeiladau. Holwyd, hefyd, ynghylch dyfarniad cyflog staff ac a ddylid disgwyl i'r Cyngor ariannu dyfarniadau cyflogau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac a allai ychwanegu swm sylweddol at ei filiau cyflog. Yng ngoleuni'r holl faterion a allai ddylanwadu ar sefyllfa'r gyllideb, holodd y Pwyllgor Gwaith pa mor realistig oedd y rhagolygon am ddiwedd y flwyddyn.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sut y pennwyd y dyfarniadau cyflog i staff addysgu a staff nad oeddynt yn addysgu a chadarnhaodd nad oedd disgwyl i unrhyw arian ychwanegol gael ei roi i dalu'r costau cysylltiedig ar gyfer y naill grŵp na'r llall. Roedd y Cyngor yn rhan o fframwaith cenedlaethol ar gyfer prynu ynni tan 2023/24, gwaith a wnaed gan gwmni hyd braich oedd yn gysylltiedig â Chyngor Sir Caint, oedd yn prynu ar ran nifer o awdurdodau lleol yn genedlaethol. Fodd bynnag, câi prisiau eu hadolygu'n flynyddol ym mis Hydref ac er bod y prisiau diweddaraf newydd ddod i law a heb eu harchwilio eto, roedd ffigurau a gyflwynwyd gan y cwmni ddeufis yn ôl yn dangos cynnydd o 60% yn y pris a dalai’r Cyngor am ei drydan a chynnydd o 160% ym mhris nwy, a olygai y byddai gwariant ynni blynyddol y Cyngor yn codi o tua £3m i £5m ar y sail hon. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei bod yn debygol bod y tanwariant o £1.128m a ragwelwyd ar gyfer 2022/23 yn rhy optimistaidd, o ystyried popeth, ac y byddai gan hyn, yn ei dro, oblygiadau i strategaeth cyllideb 2023/24.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd y Rhaglen Re:fit, oedd â'r bwriad o helpu cyrff cyhoeddus i leihau faint o ynni a ddefnyddient drwy weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni, ac oedd yn cynhyrchu tua £300mil o arbedion y flwyddyn, yn ddigon i wneud iawn am y bwlch pris yn yr hyn oedd yn farchnad ynni oedd yn newid yn gyflym.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a nodwyd yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23, fel y’i manylir yn Atodiad C.**
- **Nodi gwaith monitro costau asiantaeth ac ymgynghori ar gyfer 2022/23 yn Atodiadau CH a D.**
- **Cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant o £100mil i gynyddu band eang mewn ysgolion i gronfa wrth gefn a glustnodwyd i ariannu gwaith gwella band eang yn 2023/24 - gwaith oedd wedi'i ohirio oherwydd gwaith cwblhau prosesau caffael priodol.**

## 8. MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF - CHWARTER 2 2022/23

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad cyllideb gyfalaf 2022/23 yn Chwarter 2.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg a dywedodd mai £52.725m oedd cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai, llithriad cyfalaf o 2021/22 a chynlluniau ychwanegol oedd wedi dod ar y rhaglen wrth i grantiau cyfalaf ddod ar gael. (Yn yr adroddiad cafwyd y sefyllfa ddiweddaraf o ran cynlluniau grant cyfalaf yn rhaglen gyfalaf 2022/23). Er mai 103% oedd y gyllideb broffiliedig a wariwyd hyd at ddiwedd yr ail chwarter ar gyfer y gronfa gyffredinol, dim ond 37% o'r gyllideb flynyddol oedd wedi ei wario hyd yma, yn bennaf oherwydd bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf wedi eu pwysoli tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol. Y tanwariant a ragwelwyd ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 oedd £5.572m, gyda hwn yn llithriad posibl i 2023/24, gyda'r tanwariant sylweddol a ragwelwyd o fewn y Cynllun Refeniw Tai yn gyfrifol am y cyfraniad mwyaf. Byddai'r cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a châi ei gynnwys yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf. Rhagwelwyd costau uwch gyda chynllun Melin Llynnon ac, i'r perwyl hwn, gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyllid ychwanegol er mwyn gallu cwblhau'r cynllun llawn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad oedd Cyllideb Gyfalaf 2023/24 yn debygol o gynyddu'n sylweddol, er bod costau prosiectau cyfalaf yn cynyddu, gan gyfyngu ar yr hyn y gall y Cyngor ei wneud o ran gwariant cyfalaf. Nid oedd y grant cyfalaf cyffredinol wedi newid fawr ddim, gyda chyfran gynyddol o'r cyllid yn cael ei wario ar gynnal asedau a llai ar gynlluniau newydd neu gynlluniau twf. Golygai hyn ei bod yn mynd yn anos bob blwyddyn i osod cyllideb gyfalaf oedd yn symud yr Ynys yn ei blaen. Câi swm cynyddol o wariant cyfalaf hefyd ei ariannu gan grantiau allanol yr oedd llawer ohonynt ynghlwm wrth brosiectau penodol.

Tynnodd y Prif Weithredwr, hefyd, sylw at y ffaith fod llawer o'r grantiau a ddyfarnwyd yn gystadleuol, a olygai bod angen amser ac adnoddau i baratoi ceisiadau a datblygu achosion busnes ar gyfer y broses gystadleuol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith fod gostyngiad yn y gyllideb gyfalaf yn rhoi her ychwanegol o ran gallu gweithredu cynlluniau oedd yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau a hefyd o ran rheoli cyllideb oedd yn cyd-fynd â disgwyliadau a/neu ddyheadau.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2022/23 yn Chwarter 2.**
- **Cymeradwyo'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Melin Llynnon yn unol ag adran 4.2 yr adroddiad.**

## 9. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 2 2022/23

Cyflwynwyd, i sylw'r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai yn Chwarter 2 2022/23.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg a dywedodd fod gwarged/diffyg refeniw'r CRT ar ddiwedd Chwarter 2 yn dangos gorwariant o £493mil o gymharu â'r gyllideb broffiliedig. Roedd y rhagolwg wedi'i adolygu ac

yn dangos gorwariant rhagamcanol o £958k, gyda £298k ohono yn ymwneud â dyfarniad cyflog 2022/23, yr oedd yn ofynnol i'r CRT ei ariannu'n llawn. Roedd gwariant cyfalaf £2k yn uwch na'r gyllideb broffiliedig oedd yn rhagdybio y câi llawer o'r gwaith ei wneud yn ail hanner y flwyddyn. Roedd y gwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn £2,949k yn is na'r gyllideb. Roedd y diffyg a ragwelwyd, oedd yn cyfuno refeniw a chyfalaf, bellach yn £4,137k, £1,991k yn is na'r gyllideb, yn bennaf o ganlyniad i wariant cyfalaf is na'r hyn a gyllidebwyd. Balans agoriadol cronfa'r CRT oedd £12,333k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £6,128k o'r balans hwn. Fodd bynnag, £4,137k yn unig fyddai'r rhagolygon diwygiedig yn ei ddefnyddio, gan arwain at falans wrth gefn o £8,196k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly, roedd y balans wedi'i glustnodi ac ar gael i ariannu gwariant CRT y dyfodol yn unig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ieuan Williams at Atodiad C, lle cafwyd dadansoddiad o'r gwariant ar gynlluniau adeiladau newydd/caffael presennol a thynnodd sylw at y ffaith mai £6miliwn oedd cyfanswm y Cyngor o ran gwariant a ragwelwyd ar ddatblygu cynlluniau tai newydd yn 2022/23.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mai'r cynlluniau a restrwyd yn Atodiad C oedd y rhai y cytunwyd arnynt ac y gweithredid arnynt. Byddai'r Gwasanaeth Tai yn ychwanegu cynlluniau newydd at y rhai a restrwyd wrth i'r Cyngor barhau i ddatblygu ac ehangu ei stoc tai. Wrth iddo wneud hynny, byddai balans wrth gefn y CRT, sef £8,196k, yn lleihau'r strategaeth a ddefnyddid i dynnu o'r balans wrth gefn yn y lle cyntaf, cyn i'r CRT symud i fenthyca'n allanol. Telid costau benthyca o'r incwm a gynhyrchir gan y tai a ddatblygid. Câi pob cynllun datblygu tai arfaethedig ei asesu i ganfod a oedd yn ariannol hyfyw.

**Penderfynwyd–**

- **Nodi'r sefyllfa a nodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2022/23.**
- **Nodi'r alldro a ragwelwyd am 2022/23.**

**10. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AM 2023/24**

Cyflwynwyd, i sylw'r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at ddiben gosod sylfaen Treth y Cyngor am 2023/24.

Cyflwynodd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg, gan nodi mai 31, 272.36 oedd y ffigwr a gyfrifwyd ar gyfer sylfaen Treth y Cyngor i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i osod y Grant Cynnal Refeniw i'r Cyngor ar gyfer 2023/24. Nid oedd y ffigur hwn yn cynnwys addasiadau ar gyfer premiymau a gostyngiadau a roddwyd gan rai awdurdodau (nid Ynys Môn), mewn perthynas â Dosbarthiadau A, B, ac C. Y ffigur ar gyfer y Sylfaen Dreth at ddibenion pennu treth oedd yn cynnwys addasiadau ar gyfer premiymau oedd 32,819.56.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y broses a ddefnyddiwyd i gyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor at ddiben Llywodraeth Cymru, wrth iddi bennu lefel y Grant Cynnal Refeniw a hefyd at ddibenion pennu treth leol a'r ffactorau dan sylw. O ran pennu'r dreth leol, eglurodd y cynnydd yn y premiwm ail gartref o 50% i 75%, yr oedd disgwyl iddo gael ei gadarnhau gan y Cyngor Llawn wrth osod y gyllideb ym mis Mawrth, 2023. Cyfeiriodd at newidiadau yn y sylfaen drethu o'r flwyddyn flaenorol o ran nifer yr eiddo a dalai Dreth safonol y Cyngor, eiddo oedd yn wag yn y tymor hir ac ail gartrefi a chadarnhawyd y byddai cynyddu'r premiwm ail gartrefi o 50% i 75% yn esgor ar £800mil ychwanegol i'w ail-fuddsoddi mewn prosiectau tai i helpu pobl ifanc brynu cartref yn eu hardal. Mewn ymateb i gwestiynau am effaith y premiwm ail gartrefi ar y Grant Cynnal

Refeniw ac a oedd y Grant Cynnal Refeniw yn ystyried proffiliau demograffig, yn benodol poblogaeth hŷn a'u hangen, oedd yn fwy, am wasanaethau, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sut y câi Asesiad o Wariant Safonol, sef asesiad o'r swm yr oedd angen i awdurdodau yng Nghymru ei wario ar wasanaethau, ei gyfrifo. Eglurodd, hefyd, y ffactorau a ystyriwyd, oedd yn cynnwys nifer o setiau data gwahanol, gan gynnwys poblogaeth. Cadarnhaodd nad oedd y premiwm ail gartrefi'n cael effaith ar faint o gyllid yr oedd y Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a dywedodd nad oedd poblogaeth lle'r oedd y mwyafrif yn hŷn yn cynhyrchu mwy o gyllid. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yn y boblogaeth iau yn cael effaith ar y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ac yn lleihau faint o gyllid a gâi'r Cyngor.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cyfrifiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 o Sylfaen Treth y Cyngor – câi hwn ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2023/24 31,272.36 (Rhan E6 Atodiad A yr adroddiad).**
- **Cymeradwyo cyfrifiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i bwrpas gosod Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer yr ardal gyfan a rhannau o'r ardal am y flwyddyn 2023/24 (Rhan E5 Atodiad A yr adroddiad).**
- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (OS 19956/2561), fel y'i diwygiwyd gan OS1999/2935 a'r Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sylfaen treth ar gyfer y flwyddyn 2023/24 fyddai 32,819.56 a byddai'r rhannau o'r ardal fel y'u rhestrir yn y tabl dan argymhelliad 3 yn yr adroddiad.**

## 11. POLISI GOSOD CYFFREDIN AR GYFER TAI CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i addasu'r Polisi Gosod Cyffredin dros dro er mwyn ymateb i anghenion tai unigolion mewn llety brys/dros dro.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod y Gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn y nifer oedd angen cymorth oherwydd cyfuniad o ffactorau, gyda 42 o aelwydydd mewn llety brys/dros dro yn ystod wythnos olaf mis Hydref, gan gynnwys 12 aelwyd deuluol. Roedd swyddogion yn parhau i fod â llwyth achosion uwch oherwydd y cynnydd mewn pobl a gyflwynai'n ddigartref a'r ffaith nad oedd cyfle i symud i lety sefydlog. Mewn ymgais, felly, i gael trosiant o bobl yn gadael y llety brys a lleihau'r angen amdano, roedd y Gwasanaeth yn cynnig addasu ei broses gosod er mwyn caniatáu i un o bob pedwar eiddo gael ei osod i unigolion oedd mewn llety brys neu mewn perygl o fod yn ddigartref a pheidio â dilyn y Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer pob achos. Byddai gwneud hyn yn sicrhau bod y rhai oedd â'r angen mwyaf am dai yn cael eu hystyried yn gynt ac yn cael cynnig tai addas. Byddai nifer y gosodiadau o'r fath yn cael eu monitro'n chwarterol a châi trefn adolygu ei datblygu i sicrhau y câi cymorth priodol ei roi i gynnal y denantiaeth. Pe câi ei gefnogi, byddai'r dull gosod yn uniongyrchol yn cael ei gymeradwyo gan y Rheolwr Opsiynau Tai, gan nad yw gosodiadau o'r fath yn unol â'r Polisi Gosod Cyffredin.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo newid rhannol dros dro yn y Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer yr unigolion oedd yn cyflwyno'n ddigartref ac oedd wedi'u rhoi mewn llety brys/dros dro neu mewn perygl o gael eu gosod ynddynt.**
- **Bod Rheolwr y Tîm Opsiynau Tai yn cymeradwyo gosodiadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer aelwydydd digartref, gan na fyddai'r gosodiadau hyn yn glynu wrth y Polisi Gosod Cyffredin.**

## 12. NEWID POLISI'R GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i newid Polisi'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl fel y ceid gwared â'r prawf modd o'r broses ymgeisio ar gyfer addasiadau bach a chanolig.

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ddiben y Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac eglurodd y broses ymgeisio. Cyn y pandemig roedd y gyllideb o £750,000 yn cwrdd â'r galw ac fe'i gwariwyd yn llawn o fewn y flwyddyn ariannol. Er bod y galw wedi lleihau yn ystod y pandemig, yn ystod y chwe mis diwethaf, gwelwyd achosion a gafodd eu gohirio yn ystod y cyfnod hwnnw yn dod yn ôl i'r system, gyda nifer o'r rheini'n ddyfarniadau grant sylweddol oedd yn debygol o roi mwy o bwysau ar y gyllideb. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol gael gwared â phrofion modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig, gyda phob awdurdod yn cael cynnydd o 10% yn ei gyllideb Galluogi i dalu'r gost ychwanegol. Gwaith bach oedd y gwaith oedd yn costio hyd at £1,000 ac roedd gwaith canolig yn cyfeirio at waith oedd yn costio rhwng £1,000 a £10,00. Barnwyd bod yr holl waith oedd yn costio dros £10,000 yn addasiadau mawr a byddent yn parhau i fod yn rhan o'r drefn prawf modd. Yn yr adroddiad, ceid enghreifftiau o'r math o waith a ddeuai dan y categorïau bach a chanolig. Byddai cael gwared â'r profion modd o broses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn lleihau'r amser y byddai'n ei gymryd i brosesu ceisiadau. Gallai, hefyd, leihau nifer y cleientiaid a wnâi heb addasiadau a gâi eu hargymell, oherwydd y prawf modd. Ystyriai'r adroddiad, hefyd, effaith bosibl y newid mewn polisi ar alw a'r hyn y gallai cynnydd yn y galw ei olygu o ran costau a'r amserlen ar gyfer cwblhau addasiadau.

**Penderfynwyd cymeradwyo cael gwared â'r prawf modd ariannol o'r broses ymgeisio am Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwaith bach a chanolig hyd at £10,000.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24 Ionawr 2023 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd.  Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2023;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2023 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

Tudalen 14

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwefror 2023** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 2 | **Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2021/22** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 3 | **Trefniadau Polisi Cynllunio newydd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | Cyngor Llawn<br><br>9 Mawrth 2023 |
| **Mawrth 2023** | | | | | | | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | |
| 6 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | |
| 7 | **Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | Cyngor Llawn<br><br>9 Mawrth 2023 |
| 8 | **Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | Cyngor Llawn<br><br>9 Mawrth 2023 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2023/24** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | |
| 10 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn – Pennu Ffi Safonol 2023/24**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | |
| 11 | **Ffioedd a Thaliadau 2023/24** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | |
| 12 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 28 Chwefror 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | Cyngor Llawn<br><br>9 Mawrth 2023 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | Cyngor Llawn<br><br>9 Mawrth 2023 |
| 14 | **Cyllideb Gyfalaf 2023/24** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 28 Chwefror 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2023 | Cyngor Llawn<br><br>9 Mawrth 2023 |
| | | | | | | | |
| 15 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/22** | Deilydd Portffolio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>15 Mawrth 2023 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2023 | |
| | | | | | | | |
| 16 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 18 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 19 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| | | | | **Ebrill 2023** | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |

Tudalen 19

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>19 Ebrill 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| 22 | **Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Ebrill 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | Cyngor Llawn<br><br>Mai 2023 |
| 23 | **Cynllun Rheoli Cyrchfan** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>19 Ebrill 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| | | | | **Mai 2023** | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2023 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2023** | | | |
| 25 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23**<br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2023 | |
| | | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 28 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 30 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| | | | | **Gorffennaf 2023** | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2023 | |
| 32 | **Cyfrifon Drafft 2022/23 a defnydd o'r Balansau ac Arian Wrth Gefn** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Medi 2023** | | | | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 34 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 35 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 36 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2023

Diweddarwyd 11 Ionawr 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 37 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 38 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol /<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24 Ionawr 2023 |
| Pwnc: | Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad (AGP) Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn. |
| Aelod(au) Portffolio: | Cynghorydd Gary Pritchard - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Cynghorydd Alun Roberts – Gwasanaethau Oedolion |
| Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr: | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac<br>Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Emma Edwards<br>01248 751887<br>emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | |

## A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

**Cefndir:**

Cafodd Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion, eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) rhwng 10 -14 Hydref 2022, fel rhan o'u rhaglen Gwerthuso Perfformiad arferol, a chafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ar 14 Rhagfyr 2022.

Diben yr AGP oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae adroddiad AGC yn nodi cryfderau, arfer da a datblygiadau mewn gwasanaethau ac nid yw'n amlygu unrhyw feysydd risg sylweddol na materion diogelu. Mae'r adroddiad yn rhestru meysydd datblygu yr oedd yr adran yn ymwybodol ohonynt ac mae eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â materion o'r fath drwy "gynllun datblygu" diwygiedig, a bydd y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn craffu arno yn ogystal â'r Panel Sgriwtini Corfforaethol.

O gofio'r pwysau y mae'r "sector gofal" wedi'i wynebu yn ystod y pandemig a'r pwysau y mae'r sector yn ei wynebu ar hyn o bryd yn sgil yr argyfwng "costau byw" a "phroblemau staffio" mae hwn yn adroddiad cadarnhaol sy'n cadarnhau ein bod ni'n rhoi cefnogaeth dda i'r bobl fwyaf bregus ar Ynys Môn ac y dylem ymfalchïo yn ein Hadran Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhellion:**



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| **A1:** Bod aelodau'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad (AGP) o'n hadrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2022.<br><br>**A2:** Argymhellir bod yr aelodau yn:<br>a) cynnig sylwadau ar gynnwys yr adroddiad;<br>b) ystyried y cryfderau a meysydd gwella (crynodeb isod) a'r ffordd orau o gefnogi ein gwaith yn y dyfodol.<br><br>**Trosolwg o'r Adroddiad:**<br><br>Mae AGC wedi darparu'r crynodeb canlynol o'u canfyddiadau:<br><br>1. Yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae CSYM yn profi cyfnod heriol o ran darparu a chomisiynu gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pwysau a brofir gan wasanaeth oedolion yr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r cyd-destun cenedlaethol o adfer ar ôl pandemig, gan gynnwys lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion<br>2. Mae'n amlwg bod yr heriau yn sgîl prinder gwasanaethau gofal cymdeithasol o achos heriau staffio yn cael effaith ar ddarparu gofal a chymorth i bobl. Hwn oedd y mater sy'n peri mwyaf o bryder i ymarferwyr a rheolwyr ym maes gwasanaethau oedolion. Dywedodd staff wrthym am yr heriau i gefnogi pobl i gyrraedd eu canlyniadau personol o ganlyniad i bwysau ar adnoddau i gwrdd â'r galw. Cafwyd enghreifftiau lle nad oedd gwasanaethau gofal cartref ar gael i rai pobl, ac o ganlyniad nid oedd gan bobl ddewis ond symud i gartref gofal am gyfnod, er efallai y byddai'n well ganddynt dderbyn gofal a chymorth yn eu cartref eu hunain.<br>3. Adnabuwyd fod lle i gryfhau a chysoni'r ymarfer da o ran ennyn ac ystyried llais unigolion.<br>4. Mae lleihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol yn amlwg yn flaenoriaeth gan GSYM a gwelwyd cyd weithio llwyddiannus ar lefel strategol i yrru'r agenda ataliol yn ei blaen.<br>5. Mae brwdfrydedd a pharodrwydd CSYM i weithio gyda phartneriaid yn gryf. Clywyd am sawl lwyddiant o gyd weithio â phartneriaid ar lefel strategol gyda chynlluniau wedyn yn cael eu gwireddu ar lefel weithredol er budd unigolion. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio ar lefel weithredol hefyd ond gyda rhai enghreifftiau lle gellid fod wedi ymateb i unigolion yn fwy amserol i sicrhau nad oes cynnydd yn eu hanghenion. Mae'r bartneriaeth gyda iechyd ar lefel eilaidd yn gallu bod yn heriol ar adegau. Dylai'r awdurdod lleol barhau â'r ymdrechion presennol i gydweithio a gwella'r bartneriaeth gyda'r bwrdd iechyd, gan gynnwys mewn perthynas â rhyddhau o'r ysbyty.<br>6. Clywsom neges gyson ganmoladwy gan y gweithlu am ansawdd yr arweinyddiaeth a'r diwylliant ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Clywsom fod rheolwyr yn weledol, hygyrch ac yn rhoi cyngor dibynadwy a rheolaidd, a bod cyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol. |

## A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

7. Mae llesiant staff yn parhau i gael ffocws positif ar draws gwasanaethau, gyda strategaethau yn eu lle i gefnogi staff drwy'r pandemig ac er hynny. Mae gan yr awdurdod lleol strategaeth glir ar gyfer ei weithlu, a nodir llwyddiant y cynlluniau hyfforddeion gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol.
8. Cydnabyddwn y gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol y mae adran gwasanaethau cymdeithasol CSYM wedi ei gael ers 2016. Dylid sicrhau yn sgîl heriau ariannol bod y gefnogaeth yn parhau er mwyn gyrru'r gwelliannau ymhellach ar draws gwasanaethau plant ac oedolion.
9. Mae CSYM yn hybu diwylliant o fyfyrio a dysgu ac yn gweithredu systemau awdit. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer da gyda gwaith awdit yn adnabod ymarfer da yn ogystal ag ymarfer sydd angen ei wella. Mae'r craffu corfforaethol yn gryf ac yn herio perfformiad ar draws yr awdurdod lleol.
10. Dylai'r awdurdod lleol barhau i adlewyrchu ar ymarfer sy'n ymwneud â Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a sicrhau bod yr ymarfer yn gweithredu yn unol ag egwyddorion y ddeddf.
11. Mae'r nifer o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol oddi mewn i'r gwasanaethau yn bositif, gyda llai o drosiant na'r targed corfforaethol.
12. Mae ymrwymiad CSYM i ddarparu gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg yn bositif. Amlygir yr ymrwymiad yn eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Gwelsom dystiolaeth gyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y "Cynnig Gweithredol" i siarad Cymraeg, a bod dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith. Dylai'r awdurdod lleol ystyried ymhellach sut y gellid gwella ar y cynnig yma, drwy nodi er enghraifft yr iaith y dymuna pobl gyfathrebu ynddi yn ysgrifenedig.

**Cryfderau a Meysydd i'w Gwella - Crynodeb:**

**Pobl – llais a rheolaeth**

*Ystyriodd AGC pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?*

Casgliadau AGC - Cryfderau:

- Gwelsom enghreifftiau positif o ymarfer gwaith cymdeithasol ble mae'r oedolyn yn ganolog sy'n caniatáu i lais pobl gael ei gryfhau ochr yn ochr â beth sy'n bwysig iddynt hwy. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cymhorthyddion cyfathrebu, ac addasu amseru a lleoliadau asesiadau. Gwelsom ymarfer ble roedd staff yn dyfalbarhau gyda'u hymdrechion i adeiladu perthynas gyda phlant a'u teuluoedd, a chael llwyddiant o ganlyniad i'w hymdrechion.
- Gall pobl sydd yn derbyn gwasanaeth gofal cartref fod yn hyderus bod eu cynlluniau gofal yn adlewyrchu eu hanghenion. Clywsom gan ddarparwyr gwasanaethau gofal cartref bod safon yr asesiadau yr oeddynt yn eu derbyn gan weithwyr cymdeithasol ar y cyfan yn dda, yn adlewyrchu

anghenion pobl. Mae hyn wedyn yn hwyluso'r dasg iddynt hwy o ran cynllunio gofal a chefnogaeth sy'n addas i gwrdd â'r anghenion hynny.

Casgliadau AGC – Meysydd i'w gwella:

- Dylai'r awdurdod lleol adeiladu ar y gwaith da sydd yn digwydd i sicrhau bod lleisiau pobl a beth sy'n bwysig iddynt hwy yn cael ei adlewyrchu yn gyson mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth.
- Mae gan CSYM gynlluniau strategol, ynghyd â ymarfer da ar lefel weithredol ar y cyfan, i adnabod a chefnogi gofalwyr. Er hynny, gwelwyd nifer fechan o enghreifftiau ble na chynhigiwyd asesiadau i ofalwyr, a ble nad oedd cofnod i gadarnhau dymuniadau a galluedd gofalwyr i barhau gyda'r dasg o ofalu. Dylai'r awdurdod lleol gryfhau ei gynnig o asesiad gofalwyr ffurfiol i sicrhau fod hawliau a llais oll ofalwyr yn cael ei hybu. Gall asesiadau gofalwyr, drwy gael eu gweithredu yn gyson, sicrhau y gellid adnabod cyfleoedd i gefnogi a hybu eu llesiant yn fwy effeithiol, gan gynnwys cofnod o sut mae gofalwyr yn elwa o'r gefnogaeth a gynigir.

**Atal**

*Ystyriodd AGC i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, ac nad yw angen yn gwaethygu, wrth sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl?*

Casgliadau AGC - Cryfderau:

- Dengys amryw strategaethau CSYM fod ganddynt weledigaeth glir i leihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol, a gwelwyd sut maent yn buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol i gyrraedd y nod yma. Mae uwch arweinwyr, rheolwyr a chynghorwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol.
- Clywsom hefyd fod plant a theuluoedd yn elwa o wasanaethau Hwb Cymorth Cynnar sy'n cynnwys oddeutu 20 o asiantaethau gwahanol sy'n canolbwyntio ar gefnogi plant a theuluoedd yn gynnar.

Casgliadau AGC – Meysydd i'w gwella:

Gwyddom fod pryderon dybryd am argaeledd gwasanaethau i gefnogi pobl yn genedlaethol a hynny o ganlyniad i faterion fel diffyg gweithlu ar draws y sector. Yn debyg i'r mwyafrif o awdurdodau lleol dros Gymru, mae CSYM hefyd yn wynebu heriau difrifol o ganlyniad i hyn. Gwelsom effaith arwyddocaol ar bobl o ganlyniad i ddiffyg gwasanaethau gofal cartref, ac argaeledd capasiti mewn cartrefi nyrsio/ preswyl o ganlyniad i staffio. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio ar eu datblygiadau strategol a gweithredol mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a chefnogaeth gywir, a hynny yn amserol.

**Llesiant**

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| *Ystyriodd AGC i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?*<br><br>Casgliadau AGC – Cryfderau:<br><br>• Gwelwyd cofnod mewn asesiadau oedd yn profi fod gweithwyr yn gyson yn ystyried os oedd gan bobl alluedd meddyliol ac os oeddynt yn cytuno i asesiadau.<br>• Mae'n amlwg fod CSYM yn adnabod bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb ac amlygwyd hynny yn y cyfweliad gydag Arweinydd y Cyngor a Deilyddion Portffolio gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion. Clywyd sut oedd yn flaenoriaeth gan yr Arweinydd i hybu dealltwriaeth a'r cyfrifoldeb dros ddiogelu ar draws adrannau.<br>•<br>Casgliadau AGC – Meysydd i'w gwella:<br><br>• Dylai'r awdurdod lleol barhau i flaenoriaethu gwella ymarfer diogelu yng ngwasanaethau oedolion, i gynnwys ansawdd a chyflawnder gwaith a gwblheir, gan gynnwys cofnodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru (GDC).<br>• Roedd ymarfer yn amrywio o ran cwblhau asesiadau galluedd meddyliol. Yn yr enghreifftiau gorau gwelwyd gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol a'r Cod Ymarfer ond nid oedd yr ymarfer hwn yn gyson. Gwelwyd asesiadau ble roedd angen mwy o fanylion; ynglŷn â sut y daethpwyd i'r penderfyniad nad oedd unigolyn yn deall / cadw gwybodaeth ac i adlewyrchu a chadarnhau mwy o lais yr unigolyn.<br><br>**Partneriaethau**<br><br>*Ystyriodd AGC i ba raddau y gall yr awdurdod lleol sicrhau eu hunain bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cwbl integredig, cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl?*<br><br>Casgliadau AGC – Cryfderau:<br><br>• Mae parodrwydd a brwdfrydedd CSYM i weithio mewn partneriaeth ar lefel strategol yn glir. Mae cynlluniau clir mewn lle o ran cydweithio â phartneriaethau i drawsnewid gwasanaethau ar draws gwasanaethau oedolion, ac amlygir y rhain yng nghynllun darparu gwasanaeth oedolion 2022-2023.<br>• Mae'n flaenoriaeth gan CSYM i blant sydd mewn gofal gael byw yn eu cymunedau eu hunain. O ganlyniad, mae CSYM wedi cydweithio yn agos a'u hadran dai i ddatblygu model Cartrefi Clyd ble maent wedi sefydlu nifer fechan o gartrefi plant cofrestredig. Nifer fechan sy'n byw ar unrhyw amser yn y cartrefi sydd yn sicrhau gofal sy'n ganolog i blant unigol.<br><br>Casgliadau AGC – Meysydd i'w gwella: |

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| • Dim wedi'u nodi. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amh. – mae'r Cyngor yn cael ei arolygu'n rheolaidd gan AGC fel rhan o'u cynllun arolygu parhaus. Rhennir yr adroddiad er gwybodaeth ac er mwyn ei ystyried |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Er mwyn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor bod yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn perfformio'u dyletswyddau yn dda, a bod ein harolygwyr allanol, AGC, yn fodlon gyda'r cynnydd a wnaed. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amh. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amh. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr heriau o ran staffio (ledled Cymru) a'r effaith y gall hyn yn ei gael ar anghenion pobl. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Yn eu hadroddiad mae AGC yn datgan: *"Cydnabyddwn y gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol y mae adran gwasanaethau cymdeithasol CSYM wedi ei gael ers 2016. Dylid sicrhau yn sgîl heriau ariannol bod y gefnogaeth yn parhau er mwyn gyrru'r gwelliannau ymhellach ar draws gwasanaethau plant ac oedolion."* |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Yn eu hadroddiad mae AGC yn datgan: *"Mae brwdfrydedd a pharodrwydd CSYM i weithio gyda phartneriaid yn gryf. Clywyd am sawl* |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| | | *lwyddiant o gyd weithio â phartneriaid ar lefel strategol gyda chynlluniau wedyn yn cael eu gwireddu ar lefel weithredol er budd unigolion. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio."* |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Rhoddwyd cyfle i ddinasyddion, gofalwyr, staff a chydweithwyr rannu eu hadborth a'u barn gyda'r arolygwyr, naill ai drwy holiadur ar-lein, grwpiau ffocws, sgyrsiau dros y ffôn neu ymweliadau wyneb yn wyneb. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r adroddiad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Yn eu hadroddiad mae AGC yn datgan:<br>*"Mae ymrwymiad CSYM i ddarparu gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg yn bositif. Amlygir yr ymrwymiad hwn yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol CSYM 2020-2024. Gwelsom dystiolaeth gyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y "Cynnig Gweithredol" i siarad Cymraeg, a bod dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith."* |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol) | 3/1/23 Cytunwyd |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (mandadol) | Fel yr uchod |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amh. |
| 5 | Eiddo | Amh. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh) | Amh. |
| 7 | Caffael | Amh. |
| 8 | Sgriwtini | • Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol 12/1/23<br>• Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19/1/23 |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad (AGP) Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn:<br><br>CIW - 2022-23 - PEI - Adroddiad Arolygu - I |

| Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
| --- |
| Dim |





**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

# Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ar Gyngor Sir Ynys Môn

© Hawlfraint y Goron 2022 WG46618 ISBN digidol 978-1-80535-157-3

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad yng ngwasanaethau oedolion a phlant yng Nghyngor Sir Ynys Môn ('CSYM' / 'yr awdurdod lleol') ym mis Hydref 2022.

Diben yr arolygiad oedd i adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru.

Ceisiwn ateb y cwestiynau canlynol sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

- **Pobl – llais a rheolaeth**
  Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?

  Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau fod y gweithlu yn ddigonol mewn niferoedd, yn meddu ar y sgiliau perthnasol, yn brofiadol ac yn derbyn cefnogaeth?

- **Atal**
  I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, a nad yw angen yn gwaethygu, wrth sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl?

  Pa mor effeithiol yw'r awdurdod lleol wrth ymateb i bobl pan mae eu hanghenion neu eu sefyllfa yn newid?

- **Llesiant**
  I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

- **Partneriaethau**
  I ba raddau y gall yr awdurdod lleol sicrhau eu hunain bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cwbl integredig, cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl?

## 1. Crynodeb

1.1. Yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae CSYM yn profi cyfnod heriol o ran darparu a chomisiynu gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pwysau a brofir gan wasanaeth oedolion yr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r cyd-destun cenedlaethol o adfer ar ôl pandemig, gan gynnwys lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl.

1.2. Mae'n amlwg bod yr heriau yn sgîl prinder gwasanaethau gofal cymdeithasol o achos heriau staffio yn cael effaith ar ddarparu gofal a chymorth i bobl. Hwn oedd y mater sy'n peri mwyaf o bryder i ymarferwyr a rheolwyr ym maes gwasanaethau oedolion. Dywedodd staff wrthym am yr heriau i gefnogi pobl i gyrraedd eu canlyniadau personol o ganlyniad i bwysau ar adnoddau i gwrdd â'r galw. Cafwyd enghreifftiau lle nad oedd gwasanaethau gofal cartref ar gael i rai bobl, ac o ganlyniad nid oedd gan bobl ddewis ond symud i gartref gofal am gyfnod, er efallai y byddai'n well ganddynt dderbyn gofal a chymorth yn eu cartref eu hunain.

1.3. Adnabuwyd fod lle i gryfhau a chysoni'r ymarfer da o ran ennyn ac ystyried llais unigolion.

1.4. Mae lleihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol yn amlwg yn flaenoriaeth gan GSYM a gwelwyd cyd weithio llwyddiannus ar lefel strategol i yrru'r agenda ataliol yn ei blaen.

1.5. Mae brwdfrydedd a pharodrwydd CSYM i weithio gyda phartneriaid yn gryf. Clywyd am sawl lwyddiant o gyd weithio â phartneriaid ar lefel strategol gyda chynlluniau wedyn yn cael eu gwireddu ar lefel weithredol er budd unigolion. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio ar lefel weithredol hefyd ond gyda rhai enghreifftiau lle gellid fod wedi ymateb i unigolion yn fwy amserol i sicrhau nad oes cynnydd yn eu hanghenion. Mae'r bartneriaeth gyda iechyd ar lefel eilaidd yn gallu bod yn heriol ar adegau. Dylai'r awdurdod lleol barhau â'r ymdrechion presennol i gydweithio a gwella'r bartneriaeth gyda'r bwrdd iechyd, gan gynnwys mewn perthynas â rhyddhau o'r ysbyty.

1.6. Clywsom neges gyson ganmoladwy gan y gweithlu am ansawdd yr arweinyddiaeth a'r diwylliant ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Clywsom fod rheolwyr yn weledol, hygyrch ac yn rhoi cyngor dibynadwy a rheolaidd, a bod cyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol.

1.7. Mae llesiant staff yn parhau i gael ffocws bositif ar draws gwasanaethau, gyda strategaethau yn eu lle i gefnogi staff drwy'r pandemig ac er hynny.

Mae gan yr awdurdod lleol strategaeth glir ar gyfer ei weithlu, a nodir llwyddiant y cynlluniau hyfforddeion gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol.

1.8. Cydnabyddwn y gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol y mae adran gwasanaethau cymdeithasol CSYM wedi ei gael ers 2016. Dylid sicrhau yn sgîl heriau ariannol bod y gefnogaeth yn parhau er mwyn gyrru'r gwelliannau ymhellach ar draws gwasanaethau plant ac oedolion.

1.9. Mae CSYM yn hybu diwylliant o fyfyrio a dysgu ac yn gweithredu systemau awdit. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer da gyda gwaith awdit yn adnabod ymarfer da yn ogystal ac ymarfer sydd angen ei wella. Mae'r craffu corfforaethol yn gryf ac yn herio perfformiad ar draws yr awdurdod lleol.

1.10. Dylai'r awdurdod lleol barhau i adlewyrchu ar ymarfer sy'n ymwneud â Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a sicrhau bod yr ymarfer yn gweithredu yn unol ag egwyddorion y ddeddf.

1.11. Mae'r nifer o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol oddi mewn i'r gwasanaethau yn bositif, gyda llai o drosiant na'r targed corfforaethol.

1.12. Mae ymrwymiad CSYM i ddarparu gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg yn bositif. Amlygir yr ymrwymiad yn eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Gwelsom dystiolaeth cyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y "Cynnig Gweithredol" i siarad Cymraeg, a bod dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith. Dylai'r awdurdod lleol ystyried ymhellach sut y gellid gwella ar y cynnig yma, drwy nodi er enghraifft yr iaith y dymuna pobl gyfathrebu ynddi yn ysgrifenedig.

**<u>Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth</u>**

Rydym yn cyflwyno ein prif ganfyddiadau a thystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor y Ddeddf 2014.

## 2. <u>Pobl – Llais a Rheolaeth(Gwasanaethau Plant ac Oedolion)</u>

**Cryfderau:**

2.1. Gwelsom enghreifftiau positif ble roedd ymarferwyr yn ystyried anghenion unigolion am wasanaeth eiriolaeth, ac enghreifftiau o'r cynnig gweithredol. Mae trefniadau addas mewn lle i bobl dderbyn eiriolaeth ffurfiol ynghyd ag eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Nodwyd hefyd enghreifftiau o unigolion yn elwa o eiriolaeth anffurfiol a gwelwyd ymarfer cadarnhaol ble nodwyd nad oedd eiriolaeth yn berthnasol, ond nid oedd y rheswm am hynny yn glir. Dylid ymhelaethu ar hyn i'r awdurdod lleol brofi yn gliriach eu bod wedi cwrdd â'u dyletswydd statudol o ran cynnig eiriolaeth.

2.2. Gwelsom enghreifftiau positif o ymarfer gwaith cymdeithasol ble mae'r oedolyn yn ganolog sy'n caniatáu i lais pobl gael ei gryfhau ochr yn ochr â beth sy'n bwysig iddynt hwy. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cymhorthyddion cyfathrebu, ac addasu amseru a lleoliadau asesiadau. Gwelsom ymarfer ble roedd staff yn dyfalbarhau gyda'u hymdrechion i adeiladu perthynas gyda plant a'u teuluoedd, a chael llwyddiant o ganlyniad i'w hymdrechion.

2.3. Gall pobl sydd yn derbyn gwasanaeth gofal cartref fod yn hyderus bod eu cynlluniau gofal yn adlewyrchu eu hanghenion. Clywsom gan ddarparwyr gwasanaethau gofal cartref bod safon yr asesiadau yr oeddynt yn dderbyn gan weithwyr cymdeithasol ar y cyfan yn dda, yn adlewyrchu anghenion pobl. Mae hyn wedyn yn hwyluso'r dasg iddynt hwy o ran cynllunio gofal a chefnogaeth sy'n addas i gwrdd â'r anghenion hynny.

**Beth sydd angen ei wella:**

2.4. Dylai'r awdurdod lleol adeiladu ar y gwaith da sydd yn digwydd i sicrhau bod lleisiau pobl a beth sy'n bwysig iddynt hwy yn cael ei adlewyrchu yn gyson mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth.

2.5. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau fod cofnodion yn cael eu cwblhau yn gyson i brofi fod pobl yn ymwybodol o benderfyniadau creiddiol sydd yn cael eu gwneud amdanynt. Nid oeddem yn hyderus fod cyswllt rheolaidd yn cael ei wneud gyda phobl ar gyfnodau pwysig iawn megis pan nad oedd modd dynodi achos i weithiwr, yn dilyn penderfyniad gan banel i ohirio gwneud penderfyniad am ofal a chefnogaeth, neu pan mae pobl yn parhau ar restr aros am wasanaeth.

2.6. Cydnabyddwn fod yr awdurdod lleol wedi gweithredu mesurau i reoli gwaith megis rhestrau aros ac oedi, sy'n blaenoriaethu asesiadau. Mae'r oedi yn effeithio yn anffafriol ar lesiant pobl gyda rhai enghreifftiau o anghenion pobl yn cynyddu. Gwelwyd un enghraifft ble roedd oedi annerbyniol rhwng y cyfnod pan fu i unigolyn gysylltu gyda'r awdurdod lleol a phan fu i weithiwr cymdeithasol gwblhau asesiad. Yn ogystal, gwelwyd enghraifft o berson yn aros am asesiad gweithiwr cymdeithasol am gyfnod

o dri mis. Nodir fod cynllun gofal a chefnogaeth wedi ei roi mewn lle ar fyrder yn briodol i hyrwyddo'r unigolyn i ddod allan o'r ysbyty, ond dylid fod wedi blaenoriaethu'r asesiad er mwyn i'r awdurdod lleol fod yn hyderus fod y cynllun yn cwrdd â'r anghenion cymwysedig. Dylid felly cryfhau'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer monitro rhestrau aros a bod cofnodion ar gael i brofi cadernid y trefniadau.

2.7. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau yn cael eu hail ymgymryd yn briodol pan roedd yn amlwg fod newid mewn sefyllfaoedd unigolion. Er hynny, mae'r awdurdod lleol angen sicrhau bod oll adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn digwydd yn amserol.

2.8. Mae gan CSYM gynlluniau strategol, ynghyd â ymarfer da ar lefel weithredol ar y cyfan, i adnabod a chefnogi gofalwyr. Er hynny, gwelwyd nifer fechan o enghreifftiau ble na chynhigiwyd asesiadau i ofalwyr, a ble nad oedd cofnod i gadarnhau dymuniadau a galluedd gofalwyr i barhau gyda'r dasg o ofalu. Dylai'r awdurdod lleol gryfhau ei gynnig o asesiad gofalwyr ffurfiol i sicrhau fod hawliau a llais oll ofalwyr yn cael ei hybu. Gall asesiadau gofalwyr, drwy gael eu gweithredu yn gyson, sicrhau y gellid adnabod cyfleoedd i gefnogi a hybu eu llesiant yn fwy effeithiol, gan gynnwys cofnod o sut mae gofalwyr yn elwa o'r gefnogaeth a gynigir.

2.9. Yn unol ag un o brif egwyddorion y Ddeddf 2014, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn derbyn gwybodaeth a chyngor i'w galluogi i benderfynu os ydynt am deilwra a rheoli eu gofal a/neu chymorth eu hunain. Cadarnhaol oedd clywed gan ymarferwyr am enghreifftiau penodol o sut oedd rhai pobl wedi elwa o daliadau uniongyrchol. Cydnabyddir i'r awdit diweddar y mae CSYM wedi ei gwblhau ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y maent yn annog pobl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Mae'r cynllun gweithredu sydd wedi ei lunio yn deillio o hyn yn canolbwyntio ar rai ymarferion y dylid ail afael ynddynt i sicrhau llwyr gydymffurfiaeth gyda'r gofynion statudol o ran taliadau uniongyrchol. Dylai'r awdurdod lleol barhau i flaenoriaethu hybu taliadau uniongyrchol i sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl.

2.10. Mynegodd y mwyafrif o weithwyr eu bod yn derbyn goruchwyliaeth rheolaidd gan eu rheolwyr. O'r sampl o ffeiliau goruchwyliaeth a welwyd, nodwyd fod cynnwys yn amrywio, ynghyd â'r safon. Gwelwyd rhai enghreifftiau ble roedd ffocws clir ar les staff, gan gynnwys anghenion hyfforddiant ond roedd cofnodion yn dangos diffyg tystiolaeth o gyfleon i adlewyrchu ar ymarfer. Dylid cryfhau ymarfer i ddangos bod goruchwylwyr yn rhoi amser i weithwyr adlewyrchu ar ymarfer ac i ystyried y datblygiadau maent yn ei wneud gyda pobl, ac i dystiolaethu y gefnogaeth ychwanegol a roddir i weithwyr yn unol â'u profiad.

2.11. Cwblhaodd 10 unigolyn arolwg AGC mewn perthynas â gwasanaeth oedolion yn benodol. Cadarnhaodd y mwyafrif eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch ond bu i hanner yr unigolion nodi nad oedd yn hawdd cysylltu gyda'r awdurdod lleol. Cydnabyddir fod sicrhau cyfathrebu amserol a mynediad at staff a chynyddu capasiti yn sbardun dros uno yn ddiweddar Teulu Môn a'r Pwynt Cyswllt Unigol (SPoA).

## 3. <u>Atal</u>

**Cryfderau:**

3.1. Dengys amryw strategaethau CSYM fod ganddynt weledigaeth glir i leihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol, a gwelwyd sut maent yn buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol i gyrraedd y nod yma. Mae uwch arweinwyr, rheolwyr a chynghorwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ymyrraeth cynnar a gwasanaethau ataliol.

3.2. Enghraifft o hyn yw strategaeth Heneiddio'n Dda ble mae'r ffocws ar hybu Ynys Môn i fod yn oed gyfeillgar, ac i bobl gael cefnogaeth i fyw yn annibynnol a heneiddio'n dda. Ymwelsom â chanolfan dementia, sydd wedi ei lleoli yn Hwb Mencap Llangefni, a gwelwyd sut mae gweithgareddau ar gyfer bobl sydd yn byw â dementia ac anableddau dysgu yn cael eu hintegreiddio yn llwyddiannus yn y gymuned. Yn ogystal, mae CSYM yn darparu gwasanaeth dementia actif sydd yn defnyddio ymarfer corff a symudedd cyffredinol i gefnogi lles ac iechyd pobl, ac sydd yn arbed i bobl fod yn ynysig.

3.3. Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi ym mhrosiect "Forward Thinking, Forward planning" yng ngwasanaeth Cynnal Gofalwyr, sy'n hybu lles. Mae'r ffocws ar rymuso pobl i feddwl ymlaen, cynllunio a gwneud dewisiadau mewn modd amserol fydd o gymorth iddynt fel maent yn heneiddio, ac yn eu cefnogi i gael dewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain a beth sy'n bwysig iddynt hwy. Yn ogystal, crëwyd llyfryn gwybodaeth yn ddiweddar yn benodol ar gyfer gofalwyr di-dâl ynglŷn â'r broses o dderbyn asesiad gofalwr.

3.4. Mae tîm o gydlynwyr asedau lleol yn parhau i weithredu ar yr ynys ac mae ganddynt rôl greiddiol i hysbysu pobl o beth sydd yn mynd ymlaen yn eu cymunedau, a rhannu gwybodaeth am wahanol wasanaethau/ gefnogaeth all fod o fudd iddynt. Mae'n gadarnhaol gweld y cydlynwyr yn rhan o'r cyfarfodydd yn y timau adnoddau cymunedol fel eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth ac ystyried os oes ganddynt hwy rôl i gefnogi pobl.

3.5. Mae gan yr awdurdod lleol ddau brosiect tai gofal ychwanegol eisoes wedi eu sefydlu yn llwyddiannus o ran cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain. Dengys wybodaeth o strategaeth dai ac asesiad anghenion pobl hŷn diweddaraf yr awdurdod lleol fod angen am gynllun arall o'r fath. Gyda chefnogaeth gorfforaethol a wleidyddol, mae cynlluniau mewn lle i gwrdd

â'r angen. Dengys hyn gyd weithio effeithiol, gan gynnwys cyd-weithio rhyngadrannol oddi mewn i'r awdurdod lleol, o ran rhag cynllunio i'r dyfodol.

3.6. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer da i gefnogi plant a'u teuluoedd, a chydweithio i leihau'r siawns i anghenion gynyddu.

3.7. Gwelsom blant yn elwa o ganlyniad i'r dull integredig o weithio y mae CSYM wedi ei fabwysiadu i wella canlyniadau addysgiadol i blant, gan gynnwys plant mewn gofal. Mae'r model yn cefnogi plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol o fewn eu ffiniau, yn ogystal â phlant sydd wedi eu lleoli allan o'r ffiniau, pobl oedd yn arfer bod mewn gofal hyd at 25 oed, yn ogystal â phlant sydd ar fin dod i ofal yr awdurdod lleol.

3.8. Mae'r weledigaeth yn glir i'r awdurdod lleol fod yn wybodus o effeithiau trawma "trauma informed island". Mae'r rhaglen o weithio mewn modd dull wybodus am drawma wedi ei rannu â'r mwyafrif o ysgolion yn yr awdurdod lleol yn barod, gyda chynlluniau pendant i ehangu'r wybodaeth ar draws mwy o wasanaethau megis gwasanaethau ieuenctid a gwasanaeth maethu er enghraifft. Mae hyn i'w gymeradwyo gan y bydd yn sicrhau cysondeb yn y modd o weithio a chyfathrebu gyda phlant.

3.9. Mae'n amlwg iawn fod y tîm teuluoedd gwydn sydd yn weithredol yn rhoi lefel uchel o gefnogaeth sydd wedi ei deilwra i anghenion plant a'u teuluoedd. Gwelwyd enghreifftiau o weithwyr yn gweithio'n ddyfal i atal pobl ifanc rhag dod i mewn i'r system ofal. Gall plant sydd mewn gofal hefyd elwa o'r gwasanaeth gyda chefnogaeth yn cael ei ddarparu iddynt hwy a'u gofalwyr maeth sydd eto'n fodd o arbed lleoliadau i dorri i lawr.

3.10. Mae'n gadarnhaol nodi fod nifer o blant sydd yng ngofal CSYM yn sefydlog, gyda dangosyddion perfformiad yn dystiolaeth bellach fod yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed i gynorthwyo plant i aros gyda'u teuluoedd.

3.11. Clywsom hefyd fod plant a theuluoedd yn elwa o wasanaethau Hwb Cymorth Cynnar sy'n cynnwys oddeutu 20 o asiantaethau gwahanol sy'n canolbwyntio ar gefnogi plant a theuluoedd yn gynnar.

**Beth sydd angen ei wella:**

3.12. Gwyddom fod pryderon dybryd am argaeledd gwasanaethau i gefnogi pobl yn genedlaethol a hynny o ganlyniad i faterion fel diffyg gweithlu ar draws y sector. Yn debyg i'r mwyafrif o awdurdodau lleol dros Gymru, mae CSYM hefyd yn

wynebu heriau difrifol o ganlyniad i hyn. Gwelsom effaith arwyddocaol ar bobl o ganlyniad i ddiffyg gwasanaethau gofal cartref, ac argaeledd capasiti mewn cartrefi nyrsio/ preswyl o ganlyniad i staffio. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio ar eu datblygiadau strategol a gweithredol mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a chefnogaeth cywir, a hynny yn amserol.

3.13. Ar lefel weithredol, gwelwyd ymarfer amrywiol o ran pa mor amserol oedd pobl yn derbyn ymateb / gwasanaeth a fyddai yn lleihau'r siawns i anghenion bobl gynyddu.

3.14. Dylai'r awdurdod lleol ystyried ei brosesau ar gyfer cofnodi a dogfennu er mwyn symleiddio a gwella ymarferion cofnodi. Clywyd yn uniongyrchol gan staff bod llawer o ffurflenni sydd angen eu cwblhau yn aml cael eu dyblygu.

3.15. Yn debyg i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae CSYM yn cael anhawster i ddarparu llety cofrestredig i rai plant gyda anghenion dwys a chymhleth. Mae hyn yn arwain at yr awdurdod lleol yn lleoli nifer fechan o blant mewn lleoliadau sydd heb eu cofrestru. Er llwyddiant sefydlu Cartrefi Clyd (cartrefi plant yr awdurdod lleol), mae angen i'r awdurdod lleol barhau a'i ymdrechion i adnabod lleoliadau addas, cofrestredig pan gyfyd sefyllfaoedd o'r fath.

## 4. <u>Llesiant</u>

**Cryfdera:**

4.1. Mae'n gadarnhaol nodi bod y gwasanaeth yn parhau i ystyried cynllun peilot sydd wedi ei gynnal yn y rhanbarth gyda nyrsys ardal yn cael eu hyfforddi i gynnal ymholiadau Adran 126 o'r Ddeddf ar gyfer gwasanaethau oedolion. Mae hyn yn ddatblygiad pwysig gan y gall sicrhau bod mwy o gyfle i unigolyn proffesiynol sydd o bosib yn fwy hysbys i bobl allu ymgymryd â chefnogi unigolion gyda'r gwaith yma.

4.2. Gwelwyd cofnod mewn asesiadau oedd yn profi fod gweithwyr yn gyson yn ystyried os oedd gan bobl alluedd meddyliol ac os oeddynt yn cytuno i asesiadau.

4.3. Mae'n amlwg fod CSYM yn adnabod bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb ac amlygwyd hynny yn y cyfweliad gydag Arweinydd y Cyngor a Deilyddion Portffolio gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion. Clywyd sut oedd yn flaenoriaeth gan yr Arweinydd i hybu dealltwriaeth a'r gyfrifoldeb dros ddiogelu ar draws adrannau.

4.4. Gwelwyd dystiolaeth o ymholiadau yn unol ag Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 yn cael eu cynnal yn brydlon, gyda dadansoddiadau clir a chyfeiriadau at reoli risg. Dyfarnwyd fod penderfyniadau addas wedi ei wneud o ran diogelu, a rhesymeg ddealladwy dros unrhyw argymhelliad o ymyrraeth bellach.

**Beth sydd angen ei wella:**

4.5. Dylai'r awdurdod lleol barhau i flaenoriaethu gwella ymarfer diogelu yng ngwasanaethau oedolion, i gynnwys ansawdd a chyflawnder gwaith a gwblheir, gan gynnwys cofnodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru (GDC).

4.6. Gwelwyd mewn un achos yng ngwasanaethau plant or-ffocws ar un math o risg yn benodol gyda diffyg cyfle i asesu risgiau ehangach. Dylid ystyried risgiau yn eu cyfanrwydd, a dylai adroddiadau a chynlluniau gofal adlewyrchu yr holl risgiau yn gyson.

4.7. Mewn achosion ble mae amheuaeth am ddiogelwch oedolyn, dylid amlygu yn gliriach os yw oedolyn yn profi, neu mewn perygl o brofi camdriniaeth neu esgeulustod. Hyn i gynnwys gwneud cofnodion cliriach o benderfyniadau yn dilyn sgrinio cychwynnol, a'r rhesymeg a'r penderfyniad os oes angen ymholiadau dan Adran 126 o'r Ddeddf ai peidio.

4.8. Yn ychwanegol, dylid sicrhau fod y gweithdrefn gywir yn cael ei dilyn pan wneir honiad o gamdriniaeth gan blentyn. Hyn drwy gynnal cyfarfod strategaeth i wneud penderfyniad aml ddisgyblaethol os dylid cynnal ymholiad yn unol ag adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

4.9. Gwelwyd amrywiaeth ym mha mor effeithiol y mae gweithwyr yn gweithredu chwilfrydedd proffesiynol. Roedd tystiolaeth mewn rhai achosion fod ystyriaeth i risgiau posib gyda hyn ond nid oedd hynny pob tro yn gyson. Er hynny, da oedd gweld y swyddog adolygu annibynnol yn codi'r risg o hyn mewn perthynas ag un achos. Byddai'r achos yma wedi elwa o fwy o drosolwg gan arweinydd ymarfer i sicrhau ansawdd y gwaith, ac i adnabod drifft yn y cynllun mewn modd mwy amserol.

4.10. Mae'r awdurdod lleol yn ei gynllun darparu gwasanaeth 2022 – 2023 ar gyfer oedolion yn nodi fod cynlluniau mewn lle i adnabod dealltwriaeth a hyder y gweithlu yn GDC, ac y bydd hyn wedyn yn bwydo mewn i gynllun hyfforddi am ddiogelu oedolion. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn bwriadu adolygu ffurflenni a thempledi i sicrhau fod y rhain yn hybu ymarfer sy'n sicrhau fod y person yn parhau yn ganolog yn ystod y broses ddiogelu.

4.11. Roedd ymarfer yn amrywio o ran cwblhau asesiadau galluedd meddyliol. Yn yr enghreifftiau gorau gwelwyd gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol a'r Cod Ymarfer ond nid oedd yr ymarfer hwn yn gyson. Gwelwyd asesiadau ble roedd angen mwy o fanylion; ynglŷn â sut y daethpwyd i'r penderfyniad nad oedd unigolyn yn deall / cadw gwybodaeth ac i adlewyrchu a chadarnhau mwy o lais yr unigolyn. Gwelwyd enghraifft arall ble ddylid fod wedi cwblhau asesiad oherwydd ansicrwydd ynglŷn â galluedd meddyliol unigolyn i wneud penderfyniad yn ymwneud â diogelu, ond ni wnaethpwyd hynny. Cydnabyddir fod yr awdurdod lleol wedi cwblhau awdit ar safon asesiadau galluedd meddyliol, a bod yr awdit hwnnw hefyd wedi adnabod mannau i wella ymarfer. Mae'n fwriad gan GSYM i gynnal hyfforddiant pellach ac mae'n ymrwymedig i gwblhau awdit pellach i wneud gwelliannau ac i fod yn hyderus bod yr ymarfer yn cwrdd â'u dyletswyddau statudol yn fwy cyson yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol (2005).

4.12. Gwelwyd enghraifft o ffurflen drosolwg rheolwr yn cael ei gwblhau i safon uchel yng ngwasanaethau plant, ond nid oedd y materion a nodwyd yn cael eu dilyn i fyny yn gyson, neu nid oedd cofnod o hynny. Dylid sicrhau bod gwell trosolwg ar gamau sydd angen eu dilyn i fyny a bod cofnod yn dangos bod hynny yn cael ei wneud yn amserol.

## 5. <u>Partneriaethau</u>

**Cryfderau:**

5.1. Mae parodrwydd a brwdfrydedd CSYM i weithio mewn partneriaeth ar lefel strategol yn glir. Mae cynlluniau clir mewn lle o ran cydweithio â phartneriaethau i drawsnewid gwasanaethau ar draws gwasanaethau oedolion, ac amlygir y rhain yng nghynllun darparu gwasanaeth oedolion 2022-2023.

5.2. Gwelsom enghreifftiau o gyd weithio arbennig o dda gyda phartneriaid ar lefel weithredol gyda phlant yn amlwg yn elwa o'r berthynas weithiol. Er enghraifft, gwelwyd partneriaeth weithiol dda rhwng seicolegydd a'r gwasanaeth plant, a'r gwasanaeth plant yn derbyn argymhellion y seicolegydd ac yn gweithio i gomisiynu darpariaeth yn unol â'r argymhellion hynny.

5.3. Mae'n gadarnhaol nodi'r trefniant i weithwyr o wasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc gael eu cyd leoli yn swyddfeydd CSYM. Bydd hyn cryfhau cydweithio ar lefel weithredol ac yn caniatáu rhannu gwybodaeth a chynllunio amserol a fydd er lles plant a'u teuluoedd.

5.4. Mae enghreifftiau positif o gydweithio gyda iechyd gan gynnwys strwythr y tîmau anabledd dysgu a thimau adnoddau cymunedol, yn ogystal â'r peilot ar gyfer cronfa gyfun.

5.5. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan gynrychiolydd o Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn arolwg am y lefel o gyd weithio.

5.6. Bu i GSYM fel awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru ynghyd â BIPBC gymeradwyo strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru yn 2019, ac o'r strategaeth honno y daeth argymhelliad i ymchwilio i fuddiannau posib cronfa gyfun. Mae CSYM yn arwain ar y peilot yma i weld os ydi posib cael trefniadau mwy effeithiol mewn lle i gomisiynu gofal a chefnogaeth ar y cyd gydag iechyd. Mae cynllun mewn lle i werthuso'r peilot a rhannu'r dysgu.

5.7. Clywsom am y berthynas gadarnhaol sydd rhwng gwasanaeth oedolion â'r trydydd sector, gyda gwerthfawrogiad amlwg fod y trydydd sector yn hybu ymgysylltiad ac yn gyrru agenda ataliol yr awdurdod lleol ymlaen. Cyfeiriwyd at lwyddiannau CSYM yn defnyddio fforymau a byrddau sydd eisoes wedi eu sefydlu er mwyn ennyn barn am effeithiolrwydd gwahanol strategaethau a syniadau newydd. Roedd cynrychiolwyr o'r trydydd sector a gyfwelwyd yn gytûn fod yr awdurdod lleol yn weithgar iawn yn ymgysylltu, ac yn ystyried barn pobl wrth lywio cynlluniau a chytundebau. Cyfeiriwyd at barodrwydd CSYM i arallgyfeirio gwasanaethau'r trydydd sector yn ystod y pandemig mewn ymateb i'r hyn oedd yn elwa pobl.

5.8. Ategwyd y berthynas weithio bositif sydd mewn lle gan ddarparwyr preifat gwasanaethau gofal cartref yn ogystal. Cyfeiriwyd at safon dda o gyfathrebu yn amrywio o anghenion penodol pobl i faterion comisiynu. Cyfeiriwyd at barodrwydd y pennaeth gwasanaethau oedolion i gymryd rhan mewn trafodaethau sydd wedi cyfoethogi'r berthynas weithio. Gwerthfawrogir yn fawr gan ddarparwyr eu bod hwy yn cael bod yn rhan o drafodaethau aml disgyblaethol am bobl, a theimlir yn gryf fod materion yn cael eu datrys yn gyflymach drwy'r strwythurau yma.

5.9. Mae'n flaenoriaeth gan CSYM i blant sydd mewn gofal gael byw yn eu cymunedau eu hunain. O ganlyniad, mae CSYM wedi cydweithio yn agos a'u hadran dai i ddatblygu model Cartrefi Clyd ble maent wedi sefydlu nifer fechan o gartrefi plant cofrestredig. Nifer fechan sy'n byw ar unrhyw amser yn y cartrefi sydd yn sicrhau gofal sy'n ganolog i blant unigol.

5.10. Bu i Estyn hefyd gydnabod fod cydweithio cryf rhwng gwahanol adrannau yng NghSYM megis gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau plant a'r adran addysg i ddarparu dull integredig o gefnogaeth i blant sydd mewn perygl o ddatgysylltu.

**Y camau nesaf**

Mae AGC yn disgwyl i CSYM ystyried y meysydd a nodwyd i'w gwella a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

**<u>Methodoleg</u>**

**Gwaith maes**

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy adolygu ac olrhain eu cofnodion gofal cymdeithasol. Gwnaethom adolygu 28 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain wyth yng ngwasanaeth oedolion, ac adolygu 13 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain 4 yng ngwasanaethau plant.

Mae'r gwaith o olrhain cofnod gofal cymdeithasol person yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol eraill.

Gwnaethom y canlynol hefyd; -

- cyfweld ag amrywiaeth o weithwyr awdurdod lleol
- cyfweld ag amrywiaeth o bartneriaid
- adolygu sampl o ffeiliau goruchwylio staff
- adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad
- cynnal arolygon i staff, partneriaid a phobl

**Cydnabyddiaethau**

Dymuna AGC ddiolch i'r staff, partneriaid, a'r bobl a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **24 IONAWR 2023** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2023/24** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r gyllideb derfynol tan 9 Mawrth 2023, ond, ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

**(i)** Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2023/24 o £172.438m;

**(ii)** Cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,435.86;

**(iii)** Cynnig ffurfiol i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi o 50% i 75%;

**(iv)** Bod £1.758m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2023/24.

Mae'r adroddiad manwl ar baratoi cyllideb ddisymyd 2023/24, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm fel Atodiadau 1 a 2.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig y manylir arni yn yr adroddiad hwn. Roedd yr opsiynau'n ystyried lefel y gwariant net yn seiliedig ar y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru ac opsiynau yn gysylltiedig â lefel y Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb arfaethedig yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng lleihau Gwasanaethau a chodi'r Dreth Gyngor.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gosod y gyllideb gychwynnol yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2023/24 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2023.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2023/24 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2023.

| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb yw hwn a bydd yn cael ei adolygu cyn gosod a chymeradwyo cyllideb derfynol 2023/24. Wrth lunio'r cynigion ar gyfer y gyllideb, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?- | Mae manylion unrhyw gynigion arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Bu'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Fel rhan o ymgynghoriad y Cyngor ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2023 – 2027, gofynnwyd nifer o gwestiynau am gyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24. Mae manylion yr ymatebion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| 5 | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib a gaiff y penderfyniad ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y gyllideb yn arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd trethdalwyr Ynys Môn yn ei thalu. Mae'r rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys i dderbyn cymorth trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a dylai hynny olygu na fydd effaith ariannol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn gyfyngedig. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae sylwadau'r TA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n Aelod o'r TA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau a wnaed wrth drafod yr adroddiad hwn yn y TA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| 5 | **Eiddo** | Mae unrhyw gynigion sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae unrhyw gynigion sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh. |
| 7 | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / Arall** | |

| F - Atodiadau |
|---|
| • Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Refeniw Ddrafft 2023/24<br>• Atodiad 2 – Cyllideb Arfaethedig 2023/24 fesul Gwasanaeth |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach):** |
| • Cynllun Ariannol Tymor Canol 2023/24 – 2024/25 – Gweler Rhaglen Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith, 27 Medi 2022 – Eitem 11 |

# CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2023/24

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi cyllideb refeniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2023/24. Paratoir y gyllideb ar sail y rhagdybiaethau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022 a'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac a drafodwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth, Aelodau Portffolio unigol a'r Pwyllgor Gwaith.

**1.2.** Ar ôl derbyn y ffigyrau ar gyfer y setliad terfynol ar 28 Chwefror 2023, bydd y cynnig terfynol ar y gyllideb yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Sgriwtini ar 28 Chwefror 2023, a bydd y gyllideb yn cael ei hargymell i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2023. Caiff y gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2023.

## 2. Y PRIF RAGDYBIAETHAU SYDD YN CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn nodi nifer o ragdybiaethau ac ystyriwyd y rhagdybiaethau hyn wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2023/24. Mae'r gyllideb ddigyfnewid yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i redeg gwasanaethau ar lefelau 2022/23 ond wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys nad yw gwasanaethau'n gallu eu rheoli (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) ac i adlewyrchu costau a amcangyfrifir ar gyfer 2023/24.

**2.2.** Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddisymud, ynghyd â newidiadau manylach (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) sydd yn caniatáu ar gyfer cynnydd mewn costau sy'n hysbys e.e. ymrwymiadau cytundebol a mân gywiriadau i'r gyllideb. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau hysbys i gyllido grant a mân gywiriadau i'r gyllideb y bernir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau fod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'n gywir y costau y mae'n eu hwynebu yn 2023/24.

## 3. SETLIAD DROS DRO

**3.1.** Mae'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2022, yn dangos cynnydd o £406.2m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru, sy'n cyfateb i gynnydd o 8.0% mewn termau ariannol. Fodd bynnag, mae £3.0m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i mewn a, pan addasir ar gyfer y newidiadau hyn, dengys y gwir ffigwr gynnydd o £403.2m mewn cyllid, sef cynnydd o 7.9%. Dangosir y manylion yn Nhabl 1 isod:-

| Tabl 1<br>Setliad Dros Dro 2023/24 | | |
|---|---|---|
| | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| | **£'m** | **£'m** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) 2022/23 | 114.551 | 5,107.603 |
| | | |
| Addasiad ar gyfer newid yn Sylfaen y Dreth | (0.061) | 0.000 |
| | | |
| Grantiau blynyddoedd cynt a drosglwyddwyd i Mewn / (Allan) | 0.000 | 3.040 |
| | | |
| **AEF 2022/23 wedi'i addasu** | **114.490** | **5,110.643** |
| **AEF Dros Dro 2023/24** | **123.555** | **5,513.888** |
| **Cynnydd o gymharu â AEF 2022/23** | **9.004** | **406.285** |
| **% Cynnydd o gymharu â AEF 2022/23** | **7.86%** | **7.95%** |
| **Cynnydd o gymharu â AEF 2022/23 wedi'i addasu** | **9.065** | **403.245** |
| **% Cynnydd o gymharu â AEF 2022/23 wedi'i addasu** | **7.92%** | **7.89%** |

**3.2.** Mae nifer o wahanol setiau data yn cael eu haddasu yn y fformiwla dyrannu, gan gynnwys poblogaeth, nifer pobl sy'n derbyn budd-daliadau, plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim, disgyblion ysgol ac ati, ac mae eu heffaith yn wahanol ar ddyraniad pob awdurdod. Mae rhai awdurdodau'n elwa o'r addasiadau hyn, ond maent yn cael effaith negyddol ar awdurdodau eraill ac, o'r herwydd, nid yw pob awdurdod yn derbyn yr un lefel o gynnydd. Yn y setliad dros dro ar gyfer 2023/24, mae'r cynnydd yn amrywio o 9.3% (Sir Fynwy) i 6.5% (Blaenau Gwent). Mae cynnydd Ynys Môn yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, a dyma'r 12fed cynnydd uchaf o blith y 22 awdurdod.

## 4. Y PRIF NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB AR GYFER 2023/24

**4.1.** Manylir isod ar y prif newidiadau yn y gyllideb gychwynnol ar gyfer 2023/24 o gymharu â chyllideb derfynol 2022/23.

**4.2. Chwyddiant Cyflogau a Phwysau Arall yn ymwneud â Staffio**

Bydd costau tâl yn newid bob blwyddyn i adlewyrchu newidiadau staff yn ystod y flwyddyn (penodi staff newydd i bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn derbyn cynnydd blynyddol yn eu cyflogau a'r dyfarniad cyflog. Ni chytunwyd ar ddyfarniad cyflog 2022/23, a oedd yn weithredol o fis Ebrill 2022, tan fis Tachwedd 2022 ac, er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2022/23, nid oedd yn adlewyrchu'r dyfarniad cyflog gwirioneddol yn llawn. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 2% yn y cyllidebau cyflogau, gyda swm ychwanegol o £1m wedi'i gynnwys fel cyllideb wrth gefn, ac roedd hyn gyfystyr â chynnydd o 3.2% yn y cyllidebau cyflogau. Roedd y dyfarniad cyflog terfynol ar ffurf cynnydd o £1,925 i bob gweithiwr, ac roedd hyn gyfystyr â chynnydd o rhwng 10.2% ar y pwynt isaf ar y raddfa gyflog i 3.4% ar y pwynt uchaf ar y raddfa. Ar gyfartaledd, arweiniodd y dyfarniad cyflog at gynnydd o 7.5% yng nghostau cyflog y Cyngor ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon. Roedd hyn yn golygu fod diffyg o £1.9m yn y gyllideb ar gyfer 2022/23, ac mae'n rhaid cywiro'r diffyg hwn yn y gyllideb ddisymyd ar gyfer 2023/24.

Nid oedd y dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon ychwaith wedi cael ei gyhoeddi pan osodwyd cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23. Unwaith eto, roedd y Cyngor wedi caniatáu 2% ar gyfer codiad cyflog athrawon o fis Medi 2022. Roedd y dyfarniad cyflog terfynol yn 5%. Arweiniodd hyn at ddiffyg o £926k yng nghyllideb y Cyngor ac, unwaith eto, mae'n rhaid ei gywiro yn y gyllideb ddisymyd ar gyfer 2023/24.

Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am y dyfarniad cyflog tebygol ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon a gaiff ei dalu o fis Ebrill 2023, er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi mai 3.5% fydd y dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon o fis Medi 2023. Mae'r dyfarniad cyflog yn dibynnu i raddau helaeth ar beth fydd yn digwydd i chwyddiant yn ystod 2023/24, ond rhagwelir gostyngiad sylweddol, gyda chwyddiant yn disgyn o 10% ar ddechrau 2023/24 i tua 4% erbyn mis Mawrth 2024. Gan y bydd yr Undebau o dan bwysau i dderbyn dyfarniad cyflog is yn 2023/24, ac oherwydd y gostyngiad mewn chwyddiant a'r cynnydd a nodwyd mewn cyflogau athrawon, caniatawyd 3.5% yn y gyllideb ddisymyd ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon a staff nad ydynt yn athrawon yn 2023/24. Serch hynny, mae risg sylweddol y bydd y dyfarniad cyflog terfynol yn uwch na'r ffigwr hwn. Os digwydd hynny, bydd rhaid i'r Cyngor gyllido'r costau ychwanegol o'i gronfeydd wrth gefn ei hun yn 2023/24 ac yna cywiro'r diffyg cyllido yn y gyllideb ar gyfer 2024/25.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthdroi'r cynnydd arfaethedig o 1.25% yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr o fis Tachwedd 2022. Mae hyn yn golygu y gellir cywiro cyllideb yswiriant gwladol y cyflogwr, gyda gostyngiad o £260k yn y gyllideb gychwynnol. Mae'r angen i gywiro'r gyllideb cyflogau a'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 wedyn yn cynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr, ond mae'r gostyngiad yng ngraddfa'r cyfraniad yn gostwng y gyllideb gyffredinol. Effaith net y cynnydd mewn cyflogau a'r gostyngiad yn y raddfa gyfrannu yw gostyngiad o £140k yn y gyllideb yswiriant gwladol.

Mae'r gyllideb gyflogau hefyd yn cael ei haddasu i adlewyrchu'r pwynt cyflog gwirioneddol ar gyfer talu pob aelod presennol o staff yn ystod 2023/24. Mae hyn yn ystyried staff sy'n symud i bwynt uwch ar y raddfa gyflog a newidiadau staffio oherwydd bod staff yn gadael a staff newydd yn ymuno â'r Cyngor, ynghyd ag unrhyw ailstrwythuro staff posib yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Yr amcangyfrif o'r holl gostau'n ymwneud â chyflogau yw cynnydd o £6.00m yn y gyllideb.

**4.3. Costau Pensiwn**

Mae'r Cyngor yn cofrestru ei staff ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon a'r Cynllun Pensiynau Athrawon ar gyfer athrawon. Mae cynllun cyfraniadau'r cyflogwr yn cael ei osod gan Weinyddwr y cynllun ac mae'n cael ei ailbrisio'n rheolaidd.

Cafodd y Cynllun LGPS ei ailbrisio yn ystod 2022/23, a daw'r cyfraddau cyfrannu newydd i rym o fis Ebrill 2023, am gyfnod o 3 blynedd. Mae'r cynllun yn gosod dwy gyfradd, y brif gyfradd a ddyluniwyd i gyllido'r costau pensiwn sydd wedi cronni ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol, a chyfradd eilaidd sy'n cwrdd ag unrhyw ddiffyg cyllido yn y gronfa.

Bydd y brif gyfradd yn cynyddu o 19.3% i 21.1% ar gyfer 2023/24, ond bydd y gyfradd eilaidd yn gostwng o 2.1% i -1.0%. Mae'r cynnydd yn y brif gyfradd yn golygu cynnydd o £732k yng nghyfraniad y cyflogwr (cyn y dyfarniad cyflog), ond mae'r gostyngiad yn y gyfradd eilaidd yn golygu gostyngiad o £1.24m yn y cyfraniad ac, o ganlyniad, bydd arbediad net o £508k yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn cyflogau yn cynyddu cyfraniadau'r cyflogwr wrth i'r cyflog gynyddu. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at gyfraniadau ychwanegol o thua £600k.

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cyfraniadau blynyddol ar gyfer staff ac athrawon a allai fod wedi ymddeol yn gynnar nifer o flynyddoedd yn ôl. Daeth yr arfer o dalu am ymddeoliad cynnar trwy dâl blynyddol i ben yn dilyn newid yn y rheolau tua chanol degawd cyntaf y ganrif hon, felly, mae'r gyllideb hon yn gostwng yn raddol wrth i'r pensiynwyr hynny farw. O ganlyniad, roedd gostyngiad o £108k yn bosib yn y gyllideb hon.

## 4.4. Chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau

Mae lefel chwyddiant yn y DU wedi bod yn isel iawn ers nifer o flynyddoedd ac roedd yn hawdd ei amcangyfrif. Fodd bynnag, cododd chwyddiant yn sylweddol yn 2021, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn codi i 11.1% ym mis Hydref 2021, a gwelwyd cynnydd uwch ym mhrisiau rhai nwyddau, gan gynnwys ynni, bwyd, tanwydd a deunyddiau adeiladu. Yn gyffredinol, dengys y rhagolygon y bydd chwyddiant yn cyrraedd ei lefel uchaf ar ddiwedd 2022 ac yna'n dechrau gostwng yn ystod 2023, cyn dychwelyd i'r lefelau a welwyd yn ystod y tri degawd diwethaf yn 2024/25. Bydd cyflymder y gostyngiad mewn chwyddiant yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y rhyfel yn Wcráin a'i effaith barhaus ar gostau ynni, cytundebau cyflogau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a pha un a fydd Brexit yn parhau i gael effaith ar gostau nwyddau sy'n cael eu mewnforio o Ewrop.

Mae costau'r Cyngor nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cynnwys nifer o wahanol gontractau a dulliau caffael ac mae chwyddiant yn effeithio'n wahanol ar bob un ohonynt:-

- Contractau tymor hir lle mae'r cyfrifiad chwyddiant wedi'i ymgorffori yn y contract gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant a benderfynwyd ymlaen llaw, ac mae'r ffigwr ar gyfer pwynt penodol mewn amser yn cael ei ddefnyddio. Mae'r math hwn o gontract yn tueddu i ffafrio'r Cyngor pan fydd chwyddiant yn codi, ond maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd gyda mathau arbennig o nwyddau sy'n cael effaith ar gostau'r contractwr, e.e. bydd cysylltiad cryf iawn rhwng y ffactor chwyddiant a chost tanwydd ar gyfer y contract casglu gwastraff gan fod hwn yn gost sylweddol i'r contractwr.
- Contractau lle mae'r cynnydd blynyddol yn cael ei negodi. Maent yn cynnwys ffioedd cartrefi gofal preswyl a nyrsio a chontractau gofal eraill. Nid y CPI yw'r prif ffactor o ran y cynnydd yn y prisiau hyn, gan mai staffio yw'r brif gost. Mae lefel y chwyddiant yn gysylltiedig â chyflogau, a'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a'r cyflog byw gwirioneddol yn arbennig.
- Cytundebau fframwaith tymor hir lle mae'r pris blynyddol yn cael ei osod gan y fframwaith ac nid fel rhan o gytundeb unigol rhwng y Cyngor a'r cyflenwr / contractwr. Maent yn cynnwys ein prif gontractau ynni. Unwaith eto, bydd cynnydd yn y pris yn gysylltiedig â ffactorau penodol sy'n ymwneud â'r nwyddau a gyflenwir, yn hytrach na defnyddio'r CPI fel sail i'r cynnydd.
- Nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu pryd a phan fydd eu hangen, naill ai trwy broses dendr untro, derbyn dyfynbrisiau neu godi archeb. Mae'r costau hyn yn ddarostyngedig i bwysau chwyddiant gan fod y pris y mae'r Cyngor yn ei dalu'n ddibynnol ar y pris pan gyflwynir yr archeb neu pan dderbynnir y tendr.

Wrth lunio'r gyllideb ddisymyd, caniatawyd ar gyfer y lefel chwyddiant a benderfynwyd gan gontract penodol. Mae'r ffaith fod y cynnydd oherwydd chwyddiant ym mhrif gontractau'r Cyngor yn seiliedig ar lefelau chwyddiant yn yr Hydref yn ystod y flwyddyn flaenorol (defnyddir chwyddiant yn Hydref 2022 i gynyddu prisiau contractau o fis Ebrill 2023) wedi gweithio yn erbyn y Cyngor a chaniatawyd ar gyfer cynnydd o dros 20%.

Mae'r Cyngor yn prynu nwy a thrydan drwy gytundeb fframwaith, ac mae'r prisiau'n cael eu hadolygu ym mis Hydref bob blwyddyn. Roedd cynnydd o 255% yn y pris uned ar gyfer nwy ym mis Hydref a chynnydd o 110% yn y tâl sefydlog. Roedd cynnydd o 75% ym mhris uned trydan a chynnydd o 145% yn y tâl sefydlog. Mae gan y Cyngor nifer fach o adeiladau sy'n parhau i ddefnyddio nwy LPG neu olew gwresogi, ac mae'r costau'n seiliedig ar y pris ar y diwrnod y caiff y tanwydd ei brynu ond, yn gyffredinol, gwelwyd cynnydd o thua 50% yn y costau hyn ers 2021/22. Fodd bynnag, caniatawyd ar gyfer cyfran o'r cynnydd hwn wrth osod cyllideb 2022/23, ac amcangyfrifir mai dim ond cynnydd o 40% fydd ei angen yn y gyllideb ar gyfer trydan ac 85% ar gyfer nwy, nwy LPG ac olew gwresogi. Bydd hyn yn ychwanegu oddeutu £1.75m at gyllidebau ynni'r Cyngor.

Ym mis Gorffennaf 2022, cytunodd y Cyngor i gynyddu'r graddfeydd a delir i gartrefi preswyl a nyrsio preifat, er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau yr oedd y Sector yn eu hwynebu. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r defnydd o'r fethodoleg ffioedd rhanbarthol ac mae'r cynnydd yn y cyfraddau'n adlewyrchu allbynnau'r fethodoleg, a bydd y cynnydd yn y ffioedd arfaethedig yn is na'r cynnydd mewn chwyddiant cyffredinol. Bydd gosod ffioedd cartrefi gofal yn destun adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith.

Bydd cynnydd o 16.4% mewn cyllidebau eraill, lle bo hynny'n briodol, ond bydd cynnydd is mewn rhai llinellau yn y gyllideb os nad ydynt wedi cael eu defnyddio'n llawn yn ystod 2022/23. Mae'r ffigwr o 16.4% yn cywiro'r dan-ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant yn 2022/23 ac mae'n caniatáu ar gyfer yr amcangyfrif cyfartalog ar gyfer chwyddiant yn 2023/24, sef 6.7%.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, defnyddiwyd ffigwr cyffredinol o 3% ar gyfer y cynnydd mewn cyllidebau ffioedd a thaliadau anstatudol, a defnyddiwyd y ffigwr hwn eto yn 2023/24, er bod gan wasanaethau'r disgresiwn i gynyddu ffioedd a thaliadau unigol gan swm sy'n fwy neu'n llai na'r ffigwr hwn, ar yr amod bod cynnydd o 3% yn eu hincwm cyffredinol.

Y cynnydd net yn yr addasiadau ar gyfer chwyddiant heblaw am gyflogau ac incwm anstatudol yw £12.51m.

**4.5. Niferoedd Disgyblion**

Bob blwyddyn, mae effaith y newid mewn niferoedd disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses gosod cyllideb, ac mae niferoedd disgyblion ym mis Medi 2022 yn cael eu defnyddio fel sail i gyllideb 2023/24. Ar gyfer 2023/24, mae niferoedd disgyblion cynradd wedi parhau i ostwng, gyda gostyngiad pellach o 126 disgybl, tra bod cynnydd o 106 yn niferoedd disgyblion uwchradd. Ni fu newid yn nifer y disgyblion yng Nghanolfan Addysg y Bont. Effaith net y newidiadau hyn yw cynnydd o £182k yn y gyllideb ddatganoledig ysgolion.

**4.6. Ardollau**

Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ardollau sy'n cael eu codi ar y Cyngor gan gyrff eraill sydd â phŵer statudol i osod ardoll. Y brif ardoll a godir yw ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sydd yn gosod ardoll gyffredinol ar gyfer y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru ac yna mae'n cael ei rhannu rhwng y chwe awdurdod ar sail poblogaeth. Yn ei gyfarfod yn Ionawr 2023, penderfynodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gynnydd o 13.4% yn yr ardoll ar gyfer y chwe awdurdod, a gosododd gyllideb o £44.71m, sy'n golygu cynnydd o £519k yn ardoll y Cyngor. Yr ardoll a gyllidir gan y Cyngor, felly, fydd £4.434m.

Mae'n ofynnol yn awr i chwe Awdurdod Gogledd Cymru sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) i fod yn gyfrifol am bolisi strategol ym maes trafnidiaeth a chynllunio a datblygu economaidd ar lefel ranbarthol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar gyfrifoldebau'r CBC, a bydd y CBC yn penderfynu ar yr ardoll a godir ar bob awdurdod lleol mewn cyfarfod ddiwedd mis Ionawr 2023. At ddibenion y gyllideb gychwynnol, mae amcangyfrif o £64k wedi'i gynnwys fel amcangyfrif o ardoll y CBC, ond gallai'r swm newid.

**4.7. Costau Cyllido Cyfalaf**

Mae Costau Cyllido Cyfalaf yn cynnwys y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI), costau llog blynyddol ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau. Mae'r newid yn y polisi DRI yn 2018 wedi arwain at orddarpariaeth yn y DRI yn y gorffennol. Mae'r orddarpariaeth yn creu cyfle i ostwng cost y DRI yn y dyfodol, yn ogystal â pharhau i sicrhau fod y ddarpariaeth a wneir yn ddarbodus. Erbyn hyn, mae Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cynghori y byddai newid pellach yn y polisi yn caniatáu gostyngiad sylweddol yn y DRI yn y tymor byr i'r tymor canol, ond byddai'r costau'n cynyddu yn y dyfodol o gymharu â'r polisi presennol. Mae'r dull newydd yn un a ganiateir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae'n parhau i sicrhau darpariaeth ddarbodus. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried adroddiad ar wahân ar y mater hwn, ond mae'r cynnig drafft ar gyfer y gyllideb yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y caiff y newid mewn polisi ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Yn ystod 2020 a 2021, roedd y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau'n is nag erioed, ond dechreuodd godi yn ystod 2022. Rhagwelir y bydd y llogau uwch ar fuddsoddiadau'n parhau yn ystod 2023/24, a disgwylir llog o rhwng 3% a 4% ar gyfartaledd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Ar sail lefelau'r balansau arian parod a ragwelir, gosodwyd cyllideb o £1.0m ar gyfer enillion ar fuddsoddiadau, o gymharu â chyllideb o £3k yn 2022/23.

Effaith gyffredinol y ddau newid yw gostyngiad o £3.19m yn y gyllideb costau cyfalaf.

**4.8. Incwm Gwastraff**

Codwyd tâl am gasglu gwastraff gardd am y tro cyntaf yn 2020/21. Gosodwyd cyllideb geidwadol wrth asesu nifer y tanysgrifwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf. Diwygiwyd cyllideb 2022/23 i adlewyrchu nifer gwirioneddol y defnyddwyr gwasanaeth a danysgrifiodd. Fodd bynnag, rhagwelwyd y gallai nifer y tanysgrifwyr ostwng yn ystod yr ail flwyddyn (2022/23) oherwydd y posibilrwydd y byddai rhai yn teimlo nad oeddent wedi gwneud digon o ddefnydd o'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mewn gwirionedd, cynyddodd nifer y tanysgrifwyr yn 2022/23 ac, er na fydd y ffi yn cynyddu yn 2023/24, gellir cynnwys cynnydd o £250k yn y gyllideb i adlewyrchu'r gyfradd danysgrifio bresennol.

Mae'r Gwasanaeth Gwastraff wedi gweld cynnydd sylweddol yn y prisiau a delir am ddeunyddiau ailgylchu, ac mae cyfran o'r cynnydd i'w briodoli i brinder deunyddiau crai o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin. Er y gallai prisiau ddechrau gostwng yn ystod 2023/24, mae digon o warged i ganiatáu cynnydd o £150k yn y gyllideb incwm gwastraff ailgylchu.

**4.9. Cyllidebau sy'n cael eu harwain gan y galw**

Mae nifer o gyllidebau'n cael eu heffeithio gan y galw am wasanaethau penodol ac mae angen eu haddasu i adlewyrchu'r newid yn y galw. Mae'r prif addasiadau'n cynnwys:-

- £236k yn ychwanegol ar gyfer cludiant ysgol (mae hyn yn cynnwys effaith y contractau sydd wedi cael eu hail-dendro, yn ogystal â'r newid yn y galw).
- Gostyngiad o £134k yn y gyllideb ar gyfer disgyblion allsirol, oherwydd bod llai o blant yn cael eu lleoli oddi ar Ynys Môn ac, felly, mae llai o blant yn derbyn eu haddysg gan awdurdod addysg lleol arall.
- Er na fu cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ystod 2022/23, rhagwelir y bydd diweithdra'n dechrau codi eto yn 2023/24. Er mwyn darparu cyllid ychwanegol, mae 2% o gyllid ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyllideb, yn ogystal â'r cynnydd sydd ei angen i gwrdd â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor. Mae hyn yn ychwanegu £126k at y gyllideb.
- Mae nifer y diwrnodau ysgol yn amrywio ychydig bob blwyddyn (gan ddibynnu'n bennaf ar ddyddiad y Pasg). Bydd y Pasg ar ddechrau mis Ebrill yn 2024 ac felly bydd y tymor ysgol yn gorffen ddiwedd Mawrth. Mae hyn yn gostwng nifer y diwrnodau ysgol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 ac mae gostyngiad o £48k yn y gyllideb.

**4.10. Cyllidebau wrth Gefn**

Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, mae nifer o gyllidebau wrth gefn yn cael eu cynnwys yn y gyllideb i gwrdd â chostau tymor penodol, risgiau posib efallai y bydd angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn, neu fel cyllidebau wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i'r gyllideb wynebu pwysau ychwanegol neu yn sgil digwyddiadau annisgwyl. Yn y gyllideb ar gyfer 2022/23, dyrannwyd £200k i gwrdd â chost etholiadau'r Cyngor Sir a gellir dileu'r gyllideb hon yn 2023/24. Yn ogystal, roedd cyllideb wrth gefn gwerth £300k i gwrdd ag unrhyw gostau untro yn gysylltiedig â Covid. Er nad yw'r risgiau'n gysylltiedig â Covid wedi eu dileu'n gyfan gwbl, maent wedi lleihau a gellir dileu'r gyllideb wrth gefn hon. Bydd unrhyw wariant yn gysylltiedig â Covid yn cael ei gyllido o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol neu'r balansau cyffredinol.

**4.11. Mân Addasiadau Eraill**

Wrth lunio'r gyllidebau ddisymyd, gwneir nifer o fân gywiriadau i'r gyllideb er mwyn adlewyrchu newidiadau sydd angen eu gwneud, neu adlewyrchu penderfyniadau blaenorol i gynyddu cyllidebau unigol. Effaith net yr addasiadau hyn yw lleihad o £23k yn y gyllideb ddisymyd gyffredinol.

### 4.12. Cynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi

Yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd sylfaen y dreth yn cynnwys y rhagdybiaeth y byddai'r premiwm ar ail gartrefi'n codi o 50% i 75%. Mae hyn yn adlewyrchu'r bwriad a ddatganwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Gwaith i godi'r premiwm i 100% erbyn mis Ebrill 2024. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor pan fabwysiedir cyllideb y Cyngor ganddo a phan fydd yn gosod y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24. Bydd hyn yn creu oddeutu £805k o gyllid ychwanegol. Nid oes penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud ynghylch sut i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol ond, unwaith eto, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi mynegi ei fwriad i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau tai ar Ynys Môn.

## 5. Y SEFYLLFA GYLLIDO

**5.1.** Ar ôl ystyried y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru (fel y caiff ei nodi ym mharagraff 3) a'r prif newidiadau i'r gyllideb (fel y cânt eu nodi ym mharagraff 4), mae'r sefyllfa gyllido cyn cynyddu'r Dreth Gyngor yn cael ei nodi yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Bwlch Cyllido Cyllideb 2023/24**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022/23** | | **158.367** |
| **Y Prif Addasiadau i'r Gyllideb (fel y nodir ym Mharagraff 4)** | | |
| Chwyddiant Cyflogau a Chostau Staffio Eraill | 5.997 | |
| Addasiadau Pensiwn yn sgil ailbrisio'r gronfa Bensiwn | (0.619) | |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau | 12.512 | |
| Niferoedd Disgyblion | 0.182 | |
| Ardollau | 0.518 | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | (3.190) | |
| Incwm Gwastraff Ychwanegol uwchlaw chwyddiant | (0.400) | |
| Gwasanaethau a arweinir gan y galw | 0.181 | |
| Cyllidebau wrth Gefn a Mân Addasiadau Eraill | (0.523) | |
| | | 14.658 |
| Defnyddio Cyllid Ychwanegol o'r Premiwm ar Ail Gartrefi | | 0.805 |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddisymyd 2023/24** | | **173.830** |
| **Cyllidir Gan** | | |
| Grant Cynnal Refeniw (RSG) | (100.732) | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | (22.823) | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | | (123.555) |
| Cyllideb Dreth Gyngor 2022/23 (wedi'i addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a chynnydd yn y premiwm ar ail gartrefi) | | (44.879) |
| **Cyfanswm Cyllid cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor** | | **(168.434)** |
| **(Gwarged) / Diffyg mewn Cyllid (cyn gwneud unrhyw newid i'r Dreth Gyngor)** | | **5.396** |

**5.2.** Byddai angen cynnydd o 12.0% yn y Dreth Gyngor i gyllido'r diffyg o £5.396m. Byddai hyn yn golygu fod y gost ar gyfer eiddo Band D yn £1,531.89, sef cynnydd blynyddol o £164.43 a chynnydd wythnosol o £3.15. Er mwyn gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor, byddai'n rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor neu wneud arbedion yn y gyllideb refeniw. Mae pob £1m o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddir, neu arbedion a roddir ar waith, yn golygu gostyngiad o 2.23% yn y cynnydd yn y Dreth Gyngor. Felly, trwy ddefnyddio £2.98m o gronfeydd wrth gefn neu roi £2.98m o arbedion ar waith, neu gyfuniad o'r ddau, byddai modd gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 5.00%. Byddai hyn yn golygu cynnydd o £68.40 yn y Dreth Gyngor, neu £1.32 yr wythnos.

## 6. RISGIAU CYLLIDEBOL

**6.1.** Wrth osod y gyllideb, mae angen asesu nifer o risgiau ariannol a allai greu cost ariannol i'r Cyngor. Caniatawyd ar gyfer rhai o'r risgiau hyn yn y cynnig ar gyfer y gyllideb, ond nid yw eraill wedi eu cynnwys yn y gyllideb a, phe bae'r risg yn troi'n gost ariannol yn 2023/4, yna byddai balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cwrdd â'r gost.

**6.2.** Rhagwelir y bydd balansau cyffredinol heb eu dyrannu y Cyngor yn £10.2m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ynghyd â £4m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig ychwanegol y gellid eu dychwelyd i falansau cyffredinol y Cyngor. Fel canllaw cyffredinol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y balansau cyffredinol. Ar sail y gyllideb refeniw net ddisymyd ar gyfer 2023/24, a ddaw i gyfanswm o thua £174m, yr isafswm fyddai ei angen yw £8.7m. Mae hyn yn gadael swm posib o £5.5m a fyddai ar gael i gynorthwyo i ariannu'r gyllideb refeniw dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, ond dylid nodi fod gostwng lefel y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor, a gallai arwain at broblemau ariannol yn y dyfodol pe byddai'n rhaid cyllido unrhyw wariant annisgwyl sylweddol e.e. cyllido gorwariant refeniw yn y dyfodol.

**6.3.** Mae sefyllfa bresennol cyllideb refeniw 2022/23 yn amcangyfrif tanwariant ac, er bod amcangyfrif lefel terfynol y tanwariant yn anodd, ar ei waethaf disgwylir y bydd unrhyw orwariant yn 2022/23 yn fychan iawn ac ni fyddai'n cael effaith sylweddol ar lefel y balansau cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6.4.** Mae nifer o risgiau ariannol yn bodoli nad ydynt wedi eu cynnwys yn y gyllideb, neu nad ydynt wedi eu cynnwys yn llawn yn y gyllideb, yn eu plith:-

- **Dyfarniad Cyflog –** fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 uchod, cynyddwyd y gyllideb i adlewyrchu amcangyfrif o'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24, ond mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch y dyfarniadau cyflog. Os yw chwyddiant yn parhau'n uchel, yna bydd pwysau gan yr Undebau i gytuno ar ddyfarniad cyflog sydd yn uwch na'r 3.5% sydd yn y gyllideb. Mae pob 1% uwch ben y ffigwr hwn yn ychwanegu tua £1m i fil cyflogau'r Cyngor.

- **Cyflog Byw Cenedlaethol –** cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai cynnydd o 9.7%, i £10.42 yr awr, yn y Cyflog Byw Cenedlaethol (sef yr isafswm cyflog yn flaenorol) ym mis Ebrill 2023, ac mae rhagolygon gan y Comisiwn Cyflogau Isel yn awgrymu y gallai godi i £11.35 yr awr erbyn mis Ebrill 2024. Mae Cyflog Byw Cenedlaethol yn rhoi pwysau ar gyllideb y Cyngor mewn dwy ffordd h.y. yr hyn y mae'n ei dalu i'w staff ei hun a'r hyn y mae ei brif gontractwyr yn ei dalu i'w staff.

  Y pwynt isaf ar raddfa gyflog y Cyngor ar gyfer 2022/23 yw £20,812, neu £10.79 yr awr, sef dim ond £0.37 yn uwch na lefel y Cyflog Byw Cenedlaethol. Wrth gwrs, bydd dyfarniad cyflog yn cael ei dalu ym mis Ebrill 2023 a fydd yn cynyddu'r ffigwr hwn ac yn darparu mwy o fwlch. Fodd bynnag, dylid nodi fod y raddfa gyflog genedlaethol yn cynnwys 2 bwynt sydd yn is na'r isafswm a delir gan y Cyngor, a'r pwynt isaf ar hyn o bryd yw £10.50 yr awr, dim ond £0.08 yn uwch na lefel y Cyflog Byw Cenedlaethol. Os yw'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn cael ei osod ar £11.35 ym mis Ebrill 2024, yna byddai angen cynnydd o 8% yn y pwynt isaf ar y raddfa yn ystod cyfnod o ddwy flynedd, sef 2023/24 a 2024/25. Byddai cynnydd ar y lefel hon yn cael effaith sylweddol ar fil cyflogau'r Cyngor pe byddai'n cael ei ailadrodd ar draws y graddfeydd cyflog.

Mae nifer fawr o staff a gyflogir gan brif gontractwyr a darparwyr gwasanaeth y Cyngor yn derbyn cyflog sydd yn cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, neu sydd o gwmpas y lefel honno. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector gofal (cartrefi gofal preswyl a nyrsio, gofal cartref ac ati). Mae cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd yn y ffioedd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu i'r contractwyr a'r darparwyr gwasanaeth. Er y caniatawyd ar gyfer cynnydd mewn cyllid, mae risg na fydd yn ddigon i gwrdd â'r hyn y bydd darparwyr yn gofyn amdano, ac mae'n bosib eu bod hwythau hefyd yn wynebu pwysau o ganlyniad i chwyddiant cyffredinol, a chostau bwyd, ynni a thanwydd yn benodol.

- **Chwyddiant Cyffredinol -** Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae lefel chwyddiant cyffredinol mewn prisiau wedi codi'n sylweddol o gymharu â'r lefel a welwyd dros nifer o flynyddoedd ac, er mai'r rhagolwg cyffredinol yw bod chwyddiant wedi cyrraedd y brig yn awr ar lefel o thua 10%, mae ansicrwydd o hyd ynghylch pa mor gyflym y bydd yn gostwng yn ystod 2023/24. Wrth osod y gyllideb, rhagdybiwyd y bydd chwyddiant yn gostwng yn raddol, o 10% ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i 4% erbyn mis Mawrth 2024, gan roi lefel chwyddiant cyfartalog o 6.7%, a dyma'r swm a gynhwyswyd yn y gyllideb ar gyfer 2023/24. Fodd bynnag, rhagolwg mwy pesimistaidd yw y bydd chwyddiant yn aros yn uchel ac yn cyrraedd uchafswm o thua 12% erbyn haf 2023, cyn disgyn i thua 7.5% erbyn mis Mawrth 2024. Byddai hyn yn rhoi cyfradd chwyddiant cyfartalog o 9.5% ar gyfer 2023/24. Dylid nodi hefyd y gallai'r Cyngor wynebu chwyddiant uwch ar rai costau, megis ynni, bwyd a chostau tanwydd. Os bydd chwyddiant yn parhau yn uchel yn Hydref 2023, bydd yn cael sgil effaith ar gyllideb 2024/25 hefyd, gan fod y chwyddiant a ychwanegir at nifer o brif gontractau'r Cyngor yn seiliedig ar fynegeion chwyddiant ym mis Medi a Hydref bob blwyddyn.
- **Costau Ynni –** Mae'r Cyngor yn prynu nwy a thrydan trwy gytundeb fframwaith, ac mae prisiau'n codi bob mis Hydref. Caiff y cynnydd ym mis Hydref 2022 ei nodi ym mharagraff 4.4. Mae'r gyllideb yn cynnwys cynnydd pellach o 20% ym mis Hydref 2023 ond, unwaith eto, mae llawer iawn o ansicrwydd ynghylch prisiau ynni. Byddai datrys y rhyfel yn Wcráin yn llacio'r pwysau ar brisiau ynni yn sylweddol ond, i'r gwrthwyneb, gallai dwysau'r rhyfel arwain at gynnydd sylweddol mewn prisiau unwaith eto.
- **Y Galw am Wasanaethau –** Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â lefel bresennol y galw mewn rhai gwasanaethau lle gall y galw amrywio (Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Digartrefedd, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau'n creu costau ariannol ychwanegol i'r Cyngor na fyddai darpariaeth ar eu cyfer yn y cyllidebau presennol.
- **Incwm Grantiau –** Yn ogystal â'r cyllid a dderbyniwyd trwy'r Cyllid Allanol Cyfun, mae'r Cyngor yn derbyn lefelau sylweddol o gyllid ychwanegol ar ffurf grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Pan fydd lefel cyllid grant penodol yn gostwng, nid yw bob amser yn bosib ymateb yn gyflym i'r newid gan fod y gwasanaeth a gyllidir gan y grant wedi'i ymgorffori yn y gwasanaeth a gyllidir gan gyllideb graidd y Cyngor. Felly, mae oedi rhwng gostwng y cyllid a gallu'r Cyngor i leihau'r costau cysylltiedig drwy aildrefnu'r gwasanaeth.
- **Targedau Incwm o Ffioedd a Thaliadau –** Wrth i'r argyfwng costau byw barhau i effeithio ar incwm gwario teuluoedd, mae risg na fydd cymaint o ddefnydd o rai o wasanaethau'r Cyngor e.e. gwasanaethau hamdden, meysydd parcio, ceisiadau cynllunio a rheoliadau adeiladu. O ganlyniad, mae risg na fydd y targedau ar gyfer cyllidebau ffioedd a thaliadau'n cael eu cyflawni.

## 7. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**7.1.** Roedd buddsoddiad o £700k mewn gwasanaethau addysg wedi'i gynnwys yng nghyllideb refeniw 2022/23. Am nifer o resymau, nid yw'r gwasanaeth wedi rhoi cynlluniau yn gysylltiedig â'r cyllid hwn ar waith eto. Felly, argymhellir gohirio'r buddsoddiad ychwanegol hwn hyd nes bydd y sefyllfa ariannol yn gwella a'r buddsoddiad yn fforddiadwy.

**7.2.** Wrth lunio'r gyllideb ddisymyd, gwneir nifer o ragdybiaethau mewn perthynas â chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau. Mewn perthynas â'r gyllideb ddatganoledig ar gyfer ysgolion, mae'r gyllideb ddisymyd yn caniatáu ar gyfer cynnydd o £4.9m (11%) mewn termau ariannol, gan olygu fod cyllideb ddatganoledig ysgolion werth £47.07m (heb gynnwys y gyllideb ôl-16). Argymhellir cyfyngu'r cynnydd oherwydd chwyddiant i 10%, a thrwy hynny ostwng y gyllideb ddisymyd gan £471k.

**7.3.** Yn gyffredinol, mae cynnydd o 3% yn y cyllidebau incwm, ond mae sgôp am gynnydd uwch yn y ffioedd ar gyfer cau lonydd yn y Gwasanaeth Priffyrdd. Argymhellir cynnydd o 15%, gan gynhyrchu incwm ychwanegol o £169k.

**7.4.** Bu'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion yn ymestyn y defnydd o daliadau uniongyrchol, lle mae cleientiaid sy'n perthyn i rai categorïau yn trefnu eu gofal eu hunain, ac mae hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt o ran eu pecyn gofal ac yn lleihau'r costau. Mae ymestyn y cynllun hwn wedi nodi arbediad o £35k ar gyfer 2023/24.

**7.5.** Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion yn adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau gofal dydd. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi cyfle i sicrhau gostyngiad o £35k yn y costau dros flwyddyn lawn. Byddai'r newid yn cael ei weithredu ym mis Hydref 2023 ac yn arwain at arbedion o £17.5k yn 2023/24, gydag arbediad ychwanegol o £17.5k yn 2024/25.

**7.6.** Ar sail y newidiadau uchod i'r gyllideb ddisymyd, byddai'r bwlch cyllido'n gostwng i £1.758m.

**7.7.** Amcangyfrifir y bydd gan y Cyngor £10.2m o falansau cyffredinol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23. Polisi cyffredinol y Cyngor yw dal 5% o'r gyllideb refeniw net fel isafswm y balansau cyffredinol. Yn seiliedig ar gyllideb 2023/24, y balans isaf fyddai £8.6m. Byddai defnyddio £1.758m o'r balansau cyffredinol i ddarparu cyllid ychwanegol yn cau'r bwlch cyllido yn ogystal â chynnal balansau cyffredinol ar lefel sydd ddim ond ychydig yn is na pholisi'r Cyngor.

**7.8.** Dylid nodi hefyd fod y Cyngor yn dal gwerth £23.2m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Amcangyfrifir y bydd £8.8m yn cael ei ddefnyddio yn ystod 2022/23, gan adael balans o £14.37m. Mae adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn sy'n weddill wedi nodi y gellid dychwelyd £4.4m i'r balansau cyffredinol os byddai angen. Bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pan fydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn hysbys.

**7.9.** Ar sail yr uchod, mae'r gyllideb refeniw arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2023/24 wedi'i nodi yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cyllideb Arfaethedig Gychwynnol 2023/24**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Ddisymyd 2023/24 (yn unol â Thabl 2)** | | **173.830** |
| **Addasiadau Ychwanegol i'r Gyllideb** | | |
| Gohirio buddsoddiad yn y gwasanaethau Addysg | (0.700) | |
| Cap ar gynnydd mewn chwyddiant yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion | (0.471) | |
| Incwm Priffyrdd Ychwanegol | (0.169) | |
| Gostwng Cyllidebau Gofal Cymdeithasol Oedolion | (0.053) | |
| | | (1.392) |
| **Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Gychwynnol 2023/24** | | **172.438** |
| **Cyllidir Gan** | | |
| Grant Cynnal Refeniw | (100.732) | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | (22.823) | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | | (123.555) |
| Dreth Gyngor (gan gynnwys y premiwm a chynnydd o 5%) | | (47.124) |
| Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor | | (1.758) |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **172.438** |

## 8. CANLYNIADAU'R YMARFERIAD YMGYNGHORI

**8.1** Fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori ar y Cynllun Corfforaethol, a gymerodd ran rhwng Medi 2022 a Tachwedd 2022, gofynnwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â pha wasanaethau oedd trigolion eisiau weld mwy neu lai o fuddsoddiad ynddynt a sut dylai'r Cyngor gyllido'r costau cynyddol o'r gyllideb refeniw.

**8.2** Cadarnhaodd yr ymgynghoriad fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn dymuno gweld buddsoddiad parhaus yng ngofal cymdeithasol, addysg, datblygu economaidd a delio â digartrefedd, ond llai o fuddsoddiad yn nhwristiaeth, cynllunio a llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau. Er fod barn trigolion yn bwysig, mae gan y Cyngor gyfrifoldebau statudol mewn nifer o feysydd ac nid yw hi'n bosib bob tro lleihau buddsoddiad.

**8.3** Mewn ymateb i sut dylai'r Cyngor gyllido ei gyllideb i'r dyfodol, cefnogodd 52.6% gymysgfa o gynyddu'r dreth gyngor a lleihau rhai gwasanaethau, tra roedd 28.5% eisiau gweld gostyngiadau'n dreth gyngor ac roedd 18.9% eisiau parhau â'r lefel gwasanaethau presennol, tra'n cynyddu'r dreth gyngor.

## 9. SEFYLLFA'R GYLLIDEB AR GYFER 2024/25

**9.1** Mae ansicrwydd sylweddol o hyd am economi'r DU ac a fydd yr economi'n dechrau adfer yn 2024/25, a'r effaith a gaiff yr adferiad ar chwyddiant, cyfraddau llog, a thwf economaidd, a lefelau cyllido ar gyfer Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru. Mae lefel uchel chwyddiant ar hyn o bryd yn golygu fod darogan costau yn y dyfodol yn anoddach ac mae gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol senarios. Mae'n anodd iawn rhagweld beth fydd y dyfarniadau cyflog mor bell ymlaen â 2024/25 hefyd, oherwydd chwyddiant uchel.

**9.2** Mae'r argyfwng costau byw presennol hefyd yn ychwanegu at y galw am wasanaethau'r Cyngor, yn bennaf ym maes digartrefedd a darparu cymorth a chyngor ar ddyledion. Mae problemau ariannol mewn teuluoedd hefyd yn arwain at broblemau iechyd meddwl a theuluoedd yn chwalu, sy'n arwain at fwy o alw am ofal cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant. Bydd unrhyw gynnydd mewn diweithdra hefyd yn ychwanegu at y pwysau ar y gyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a dyledion nad oes modd eu casglu. Mae'r problemau presennol yn y GIG yn ychwanegu at y pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Os bydd y rhyfel yn Wcráin yn parhau, bydd y pwysau ar gostau ynni yn parhau ac mae'r risg y bydd Covid yn ailymddangos yn bodoli o hyd.

**9.3** Nid yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a setliad dros dro llywodraeth leol yn datgan yn uniongyrchol beth fydd lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, ond mae'r ffigyrau drafft ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd yn y gyllideb yn awgrymu cynnydd o 3% yn lefel y cyllid yn 2024/25. Os gwireddir hynny, bydd y Cyngor yn derbyn cynnydd o £3.7m yn ei gyllid.

**9.4** Er nad yw'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn y dyfodol, byddai cynnal y polisi presennol o gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu swm ychwanegol o £2.35m.

**9.5** Trwy ddefnyddio £1.81m o gronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2023/24, yna ar gyfer cyllideb 2024/25 byddai'n rhaid cyllido'r swm hwn o'r cyllid craidd ychwanegol, parhau i'w ariannu o gronfeydd wrth gefn neu drwy ostwng y gyllideb yn barhaol.

**9.6** Os rhagdybir y bydd cyllid craidd yn cymryd lle'r swm o £1.81m o'r cronfeydd wrth gefn, bydd hyn yn golygu cynnydd o £4.29m yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer 2024/25 (£3.7m + £2.35m - £1.76m), ac mae hyn gyfystyr â chynnydd o 2.6% yn y gyllideb refeniw net.

**9.7** Mae'r rhagolygon chwyddiant presennol yn awgrymu y bydd chwyddiant cyffredinol rhwng 1.2% a 4.8% yn 2024/25 ac, o ganlyniad, yr amcangyfrif yw y bydd cyllid ychwanegol yn 2024/25 yn cwrdd â chynnydd mewn chwyddiant yn unig ac na fydd unrhyw gyllid ar gael i gwrdd â chynnydd yn y galw am wasanaethau nac i fuddsoddi mewn gwasanaethau. Os yw'r adferiad economaidd yn wan a bod chwyddiant yn parhau'n uchel, ni fydd y cyllid ychwanegol yn ddigonol i gwrdd â phwysau mewn chwyddiant a bydd rhaid gostwng cyllidebau gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ansicrwydd mawr ynghylch maint y gostyngiad yn y cyllidebau hynny.

**9.8** Dylid nodi hefyd, os yw'r cynnydd gwirioneddol mewn cyflogau a phrisiau yn 2023/24 yn uwch na'r swm a ganiatawyd yng nghyllideb 2023/24, byddai'n rhaid cywiro'r tan gyllido hwn yng nghyllideb 2024/25, gan greu pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn nhermau chwyddiant.

**9.9** Rhagwelir y bydd cydbwyso'r gyllideb yn 2024/25 yn hynod o heriol. Mae gwaith wedi dechrau'n barod i nodi arbedion posibl yn y gyllideb ar gyfer 2024/25, a bydd y cynigion arbedion hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn ystod 2023/24.

## 10. CASGLIAD

**10.1** Er bod setliad ariannol ar gyfer llywodraeth leol yn well na'r rhagolwg blaenorol ac er nad yw'n darparu cyllid i gwrdd â chost llawn chwyddiant a'r galw am wasanaethau, mae modd ymdopi â'r diffyg yn y gyllideb yn 2023/24.

**10.2** Mae rheolaeth ariannol ddarbodus yn y gorffennol wedi cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn sylweddol ac mae hyn wedi cynyddu balansau cyffredinol y Cyngor a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r sefyllfa ariannol well na'r disgwyl yn golygu y gall y Cyngor cyflwyno cynnig ar gyfer y gyllideb sy'n caniatáu cynnydd yn y Dreth Gyngor sydd yn is na chwyddiant, sy'n caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn, ac mae'n argymell gostyngiad cymedrol mewn cyllidebau.

**10.3** Mae rhywfaint o risg yn gysylltiedig â'r gyllideb, yn arbennig pa un a wnaed darpariaeth ddigonol ar gyfer cynnydd mewn cyflogau, chwyddiant mewn prisiau ynni a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae'r risg yn cael ei liniaru oherwydd gallai'r Cyngor ailgyfeirio hyd at £4m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido costau uwch yn 2023/24.

**10.4** Er bod y gyllideb arfaethedig yn gofyn am lefel gymedrol a chyraeddadwy o doriadau yn y gyllideb, rhagwelir y bydd mwy o angen am ostyngiad yn y gyllideb ac mewn gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn caniatáu i'r Cyngor barhau i osod cyllideb gytbwys a sicrhau fod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn rhesymol ac yn fforddiadwy.

**10.5** Mae sefyllfa'r gyllideb o 2024/25 ymlaen yn edrych yn fwy ansicr ac, os nad yw'r economi'n llwyddo i adfer ac os yw cynnydd mewn cyllid yn gyfyngedig, yna mae risg sylweddol y bydd angen mwy o doriadau mewn gwasanaethau er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25. Gallai'r pwysau hwn barhau yn 2025/26 hefyd.

## 11. MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIAD

**10.1.** Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r gyllideb derfynol tan 9 Mawrth 2023, ond, ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

- Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2023/24 o £172.438m;
- Cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,435.86;
- Cynnig ffurfiol i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi o 50% i 75%;
- Bod £1.758m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2023/24.

| CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2023/24 FESUL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2022/23** | **Cyllideb Arfaethedig 2023/24** | **Symudiad** | **% Newid** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 44.919 | 49.270 | +4.351 | +9.68 |
| Addysg Ganolog | 11.215 | 12.441 | +1.226 | +10.94 |
| Diwylliant | 1.270 | 1.350 | +0.080 | +6.31 |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **57.404** | **63.061** | **+5.657** | **+9.85** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 6.892 | 7.891 | +0.999 | +14.50 |
| Eiddo | 1.508 | 1.548 | +0.040 | +2.63 |
| Gwastraff | 9.164 | 10.317 | +1.153 | +12.58 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **17.564** | **19.756** | **+2.192** | **+12.48** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd a Morwrol | 2.214 | 3.006 | +0.792 | +35.78 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2.406 | 2.670 | +0.264 | +10.99 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **4.620** | **5.676** | **+1.056** | **+22.87** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **29.964** | **34.971** | **+5.007** | **+16.71** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **11.715** | **12.967** | **+1.252** | **+10.69** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.475 | 1.587 | +0.112 | +7.64 |
| TGCh | 3.704 | 4.172 | +0.468 | +12.64 |
| Trawsnewid | 1.029 | 1.190 | +0.161 | +15.61 |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **6.208** | **6.949** | **+0.741** | **+11.95** |
| | | | | |
| **Tai** | **1.217** | **1.590** | **+0.373** | **+30.59** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **3.429** | **3.732** | **+0.303** | **+8.85** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **1.822** | **1.959** | **+0.137** | **+7.49** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **133.943** | **150.661** | **16.718** | **+12.48** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.735 | 0.760 | +0.025 | +3.32 |
| Ardollau | 3.957 | 4.505 | +0.548 | +13.83 |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3.030 | 3.244 | +0.214 | +7.07 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 7.209 | 4.329 | -2.880 | -39.95 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 0.109 | 0.109 | 0.000 | 0.00 |
| Ailgodi Tâl ar y CRT | (0.800) | (0.800) | 0.000 | 0.00 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6.304 | 6.752 | +0.448 | +7.10 |
| Cyllidebau wrth Gefn | 3.110 | 1.271 | -1.839 | -59.13 |
| Cymorth Dewisol tuag at y Dreth | 0.073 | 0.105 | +0.032 | +43.84 |
| Benthyciadau a Grantiau Tai | 0.697 | 1.502 | +0.805 | +115.51 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol** | **24.424** | **21.777** | **-2.647** | **-10.84** |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **158.367** | **172.438** | **14.071** | **+8.89** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24 Ionawr 2023 |
| Pwnc / Testun: | Datblygiad blaenoriaethau strategol y cyngor 2023-28 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|

**1.1** Mae'r adroddiad cysylltiedig yn benllanw ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori gyda staff, preswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid. Mae wedi bod yn digwydd ers dechrau blwyddyn galendr 2022 pan gynhaliodd y cyngor ei ymarfer ymgysylltu cychwynnol. Daeth i ben gyda chyfnod o 8 wythnos o ymgynghori a ddaeth i ben ar y 14eg o Dachwedd, 2022.

**1.2** Ei nod oedd casglu dealltwriaeth o'r hyn yr oedd trigolion Ynys Môn yn gobeithio'i weld y Cyngor yn canolbwyntio arno yn ystod Cynllun y Cyngor ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd sydd i ddod.

**1.3** Roedd canlyniad y gwaith ymgysylltu a datblygu cynharach yn nodi chwe blaenoriaeth strategol yr ymgynghorwyd arnynt am gyfnod o 8 wythnos. Cyflwynir y blaenoriaethau strategol hyn yn Atodiad A.

**1.4** Roedd canfyddiadau'r ymgysylltu a'r ymgynghoriad ar y chwe blaenoriaeth strategol a grybwyllwyd uchod yn galonogol. Mae data'n ein hysbysu bod y Cyngor wedi derbyn dros 2,500 o ymatebion ar gyfer pob math o weithgaredd trwy gydol y flwyddyn. Mae'r Adroddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori – Cynllun y Cyngor 2023-28 sy'n amlinellu'r canfyddiadau hyn yn cael eu cyflwyno yn Atodiad B.

**1.5** Argymhellir bod y Pwyllgor yn:

**1.5.1** Cytuno bod y broses ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i chynnal mor gynhwysfawr â phosibl yn ystod 2022

**1.5.2** Cytuno bod swyddogion mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Gwaith yn datblygu Cynllun y Cyngor drafft ymhellach yn dilyn y broses ymgynghori yn barod i'w fabwysiadu yn ystod gwanwyn 2023

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r papur yn amlinellu'r ymateb i broses ymgynghori'r Cyngor ar ddatblygu Amcanion Strategol y Cyngor ar gyfer y 5 mlynedd i ddod. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Mae Cynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2023 – 28 yn cydnabod 6 blaenoriaeth strategol y bydd y Cyngor am eu cyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae 57 o ffrydiau gwaith cysylltiedig wedi cael eu cydnabod er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.<br><br>Cydnabyddir bod nifer o'r ffrydiau gwaith hynny yn rhai ataliol eu natur rhag –<br><br>a. Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref<br>b. Blaenoriaethu'r agenda digarboneiddio ar draws y Cyngor |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Gwahoddwyd sefydliadau partneriaethol yn ogystal â chynghorau tref a chymuned lleol i ymateb i'r ymgynghoriad |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Gofynnwyd i holl ddinasyddion Ynys Môn, busnesau a sefydliadau partneriaethol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a derbyniwyd dros 2,500 o ymatebion ynglŷn â'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Oherwydd cymhlethdod a chynnwys amrywiol Cynllun drafft y Cyngor 2023 - 28, argymhellir a chynghori bod y gwahanol ffrydiau gwaith a phrosiectau cysylltiedig sy'n gysylltiedig â'r Cynllun drafft, yn cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb unigol ar wahân er mwyn asesu effeithiau'r gwaith cysylltiedig.<br>6.2 Cynigir bod yr asesiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r naill ai, neu gyfuniad o'r –<br><br>• Tîm Arweinyddol<br>• Byrddau rhaglenni corfforaethol<br>• Pwyllgorau Craffu / Gwaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | (yn ddibynnol ar gynnwys) cyn dilyniant y gwaith cysylltedig. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Fel yr uchod |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel yr uchod |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 19/1. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| A. Holiadur Ymgynghoriad - Ein Dyfodol<br>B. Adroddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori – Cynllun y Cyngor 2023-28<br>C. Fforddiadwyedd Cynllun y Cyngor 2023-28 ('Lefel Uchel') |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Cynllun y Cyngor 2017-22<br>• Cynllun Trosiannol 22-23 |

**Dychwelwch erbyn**

**14eg Tachwedd 2022**

# Ein Dyfodol

Mae gwariant cyhoeddus dan bwysau wrth i gostau gynyddu. Wrth i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyhoeddi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r costau cynyddol, bydd llywodraeth leol yn wynebu penderfyniadau anodd.

Er bod y cyfanswm o bres sydd gan y Cyngor i wario yn gostwng, mewn cymhariaeth mae pobl leol yn disgwyl mwy. Mae pobl eisiau gweld yr economi leol yn ffynnu, cyfleoedd gwaith sy'n talu'n dda, mynediad hawdd i wasanaethau lleol a'u hardal leol yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus.

Bydd rhaid i'r Cyngor ffocysu. Mae angen gwneud penderfyniadau gofalus iawn ar beth sydd yn mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn y dyfodol, a chanolbwyntio ar eu gwneud yn dda.

**Dyma pam ein bod ni'n awyddus i glywed eich barn chi. A fyddech cystal â chymryd ychydig o amser i lenwi'r holiadur hwn?**

Gallwch wneud hynny ar-lein www.ynysmon.llyw.cymru/eindyfodol neu ddychwelyd yr holiadur hwn i'ch llyfrgell, ganolfan hamdden leol, Oriel Môn neu i un o swyddfeydd y Cyngor.

Cewch hefyd bostio'r holiadur i: Ein Dyfodol, Gethin Morgan, Gwasanaeth Trawsnewid, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW.

*This document is also available in English by visiting www.anglesey.gov.wales/ourfuture or by visiting your nearest library, leisure centre or council offices.*

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg trwy ymweld â www.ynysmon.llyw.cymru/eindyfodol neu trwy ymweld a'ch llyfrgell, canolfan hamdden neu swyddfeydd y cyngor agosaf

**Rhan 1 – Cyllid y Cyngor**

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol gyda chwyddiant yn codi yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllideb y Cyngor wrth iddo orfod ariannu –

- dyfarniadau cyflog uwch
- costau ynni cynyddol a
- costau cynyddol gwasanaethau a gontractir yn allanol mewn ymateb i'r costau cynyddol a wynebir gan ein contractwyr.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn wynebu galw cynyddol am wasanaethau i gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn ystod yr argyfwng costau byw, gan gynnwys atal Digartrefedd, gofal cymdeithasol oedolion a gofal cymdeithasol plant.

Amcangyfrifir efallai y bydd angen i'r Cyngor gynyddu ei gyllideb refeniw o £15 miliwn i £20 miliwn (9% i 13%) yn 2023/24 a £6 miliwn i £10 miliwn (4% i 6%) yn 2024/25.

Cyn y cynnydd mewn chwyddiant, nododd Llywodraeth Cymru y byddai grant cynnal refeniw'r Cyngor (sy'n ariannu tua 75% o gyllideb y Cyngor bob blwyddyn) yn codi 3.6% yn 2023/24 a 2.5% yn 2024/25.

Yn amlwg, ni fydd hynny'n darparu digon o incwm ychwanegol i dalu'r costau cynyddol a bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried sut y bydd yn gosod cyllideb gytbwys dros y blynyddoedd i ddod.

Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i benderfynu ar ei strategaeth gyllidebol a'i flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, hoffai geisio eich barn ar y canlynol:-

1) **Er mwyn cydbwyso'r gyllideb, pa rai o'r strategaethau canlynol fyddech chi'n eu cefnogi?**

    a. Cynnal y lefelau presennol o wasanaeth, a ariennir gan gynnydd yn y Dreth y Cyngor ar lefel uwch na chwyddiant.

    b. Toriadau yng ngwasanaethau'r Cyngor i gadw unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn sylweddol is na chwyddiant.

    c. Cymysgedd o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar neu ychydig yn is na chwyddiant, gyda rhai toriadau i wasanaethau'r Cyngor.

**2) Os yw'r Cyngor yn newid y modd y darperir gwasanaethau, nodwch pa wasanaethau yr hoffech weld buddsoddiad pellach ynddynt, yr hoffech eu cynnal ar eu lefelau presennol a pha rai y byddech yn fodlon i'w gweld yn cael eu lleihau:-**

| **Gwasanaeth** | **Buddsoddi Mwy** | **Cynnal y Gwasanaeth Presennol** | **Lleihau Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | | | |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | | | |
| Goleuadau Stryd | | | |
| Casglu Gwastraff | | | |
| Glanhau Strydoedd | | | |
| Canolfannau Hamdden | | | |
| Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau | | | |
| Twristiaeth gan gynnwys Morwrol | | | |
| Cynllunio | | | |
| Safonau Masnach | | | |
| Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd | | | |
| Atal Digartrefedd | | | |
| Datblygiad Economaidd | | | |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | | | |
| Lleihau Ôl Troed Carbon y Cyngor | | | |

3) **Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud buddsoddiad cyfalaf i gynnal a gwella ei asedau presennol (adeiladau, cerbydau, ffyrdd), ac i ddarparu asedau newydd.**

   **Mae'r gyllideb gyfalaf yn gyfyngedig ac yn cael ei hariannu drwy fenthyciadau a chyllid grant gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac eraill.**

   **Mae angen ad-dalu'r cynnydd mewn benthyca gyda llog ac mae'n rhaid ariannu hyn o'r gyllideb refeniw.**

   **Ydych chi'n cefnogi:-**

   a. Cynnydd mewn gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan fwy o fenthyca sy'n arwain at drethi cyngor uwch

   b. Lleihau benthyca er mwyn lleihau'r costau refeniw blynyddol hyd yn oed os yw hyn yn arwain at ostyngiad yn y buddsoddiad mewn asedau presennol a dim asedau newydd yn cael eu darparu

   c. Cynnal y gwariant cyfalaf ar ei lefel bresennol gyda swm cyfyngedig o fenthyca fforddiadwy.

4) **Ar gyfer pob un o'r canlynol a ydych yn dymuno gweld mwy o fuddsoddiad cyfalaf, llai o fuddsoddiad cyfalaf neu gynnal y buddsoddiad presennol?**

| **Ased** | **Buddsoddi Mwy** | **Cynnal y Gwasanaeth Presennol** | **Lleihau Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Adeiladu Ysgolion Newydd | | | |
| Gwella ac uwchraddio adeiladau presennol gan gynnwys ysgolion, cartrefi gofal preswyl a chyfleusterau gofal dydd | | | |
| Cynnal a Chadw a Gwelliannau Ffyrdd | | | |
| Lleihau ôl troed carbon y Cyngor drwy fuddsoddi mewn ynni gwyrdd a cherbydau trydan | | | |
| Gwella ac Uwchraddio Canolfannau Hamdden | | | |
| Gwella cyfleusterau hamdden a thwristiaeth eraill | | | |
| Gwella ac uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus | | | |
| Buddsoddi mewn Pwyntiau Gwefru ar gyfer cerbydau trydan | | | |
| Gwella systemau TG y Cyngor i alluogi mwy o wasanaethau ar-lein | | | |
| Buddsoddi mewn mwy o gaeau chwaraeon 4G | | | |
| Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd | | | |
| Adeiladu mwy o Unedau Diwydiannol a Busnes | | | |
| Adeiladu Tai Cymdeithasol | | | |
| Adeiladu tai i bobl eu rhentu neu eu prynu am bris y farchnad | | | |

**RHAN 2: Ein Dyfodol**

Fel a noder yn flaenorol, mae heriau i'w gweld ymhobman. Mae'r pwrs cyhoeddus dan bwysau unwaith eto.

Er eich bod wedi nodi'r hyn y dylai'r Cyngor wario ei arian arno yn eich barn chi, a yw'r rhain yn cyd-fynd â'r hyn y credwch y dylai blaenoriaethau'r Cyngor fod?

Dywedwch wrthym.

1. **Yn dilyn ein cyswllt â chi ar ddechrau 2022, rydym wedi nodi chwe maes gwaith allweddol isod wedi'u nodi fel ein blaenoriaethau strategol hyd at ddiwedd 2028:**

| |
|---|
| **Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles –** darparu gwasanaeth i drigolion pan fo angen |
| **Addysg –** sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol |
| **Tai –** sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref |
| **Economi –** hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys |
| **Yr Hinsawdd –** blaenoriaethu'r agenda datgarboneiddio ledled y Cyngor |
| **Cymraeg** – cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith |

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau hyn?**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n Gryf | ☐ |
| Cytuno | ☐ |
| Ddim yn cytuno nac Anghytuno | ☐ |
| Anghytuno | ☐ |
| Anghytuno'n Gryf | ☐ |

2. **Rhestrir isod y meysydd y bwriedir eu datblygu o dan bob un o'r themâu allweddol** -

| **Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant** |
|---|
| 1. Cryfhau'r ddarpariaeth Cyfleoedd Dydd ar gyfer Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu trwy wella ac annog mynediad i adnoddau cymunedol |
| 2. Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i leihau'r effeithiau a brofir gan bobl mewn tlodi a defnyddio mesurau lliniaru Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i gostau byw cynyddol |
| 3. Cydweithio trwy wasanaethau yn y gymuned a phartneriaid i sicrhau fod y rhaglen ymyrraeth gynnar ac ataliol yn gwella ansawdd bywyd |
| 4. Sicrhau fod Hybiau Cymunedol yn hygyrch a'u bod yn darparu gwasanaethau ystyrlon er mwyn caniatáu annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella iechyd a llesiant pobl |
| 5. Gweithio gyda chymunedau, partneriaid a sefydliadau trydydd sector i wella cyfleoedd cymdeithasol a phontio'r cenedlaethau lle bo hynny'n briodol |
| 6. Buddsoddi mewn cyfleusterau Hamdden er mwyn gwella mwynhad, presenoldeb a lefelau cyfranogi |
| 7. Adolygu a moderneiddio'r ddarpariaeth Byw â Chymorth ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu |
| 8. Parhau i weithio gyda phreswylwyr a chymunedau trwy'r rhaglen Cynllunio Lle i gefnogi a gwella cadernid cymunedol |
| 9. Adolygu a moderneiddio darpariaethau Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor a gweithio gyda phartneriaid i wneud y gwasanaeth yn addas ar gyfer y dyfodol |
| 10. Darparu cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal nodi beth sy'n bwysig iddynt er mwyn iddynt ddylanwadu ar eu gofal eu hunain |

**A ydych yn cytuno â'r meysydd i'w datblygu? (Rhowch gylch)**

Pob un Gan amlaf Ychydig Dim

| **Addysg** |
|---|
| 1. Sicrhau'r canlyniadau gorau posib ar gyfer dysgwyr trwy fuddsoddi a thrwy roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith |
| 2. Mabwysiadu a gwireddu strategaeth newydd ar gyfer Moderneiddio Dysgu a Gwella'r Iaith Gymraeg |
| 3. Cynorthwyo plant a phobl ifanc i reoli eu hiechyd meddwl, gwella eu llesiant a'u sgiliau digidol |
| 4. Parhau i gynnig cymorth ac arweiniad i Ieuenctid Môn mewn ffordd gynhwysol ac arloesol |
| 5. Rhoi rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy ddiwygiedig ar waith fel bod amgylcheddau dysgu yn addas i bwrpas ac yn gweithio tuag at statws carbon niwtral |
| 6. Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a dysgu ôl-16 |
| 7. Cynorthwyo plant a'u teuluoedd i gael mynediad at weithgareddau addysgol a gweithgareddau yn y gymuned tu allan i oriau ysgol traddodiadol |
| 8. Sicrhau a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau ar gyfer pobl ifanc trwy waith |
| 9. Gwella cyfranogiad y cyhoedd er mwyn galluogi trigolion (yn enwedig plant a phobl ifanc) i chwarae rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor |

**A ydych yn cytuno â'r meysydd i'w datblygu? (Rhowch gylch)**

Pob un Gan amlaf Ychydig Dim

| Tai | |
|---|---|
| 1. | Cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnal ansawdd ac ystod yr opsiynau llety sydd ar gael yn y sector gofal |
| 2. | Datblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol ym mherchnogaeth y Cyngor ym Mhorthaethwy |
| 3. | Datblygu mwy o Gartrefi Clyd |
| 4. | Cynyddu gwasanaeth seibiant a Gofal Dydd ar gyfer plant ag anableddau |
| 5. | Adnabod anghenion tai yr ynys |
| 6. | Adeiladu cartrefi newydd effeithlon o ran ynni sydd â pherfformiad ynni gradd 'A' er mwyn cwrdd â'r angen cydnabyddedig am dai |
| 7. | Lleihau'r gofyn am unedau llety argyfwng trwy gyrchu cartrefi parhaol ar gyfer unigolion sy'n byw mewn llety o'r fath ar hyn o bryd |
| 8. | Cynyddu premiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a defnyddio'r arian a godir i roi cymorth ariannol i brynwyr tro cyntaf sy'n methu fforddio prynu cartref ar y farchnad agored |
| 9. | Parhau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ledled yr Ynys |
| 10. | Gweithio mewn partneriaeth i helpu i gefnogi unrhyw ffoaduriaid sy'n dod i fyw ar yr Ynys |

**A ydych yn cytuno â'r meysydd i'w datblygu? (Rhowch gylch)**

Pob un    Gan amlaf    Ychydig    Dim

| Economi | |
|---|---|
| 1. | Archwilio cyfleoedd i adeiladu unedau busnes newydd ledled yr Ynys er mwyn caniatáu i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes dyfu |
| 2. | Gweithio gyda pherchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol diangen |
| 3. | Sicrhau'r cyfleoedd gorau i gwmnïau lleol elwa ar gontractau a chyfleoedd sector cyhoeddus |
| 4. | Cydweithio i Wireddu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn |
| 5. | Cydweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i gryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' rhyngwladol allweddol |
| 6. | Parhau i weithio mewn partneriaeth trwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i greu cyfleoedd lleol a rhanbarthol newydd |
| 7. | Manteisio ar gyfleoedd cyllido allanol i sicrhau fod anghenion economaidd yr Ynys yn cael sylw |
| 8. | Cydweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i ddylanwadu ar ddatblygiadau newydd posib a chyfleoedd buddsoddi |
| 9. | Cefnogi a hwyluso datblygiadau ynni carbon isel posib, gan gynnwys gwynt, llanw, solar, hydrogen a niwclear, yn ogystal ag isadeiledd grid cysylltiedig ar yr amod nad yw uwchben y ddaear |
| 10. | Dylanwadu ar ddatblygiadau ynni mawr i wneud y gorau o fuddiannau lleol a hirdymor, a lleihau'r effeithiau posib |
| 11. | Rhoi Cynlluniau Rheoli Cyrchfan ac AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) newydd ar waith |
| 12. | Cefnogi a chroesawu ymweliadau gan longau mordaith i Ynys Môn a Gogledd Cymru |
| 13. | Buddsoddi mewn isadeiledd craidd i ddarparu profiadau diogel a chynaliadwy er mwyn i drigolion ac ymwelwyr fwynhau arfordir a chefn gwlad yr Ynys |

**A ydych yn cytuno â'r meysydd i'w datblygu? (Rhowch gylch)**

Pob un    Gan amlaf    Ychydig    Dim

| **Hinsawdd** |
| --- |
| 1. Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd |
| 2. Gwireddu ystod o fentrau i wella bioamrywiaeth, yn cynnwys cynlluniau plannu coed |
| 3. Parhau i wella ansawdd a lleihau ôl-troed carbon stoc dai ac adeiladau'r Cyngor |
| 4. Parhau i leihau risg llifogydd mewn ardaloedd sy'n achosi pryder |
| 5. Parhau i wireddu adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwella bywiogrwydd a hyfywedd Canol Trefi |
| 6. Gweithio tuag at gyfradd ailgylchu domestig o 70% |
| 7. Cydweithio i ddatblygu a chyflenwi trafnidiaeth gynaliadwy amgen |

**A ydych yn cytuno â'r meysydd i'w datblygu? (Rhowch gylch)**

Pob un Gan amlaf Ychydig Dim

| **Cymraeg** |
| --- |
| 1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys |
| 2. Creu cysylltiadau iaith cadarnhaol drwy sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gwerthfawrogi gwerth y Gymraeg |
| 3. Prif Ffrydio'r Gymraeg a sicrhau ei statws yn y gweithle |
| 4. Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau |
| 5. Cefnogi cymunedau'r Ynys sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg i ffynnu'n economaidd drwy'r rhaglen Arfor |

**A ydych yn cytuno â'r meysydd i'w datblygu? (Rhowch gylch)**

Pob un Gan amlaf Ychydig Dim

**Oes rhywbeth ar goll? Beth arall sy'n gwneud / a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd eich bywyd yma ar Ynys Môn? (parhewch ar y dudalen nesaf)**

| |
| --- |
| |

**Ein Hamcanion Llesiant presennol yw –**

1) Amcan 1 - sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
2) Amcan 2 - cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
3) Amcan 3 - gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

Mae'r Cyngor yn credu eu bod yn cael eu cefnogi'n gryf gan ein chwe blaenoriaeth strategol a nodwyd yn gynharach yn yr arolwg.

**A ydych yn cytuno bod yr amcanion llesiant yn parhau i fod yn gyfredol? (Rhowch gylch)**

Yndw Nac ydw

**Os nac ydw, pam?**

Hoffem gael eich barn ar effaith y cynigion hyn ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?**

**Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| |

**Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

| |
|---|
| |

**Dywedwch wrthym a ydych yn cwblhau'r holiadur hwn:**

| | |
|---|---|
| Ar ran eich hun | |
| Ar ran eich teulu | |
| Fel aelod o Grŵp Cymunedol | |
| Fel aelod o Gyngor Tref a Chymuned neu fel Cynghorydd Sir | |
| Ar ran mudiad / sefydliad | |

Diolch i chi am eich ymatebion.

Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u hystyried gan y –

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a
- Cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith

ym mis Ionawr ac wedi hynny i'r Cyngor Sir Ynys Môn.

**Os hoffech cael gwybod am ymgynghoriadau yn y dyfodol gan Gyngor Sir Ynys Môn, nodwch eich e-bost yn y blwch isod:**

| |
|---|
| |

*Bydd gwybodaeth ar sut i ddad-danysgrifio ar gael ar waelod yr e-byst ymgynghori. Ni fydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill heblaw am yr hyn a nodwyd uchod. Am ragor o wybodaeth ymwelwch â www.ynysmon.llyw.cymru/eindyfodol i weld ein hysbysiad preifatrwydd.*

*Rydym yn fodlon darparu'r holiadur hon mewn fformatau amgen ar gais. Am fwy o fanylion ymwelwch â www.ynysmon.llyw.cymru/eindyfodol*

# MAE'R FFURFLEN HON YN DDEWISOL

## (Blaenoriaethau Ynys Môn - Eich Barn)
## Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad drwy ddarparu, yn hollol wirfoddol, y wybodaeth y gofynnir amdani isod, er mwyn sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu yn gynhwysol ac yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy’n deg i bawb ac yn ddiragfarn. **Mae’r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddi-enw**, a bydd yn cael ei defnyddio dim ond at ddibenion monitro ystadegol.

**Oedran:**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodwch eich oedran trwy roi tic yn y blwch priodol: | 0 – 15 oed | ☐ | 16 – 24 oed | ☐ | 25 – 34 oed | ☐ |
| | 35 – 44 oed | ☐ | 45 – 54 oed | ☐ | 55 – 64 oed | ☐ |
| | 65 – 74 oed | ☐ | 75 neu hŷn | ☐ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhyw:** | Gwryw | ☐ | Arall | ☐ |
| | Benyw | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Ethnig:** | Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy’n disgrifio orau eich grŵp neu gefndir ethnig. | | | | | |
| | Gwyn | ☐ | Du - Caribïaidd | ☐ | Unrhyw ethnigrwydd arall | ☐ |
| | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ | Du - Affricanaidd | ☐ | | |
| | | | Du – Unrhyw gefndir arall | ☐ | | |
| | Cymysg – Gwyn / Du Caribïaidd | ☐ | Asiaidd - Indiaidd | ☐ | | |
| | Cymysg – Gwyn Caribïaidd | ☐ | Asiaidd - Bangladeshaidd | ☐ | | |
| | Gwyn / Du Affricanaidd | ☐ | Asiaidd - Pacistanaidd | ☐ | | |
| | Cymysg – unrhyw gefndir arall | ☐ | Asiaidd a Tsieinïaidd | ☐ | | |
| | | | Asiaidd - arall | ☐ | | |

| **Cyfeiriadedd Rhywiol:** | Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n ystyried eich hun? |
|---|---|
| | Heterorywiol/Strêt ☐ Deurywiol ☐ |
| | Dyn Hoyw ☐ Arall (nodwch os dymunwch) ☐ ________________ |
| | Dynes Hoyw/Lesbiaidd ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ |

| **Statws Priodasol:** | |
|---|---|
| Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw? | Ydw ☐<br>Nac ydw ☐<br>Gwell gennyf beidio â dweud ☐ |

| **Crefydd neu Gred:** | Beth yw eich crefydd? |
|---|---|
| | Cristnogaeth (pob enwad) ☐ Dim crefydd ☐ |
| | Bwdaidd ☐ Mwslim ☐ Iddewig ☐ Arall (Nodwch) ☐ ___________ |
| | Hindŵ ☐ Sikh ☐ Anffyddiwr ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ |

| **Anabledd:** | Mae Adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod gan berson anabledd os:<br>(a) Oes gan y person hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a<br>(b) Mae'r nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. |
|---|---|
| | Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl? Ydw ☐ Nac ydw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ |

| **Hunaniaeth Rhywedd:** | A yw eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? | Ydi ☐<br>Nac ydi ☐<br>Gwell gennyf beidio â dweud ☐ |
|---|---|---|

| **Cyfrifoldebau Gofalu:** | Ydych chi'n gofalu am, neu'n helpu neu'n cynorthwyo aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu bobl eraill oherwydd naill ai: |
|---|---|
| • Anabledd/salwch corfforol neu feddyliol hirdymor; neu<br>• Problemau yn ymwneud â henaint | Ydw ☐<br>Nac ydw ☐<br>Gwell gennyf beidio â dweud ☐ |

*Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rydw i'n cydnabod ac yn rhoi caniatâd penodol i'r data hwn, a ddarparwyd yn wirfoddol gennyf, gael ei ddefnyddio at ddibenion monitro ac adrodd cyfreithlon yr ymateb i'r holiadur hwn.*

# Adroddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori: Cynllun y Cyngor 2023 - 2028

## Rhagfyr 2022

## Statws yr adroddiad - Swyddogol

## Paratowyd gan:

Y Tîm Trawsnewid o fewn y Gwasanaeth AD a Thrawsnewid

**1.0 - Cyflwyniad**

**1.1** Ffrwyth ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori â staff, preswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yw'r gwaith hwn. Bu'r gwaith yn mynd rhagddo ers dechrau 2022 pan gynhaliodd y Cyngor ei ymarfer ymgysylltu cychwynnol.

Ei nod oedd cael dealltwriaeth o'r hyn yr oedd preswylwyr Ynys Môn yn gobeithio y byddid yn canolbwyntio arno yn ystod Cynllun y Cyngor ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd sydd i ddod.

**1.2** Roedd y cyfnod ymgysylltu cychwynnol wedi para am 6 - 8 wythnos rhwng Chwefror a Mawrth 2022.

Roedd y canlyniadau a'r modd y datblygodd y broses yn amrywio:

- O safbwynt ymgysylltiad ar-lein - ymatebodd 368 o breswylwyr, gyda 58% o'r ymatebwyr hynny'n dod o'r grŵp oedran 45-74.
- Roedd Age Cymru mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor – wedi cynnal 11 grŵp ffocws ledled yr ynys, a arweiniodd at gael ymatebion gan 45 o bobl hŷn.
- Cafodd staff hefyd y cyfle i leisio eu barn – cafwyd ymatebion gan 217 ohonynt, ac
- O safbwynt pobl ifanc – ymatebodd 22 o gynghorau ysgol i'r ymarfer ymgysylltu, gan felly gynrychioli tua 3000 o blant o ysgolion cynradd ac uwchradd yn ddemocrataidd.

**1.2** Yn dilyn yr ymgysylltiad cyhoeddus hwn, gofynnwyd i wasanaethau'r Cyngor nodi eu ffrydiau gwaith pwysicaf ar gyfer eu gwireddu dros y 5 mlynedd i ddod.

**1.3** Yng ngolau'r ymarfer ymgysylltu cychwynnol, roedd y Cyngor wedi nodi chwe amcan strategol a fyddai'n cefnogi amcanion y Cyngor o ran lles ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Roedd y rhain yn cyd-fynd hefyd â'r cyfeiriad gwleidyddol a oedd yn deillio o ganlyniadau etholiad Mai 2022:

- Gofal Cymdeithasol – darparu gwasanaeth i breswylwyr pan fo angen
- Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref
- Addysg – sicrhau bod y system yn addas ar gyfer cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol
- Yr Economi - hybu cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys
- Newid Hinsawdd – blaenoriaethu'r agenda ddatgarboneiddio ar draws y Cyngor
- Y Gymraeg – cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

**1.4** Datblygwyd ffrydiau gwaith cysylltiedig gan wasanaethau o dan bob amcan strategol a oedd yn ffurfio'r cynllun drafft cyntaf y byddid yn ei ystyried at ddibenion ymgynghori.

**2.0 - Y Broses Ymgynghori**

**2.1** Fe aeth y Cyngor ati i ddylunio'r broses ymgynghori i geisio ennyn diddordeb ac ysgogi cymaint o ymatebion â phosibl. I'r perwyl hwnnw, lluniwyd deunydd a oedd yn amlygu'r materion dan sylw mewn modd hawdd ei ddarllen.

**2.2** Yn gyntaf, ymgynghorwyd â staff ynghylch y chwe amcan strategol a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig. Yng ngolau ymatebion aelodau staff, gwnaed gwelliannau a rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i'w barnau cyn cynnal ymgynghoriad 'cyhoeddus'.

**2.3** Fe gafodd yr amserlen wreiddiol ar gyfer yr ymgynghoriad ei hymestyn i 8 wythnos yn dilyn trafodaeth ac arweiniad gan Gynghorau Tref a Chymuned yn eu cyfarfod ar Fedi'r 8fed. Agorodd y cyfnod ymgynghori yn dilyn cyfnod o alaru o ganlyniad i farwolaeth Ei Mawrhydi, y Frenhines.

Cychwynnodd ar 20fed Medi hyd at y 14eg Tachwedd.

**2.4** Roedd y Cyngor wedi gweithio i wneud yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosibl. Gwelir tystiolaeth o hyn o safbwynt yr ymdrech ar y cyd i dargedu pob ward ar yr ynys mewn rhyw fodd neu'i gilydd.

Cafodd copïau caled o'r arolwg, fersiynau arferol a rhai 'hawdd i'w darllen', yn ogystal â phosteri a thaflenni gyda dolenni uniongyrchol i'r ymgynghoriad ar-lein, eu dosbarthu i -

- ganolfannau hamdden yr ynys
- llyfrgelloedd
- Oriel Môn
- Swyddfeydd y Cyngor

Fe'u dosbarthwyd hefyd i hybiau cymunedol lle cynhaliwyd sesiynau a fforymau ymgysylltu penodol wyneb yn wyneb. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys panel o swyddogion a oedd yn bresennol i gyfarfod y cyhoedd a thrafod y pwysau cysylltiedig â'r ffrydiau gwaith a oedd yn berthnasol i'r amcanion strategol.

Cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb yn:

- Neuadd y Dref, Llangefni
- Gwelfor, Caergybi
- Neuadd Llaingoch
- Yr Iorwerth Arms, Bryngwran
- Neuadd Llanfairpwll
- Canolfan Biwmares
- Caffi Mechell, Llanfechell

Defnyddiwyd y llyfrgell symudol i ddosbarthu copïau caled 'hawdd i'w darllen' o'r ymgynghoriad i'r rheiny nad oeddent yn gallu gadael eu cartrefi.

Targedwyd plant oedran ysgol (3-18) ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan trwy'r cynghorau ysgol.

**2.5** I gyd-fynd â'r uchod, a'r ymgynghoriad yn gyffredinol, gwnaed ymdrech ar y cyd i farchnata'r ymgynghoriad i sicrhau bod pobl yn ymwybodol ohono. Cyflawnodd y Cyngor hyn trwy:

- Bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol trwy Facebook, Twitter ac Instagram
- Negeseuon e-bost i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy gronfa ddata Môn Actif
- Negeseuon e-bost i bartneriaid y Cyngor
- Hyrwyddo trwy Môn FM
- Datganiadau rheolaidd i'r wasg ar amryw adegau trwy gydol y cyfnod ymgynghori

**2.6** Cafwyd yr ymatebion canlynol i'r gwaith ymgynghori hwn –

- Roedd 538 o aelodau staff wedi ymateb cyn yr ymgynghoriad
- O safbwynt ymatebion ar-lein – roedd 1620 wedi rhyngweithio â'r arolwg a 1098 wedi ymateb naill ai'n llawn neu'n rhannol
- Derbyniwyd 61% o'r ymatebion gan bobl o oedran gweithio
- Derbyniwyd 79 o ymatebion ar ffurf copïau caled
- O safbwynt pobl ifanc – roedd 27 o gynghorau ysgol wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn ddemocrataidd, gan gynrychioli tua 3,500 - 4000 o blant o ysgolion cynradd ac uwchradd
- Roedd 91% o'r ymatebwyr wedi ymateb trwy gyfrwng y Saesneg, tra bo 9% wedi ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg

**2.7** Tra bo hon yn gyfradd ymateb gadarnhaol, sy'n darparu lefel hyder o 95% i'r Cyngor o safbwynt y canfyddiadau (+/- 3%), mae'n ddiddorol nodi, o'r 1620 a oedd wedi rhyngweithio â'r ymgynghoriad ar-lein, nid oedd 442 wedi mynd ymlaen i gymryd rhan ynddi. ***Cynigir bod hon yn wers a ddysgwyd. Mae angen mynd i'r afael â hyn at y dyfodol, o ran sut i wneud yr arolwg ymgynghori ar-lein mor syml a rhyngweithiol ag y bo modd, o'r sgrin gyntaf un ymlaen, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu hatal rhag cymryd rhan mewn arolygon o'r fath.***

## 3.0 - Trosolwg o'r Ddemograffeg

**3.1** Roedd y ddemograffeg o ran oedran (tabl llawn isod) yn dangos ystod dda o safbwynt oedran y bobl sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

| Ystod Oedran | Nifer yr ymatebion (canran) |
|---|---|
| O dan 25 oed | 1% |
| 25 – 35 oed | 5.96% |
| 35 – 44 oed | 12.1% |
| 45 – 54 oed | 16.01% |
| 55 – 64 oed | 26.44% |
| 65 – 74 oed | 27.56% |
| 75 oed a throsodd | 11.17% |

**3.2** Yn unol â chanlyniadau'r Cyfrifiad diweddar, mae'n galonogol nodi mai nifer y bobl rhwng 25 – 64 (oedran gweithio) a oedd wedi ymateb i'r cyfrifiad oedd 57.5%, tra bo 61% wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

**3.3** Roedd 14% o'r ymatebwyr a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad wedi nodi eu bod yn anabl, tra bo 33% wedi nodi bod ganddynt gyfrifoldebau o ran gofalu. Mae'r ffigurau hyn yn galonogol i'r Cyngor Sir gan eu bod yn dangos ein bod wedi gallu cyrraedd amrywiaeth eang o dderbynyddion a derbyn ymatebion ganddynt.

**3.4** Tra bo hyn yn gadarnhaol, cydnabyddir hefyd bod angen cymryd camau mwy pendant a bwriadol i dargedu pobl ifanc 16-24 oed mewn ymarferion ymgynghori at y dyfodol, gan fod cyfradd ymateb y grŵp oedran hwn yn llai na 1%. ***Unwaith eto, mae hon yn wers a ddysgwyd ac yn rhywbeth y bydd angen mynd i'r afael ag ef mewn ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori at y dyfodol.***


**4.0 – Canfyddiadau Cyffredinol**

**4.1** Fe gafodd yr arolwg ei strwythuro mewn 3 rhan benodol –

- Ein strategaeth ariannol a sut i'w strwythuro wrth fynd ymlaen
- Ein hamcanion llesiant a ph'un a ydynt yn dal i fod yn gyfredol
- Ein hamcanion strategol a ph'un a fethwyd unrhyw beth

**4.2** O safbwynt ariannol, gofynnwyd i bobl pa strategaeth y byddent yn ei chefnogi er mwyn cydbwyso cyllideb y Cyngor. Roedd y canlyniadau ar gyfer hyn yn dangos bod pobl ar y cyfan, yn gyffredinol, yn cefnogi cyfuniad o strategaethau, h.y. rhywfaint o gynnydd o ran y dreth gyngor, gyda rhyw lefel o doriadau i rai gwasanaethau (gweler ffigur 1 isod).

Yr opsiwn mwyaf poblogaidd ond un y ceir tystiolaeth ohono trwy'r graff isod yw y byddai'n well gan ymatebwyr weld toriadau yn lefelau'r Dreth Gyngor.




**4.3** Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr eisiau **cynnal y gwariant refeniw presennol** o fewn pob maes ond tri. Y tri maes yr oedd yr ymatebwyr yn gyffredinol eisiau eu **lleihau** oedd:


- Goleuadau stryd
- Lleihau ôl troed carbon y Cyngor, a
- Twristiaeth (gan gynnwys agweddau morol)

**4.4** Er eu bod at ei gilydd eisiau cynnal y gwariant refeniw presennol, roedd y meysydd yr oedd yr ymatebwyr eisiau buddsoddi mwy ynddynt wedyn yn cynnwys:


- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
- Datblygu Economaidd
- Ysgolion, a
- Digartrefedd

**4.5** Ac roedd y meysydd lle bo angen lleihau gwariant refeniw yn cynnwys:

- Cynllunio, a
- Llyfrgelloedd, amgueddfeydd a'r archifau




**4.6** O safbwynt gwariant cyfalaf, cafwyd cyfuniad cyffredinol o ran yr agweddau y dylid gwario'r buddsoddiad arnynt, fel y gellir gweld o fewn y siart isod:



**4.7** Roedd y meysydd yr oedd yr ymatebwyr yn gyffredinol eisiau buddsoddi rhagor o wariant cyfalaf oddi mewn iddynt yn cynnwys:


- Adeiladu tai i bobl eu rhentu neu brynu am bris y farchnad, ynghyd ag
- Adeiladu tai cymdeithasol

**4.8** Roedd ymatebwyr eisiau lleihau gwariant cyfalaf ar:

- Fuddsoddi rhagor mewn caeau 4G,
- Adeiladu rhagor o unedau diwydiannol a rhai at ddibenion busnes,
- Buddsoddi mewn mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan, a
- Lleihau ôl troed carbon y Cyngor trwy fuddsoddiadau mewn ynni gwyrdd a cherbydau trydan

**4.9** At ei gilydd, roedd gweddill yr opsiynau eisiau cynnal buddsoddiadau cyfalaf presennol.


**4.10** Pan holwyd hwy ymhellach, calonogol oedd gweld bod ymatebwyr yn cytuno â'r blaenoriaethau strategol a nodwyd o fewn Cynllun y Cyngor, gyda 62% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â hwy.




**Gyda dros 8 o bob 10 o bobl a ymatebodd i arolwg yr ymgynghoriad naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r polisïau drafft a nodwyd, mae'n galonogol nodi yr ymddengys bod y cynllun ei hun ar y trywydd sy'n ddisgwyliedig ohonom fel Cyngor Sir.**

**5.0 - Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles – Darparu gwasanaeth i breswylwyr pan fo angen**

**5.1** Pa ofynnwyd p'un a oedd pobl yn cefnogi'r 9 ffrwd waith arfaethedig, roedd y canlyniadau'n awgrymu lefel dda o gymorth ar y cyfan. Gwelwyd hyn o ran mai'r opsiynau 'y mwyafrif' a 'pob un' oedd yn derbyn tua thri chwarter o'r ymatebion (a gyflëir yn ffigur isod).





**5.2** Tra bo hyn yn galonogol ac yn dangos bod y flaenoriaeth yn cyd-fynd â barnau'r ymatebwyr, fel rhan o gwestiynau yng nghyswllt strategaeth ariannol, gofynnwyd i bobl hefyd p'un a fyddent yn hoffi gweld newid o ran y modd y cyflenwyd gwasanaeth. Roedd tri opsiwn ar gyfer bob gwasanaeth, sef 'buddsoddi mwy', 'cynnal buddsoddiad presennol' a 'lleihau buddsoddiad'.

**5.3** O safbwynt gofal a lles, roedd tri gwasanaeth yn gysylltiedig â'r maes gofal yn gyffredinol, sef -

- 'Gwasanaethau cymdeithasol i oedolion'
- 'Gwasanaethau cymdeithasol i blant'
- 'Iechyd yr amgylchedd ac iechyd cyhoeddus'.


Y ddau gyntaf oedd y mwyaf poblogaidd yn nhermau buddsoddiad, a'r rhain hefyd oedd y ddau faes mwyaf poblogaidd o safbwynt nad oedd gostyngiad o ran gwasanaeth – derbyniwyd dros 30% o ymatebion ar gyfer 'buddsoddi mwy' ar gyfer y ddau, ynghyd â llai na 15% ar gyfer 'lleihau gwasanaeth'. O ran y gwasanaethau cymdeithasol i blant yn arbennig, dim ond 6.17% o bobl oedd yn dweud y byddent yn hoffi gweld gostyngiad, sef y ganran isaf o blith bob un o'r gwasanaethau.

**5.4** O ran 'iechyd yr amgylchedd ac iechyd cyhoeddus' ffrwd waith yn y tir canol oedd hon i raddau helaeth, lle'r oedd pobl yn awyddus iddi barhau fel yr oedd. Adlewyrchwyd hyn gyda 69.02% o'i hymatebion yn dod o dan 'cynnal gwasanaeth presennol' (gweler ffigwr isod).




**5.5** Yn ogystal, gofynnwyd i bobl hefyd p'un a fyddent yn hoffi gweld buddsoddiad cyfalaf yn cael ei fuddsoddi, gyda'r un opsiynau â'r cwestiwn uchod yn cael eu cynnig.

**5.6** O ran gofal, 'gwella ac uwchraddio adeiladau presennol gan gynnwys ysgolion, cartrefi gofal preswyl a chyfleusterau gofal dydd' oedd y trydydd nifer uchaf ar gyfer 'buddsoddi mwy' a chanddo'r nifer isaf o bobl yn dweud y byddent yn hoffi gweld y gwasanaeth yn cael ei leihau (a gyflëir yn y ffigwr isod).




**5.7** Yn ystod ei ymgynghoriad, roedd y Cyngor hefyd wedi ceisio cael dealltwriaeth o ran p'un a fethwyd unrhyw beth o dan y ffrydiau gwaith a flaenoriaethwyd ai peidio. Felly un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg, gyda chyfanswm o 30 o ymatebion, oedd bod pobl yn awyddus i weld gwelliant ym maes gofal.

Cafwyd hyn mewn sawl modd. Roedd pobl yn teimlo bod problem ar hyn o bryd o safbwynt dal gafael ar ofalwyr newydd, neu eu denu. Felly roedd sawl un o'r sylwadau'n nodi bod pobl yn awyddus i weld telerau cytundeb gwell ar gyfer y gofalwyr sy'n gweithio ar Ynys Môn.

Yn ogystal, roedd y sylwadau'n cryfhau ymhellach y pwynt o ran bod gofal cymdeithasol o bwys mawr i bobl yr ynys. Roedd amryw byd o'r sylwadau'n amlygu'r modd y byddent yn hoffi gweld gwelliannau mewn gofal i oedolion, pobl hŷn a phlant.

O safbwynt allanol, mae'r argymhellion o 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' a anfonwyd ymlaen at y Cyngor mewn ymateb i'r ymgynghoriad, yn amlygu gwaith y gallai cyrff cyhoeddus fod yn ei wneud yng nghyswllt Cymru Iachach.

Nodir y dylai camau dydd i ddydd gynnwys –


- Archwilio cyfleoedd i symud gwariant i weithgareddau sy’n cefnogi gwaith ataliol sylfaenol ac eilaidd
- Blaenoriaethu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar weithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd

**5.8** Tra bo’r argyfwng costau byw yn parhau, mae’n galonogol bod y Cyngor yn nodi’r meddylfryd ataliol o fewn ei ffrydiau gwaith presennol. Byddai canlyniadau’r amcan blaenoriaeth strategol gofal a lles yn awgrymu bod pobl yn gyffredinol yn cefnogi’r flaenoriaeth ei hun ynghyd â’r ffrydiau gwaith cysylltiedig a nodwyd ar ei chyfer.

Ar ben hynny, mae’r canfyddiadau’n cyfateb yn dda ag adroddiadau/asesiadau allanol, cenedlaethol a grëwyd yn y gorffennol.


**6.0 – Addysg – sicrhau bod y system yn addas ar gyfer cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol**

**6.1** Roedd y canlyniadau ar gyfer p'un a oedd pobl yn cytuno â'r 9 ffrwd waith arfaethedig yng nghyswllt addysg ai peidio yn weddol glir. Roedd tua thri chwarter o'r ymatebwyr yn ffafrio'r opsiynau 'Y Mwyafrif' neu 'Pob Un' pan ofynnwyd iddynt p'un a oeddynt yn cytuno â'r amcanion arfaethedig (gweler ffigwr isod).




**6.2** Ymddengys bod hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau'r cwestiynau yng nghyswllt cyllid. Pan ofynnwyd cwestiynau ynghylch agweddau ariannol darpariaeth gwasanaeth, roedd ysgolion yn faes poblogaidd o ran bod y pedwerydd nifer uchaf o'r ymatebwyr wedi nodi angen i 'fuddsoddi mwy', a chafwyd y nifer isaf ond un yn nodi y dylid 'lleihau'r gwasanaeth' gyda dim ond 6.59% yn nodi eu barn yn y modd hwn.

**6.3** Ni chafwyd yr un gefnogaeth ar gyfer 'llyfrgelloedd, amgueddfeydd a'r archifau'. Dim ond 9.94% o'r ymatebwyr oedd yn cefnogi cynnydd mewn cyllid, tra bo 39.49% yn ffafrio gweld lleihau'r gwasanaeth (gweler ffigwr isod).





**6.4** Mae'n deg felly i dybio bod y ddarpariaeth Addysg a'r amcanion cysylltiedig a nodwyd uchod yn cyd-fynd â disgwyliadau ymatebwyr.

**6.5** Pan ofynnwyd ynghylch buddsoddiad cyfalaf posibl at y dyfodol, nodwyd dau opsiwn yng nghyswllt y flaenoriaeth hon, sef –

- Adeiladu ysgolion newydd
- Gwella ac uwchraddio adeiladau presennol gan gynnwys ysgolion….

O ran ‘adeiladu ysgolion newydd’ roedd yn ymddangos nad oedd fawr o awydd buddsoddi, gyda hwn yn cael y sgôr isaf ond un ar gyfer ‘buddsoddi mwy’ (gellir cael cymhariaeth lawn o’r holl ffrydiau gwaith yng nghyswllt ‘buddsoddi mwy’ ar y dudalen nesaf).

Yn ogystal, roedd yr opsiwn ‘lleihau buddsoddiad’ yn eithaf uchel, gyda 38.70% o’r ymatebwyr yn nodi eu dewis yn y modd hwn. Roedd y canlyniad ar gyfer ‘gwella ac uwchraddio adeiladau presennol gan gynnwys ysgolion’ yn amlygu bod y ffrwd waith hon yn ddymunol, gyda’r trydydd sgôr uchaf ar gyfer ‘buddsoddi mwy’ a’r isaf ar gyfer ‘lleihau buddsoddiad’.




**6.6** O ganlyniadau’r cwestiynau penagored, roedd y thema bendant a ddaeth i’r amlwg, ac y gellir ei phriodoli i addysg, yn ymwneud â gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, cafwyd dwy agwedd yn y cyswllt hwn. Roedd rhai o’r ymatebion yn nodi bod pobl yn awyddus i sicrhau y caiff y genhedlaeth nesaf ei dysgu’n ddwyieithog. Fodd bynnag, gwnaed y mwyafrif o’r ymatebion ar sail y dybiaeth y dylai’r rheiny sydd eisiau dysgu Cymraeg gael y cyfle i wneud hynny trwy wersi rhad, neu am ddim hyd yn oed.

**6.7** Mae’r agwedd hon yn cyd-fynd ag ‘Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol’ hefyd, yn enwedig y bennod ‘Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae’r Gymraeg yn Ffynnu’, sy’n nodi y dylai cyrff cyhoeddus ‘Ddatblygu sgiliau, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein statws fel cenedl ddwyieithog’. Felly mae’r gefnogaeth ar gyfer sicrhau rhagor o gyfleoedd i gael gwersi Cymraeg yn mynd law yn llaw â’r disgwyliadau a nodir yn yr adroddiad hwn, ac yn cymeradwyo’r ail ffrwd waith ymhellach.


**6.8** Wrth gymharu’r canfyddiadau â rhai ‘Asesiad Llesiant Ynys Môn’, ymddengys bod rhai elfennau’n cyfateb â’i gilydd.

**6.9** Mae’r asesiad yn nodi bod nifer uchel o rai sy’n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 ym Môn yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant / ‘not in education, employment or training’) sy’n cyd-fynd yn dda gyda’r chweched ffrwd waith a nodwyd.

**6.10** Yn ogystal, o dan y pennawd diwylliant (o fewn yr asesiad) nodir bod diffyg gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc. Adlewyrchwyd hyn unwaith eto trwy gyfrwng y seithfed ffrwd waith fel maes i’w ddatblygu dros y 5 mlynedd i ddod.

**7.0 - Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref**


**7.1** Roedd pobl yn gefnogol unwaith eto o'r ffrydiau gwaith yng nghyswllt y flaenoriaeth o safbwynt tai. 'Y Mwyafrif' neu 'Pob Un' oedd yr atebion mwyaf poblogaidd, fodd bynnag, roedd y nifer ar gyfer 'Y Mwyafrif' yn is o gymharu â'r ddwy flaenoriaeth flaenorol, gyda mwy yn ateb 'Ychydig' neu 'Dim' (a gyflëir yn y ffigwr isod).




**7.2** O ran y cwestiwn yng nghyswllt rhagor o fuddsoddiad yn y gwasanaeth ai peidio, gallai dwy ffrwd waith fod yn gysylltiedig, sef –

- Atal digartrefedd
- Cynllunio

Byddai'n deg dweud bod gwrthgyferbyniad rhwng y ddau o ran y canlyniadau, sef bod 'atal digartrefedd' yn rhywbeth yr oedd pobl yn awyddus i'w gefnogi, ond nad oeddynt yn awyddus i gefnogi 'cynllunio' (a gyflëir yn y ffigwr isod ).





**7.3** O ran yr agweddau y dylai'r Cyngor wario ei fuddsoddiad cyfalaf arnynt, unwaith eto, cafwyd dwy thema sy'n gysylltiedig â thai, sef –

- Adeiladu tai i bobl eu rhentu neu brynu am bris y farchnad

- Adeiladu tai cymdeithasol

Dyma'r themâu mwyaf poblogaidd ar gyfer gwneud rhagor o fuddsoddiad ynddynt. Amlygir y gefnogaeth ar gyfer y rhain ymhellach gan y ffaith y cafwyd canran uwch o ymatebion yn nodi 'buddsoddi mwy' yn hytrach na 'cynnal y buddsoddiad presennol' - yr unig ddau o fewn y rhestr hon (a gyflëir yn y ffigwr isod).




**7.4** Adleisiwyd y canlyniad hwn o fewn cwestiwn penagored yr arolwg, lle'r oedd archwiliad pellach wedi amlygu dwy thema yng nghyswllt tai.

**7.5** Roedd yr enghraifft amlycaf yn ymwneud ag ail gartrefi / cartrefi gwyliau. Ymddengys fod thema o ran y farn y dylai'r Cyngor naill ai leihau nifer y bobl sy'n gallu bod yn berchen ail gartrefi / cartrefi gwyliau, neu gynyddu'r dreth gyngor ar eu cyfer yn sylweddol.

**7.6** Mae'n bwysig nodi nad oedd y cwestiwn yng nghyswllt ail gartrefi yn glir, gyda rhai'n awyddus i weld dim cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi, gan y byddai'n cael effaith niweidiol ar dwristiaeth.

**7.7** Thema arall a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â thai oedd dymuniad ymatebwyr i weld rhagor o dai fforddiadwy / tai cymdeithasol. Pwynt pwysig i'w nodi wrth archwilio'r thema hon oedd y ffaith mai'r ddwy thema y cyfeiriwyd atynt oedd yr ymatebion mwyaf dadleuol / poblogaidd a roddwyd gan bobl a ymatebodd yn ysgrifenedig trwy 'gopïau caled' o'r arolwg.

**7.8** Gan gysylltu hyn â'r canlyniadau o ran buddsoddi cyfalaf, awgrymir bod y rhain yn destunau y byddai'r cyhoedd yn dymuno i'r Cyngor eu blaenoriaethu o fewn y gwasanaeth tai.

**7.9** Er y gellir gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol, mae'n bwysig nodi hefyd bod Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu hadroddiad yn argymell y dylai cyrff cyhoeddus, wrth ddelio â materion tai –

- weithio gyda chymdeithasau tai i rannu arferion arloesol a'u rhoi ar waith
- ystyried sut y gallant sicrhau gwaith adeiladu sy'n creu dim gwastraff trwy eu harferion caffael
- ystyried tai fel un o benderfynyddion ehangach iechyd

**Argymhellir y dylid ystyried yr heriau hyn fel rhan o'r broses o weithio i ddiwallu anghenion yr ynys o safbwynt tai, ar hyn o bryd ac at y dyfodol.**


**7.10** O fewn 'Asesiad Llesiant Ynys Môn', nodir bod prisiau tai a fforddiadwyedd yn y cyswllt hwn yn bryder mawr i gymunedau lleol. Felly, o ystyried y ffrydiau gwaith a nodir, mae'n galonogol gweld bod y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon neu ei lliniaru.

**7.11** Felly, o ystyried y sefyllfa gyffredinol, unwaith eto, dangoswyd lefel gref o gefnogaeth ar gyfer yr amcan strategol yng nghyswllt tai. Byddai'n deg awgrymu mai gallu pobl leol i gael tŷ yn eu hardal leol yw un o'r prif themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn.

**Argymhellir felly y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i'r modd y dylid gwireddu'r thema hon wrth roi Cynllun newydd y Cyngor ar waith.**

**8.0 – Yr Economi – sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys**

**8.1** Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r mwyafrif o'r 13 ffrwd gwaith arfaethedig yng nghyswllt Adfywio, yr Ynys Ynni a'r Economi Ymwelwyr, gyda 49% yn cytuno gyda'r mwyafrif o'r blaenoriaethau, a 22% yn cytuno â phob un ohonynt.




**8.2** Fodd bynnagroedd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr dim ond yn cytuno ag ychydig neu ddim un o'r blaenoriaethau a nodwyd.

**8.3** O safbwynt ariannol, gellir priodoli pedair ffrwd waith i'r Economi. Y rhain oedd –

- Canolfannau hamdden
- Twristiaeth gan gynnwys twristiaeth forol
- Datblygu economaidd
- Safonau masnach

O'r 4 ffrwd waith, y mwyaf poblogaidd ohonynt oedd 'datblygu economaidd', gyda 29.95% o'r ymatebwyr yn nodi y byddent yn hoffi gweld cynnydd mewn buddsoddiad. Ar y llaw arall, byddai'n deg awgrymu mai 'twristiaeth gan gynnwys twristiaeth forol' oedd yr un lleiaf poblogaidd, gyda 42.53% yn credu y dylid lleihau'r gwasanaeth.

**8.4** Mae dadansoddiad o'r sylwadau a ddarparwyd gan yr ymatebwyr yn nodi bod un prif thema a oedd yn gysylltiedig â'r amcan hwn:

- Swyddi sy'n talu'n well – roedd hyn yn cynnwys denu diwydiant mawr i'r ynys, cynorthwyo i greu swyddi trwy gyfrwng datblygiad Wylfa, a sylweddoli mai diffyg swyddi sy'n talu'n dda yw un o'r prif resymau y mae pobl ifanc yn gadael yr ynys.

**8.5** Yn ogystal â'r thema uchod, mae 'Asesiad Llesiant Ynys Môn' yn cytuno bod diffyg swyddi ag iddynt werth uchel yn cael effaith niweidiol ar lesiant yr ardal. Yn ychwanegol at effaith hyn ar yr economi, mae'r gallu i gadw pobl ifanc ar yr ynys yn cael ei effeithio, sydd wedyn yn effeithio sefyllfa'r Gymraeg. Fel y cyfryw, nodwyd y flaenoriaeth isod ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus -

- Cynllunio ar gyfer gweithlu'r dyfodol sy'n diwallu anghenion y gymuned a'r economi leol

**8.6** Tra bo'r sylwadau uchod yn bwyntiau dilys, credir yr aethpwyd i'r afael â'r mwyafrif o'r pwyntiau hynny o fewn yr is-flaenoriaethau a ganlyn:

- Adfywio a Datblygu Economaidd, a'r
- Rhaglen Ynys Ynni

Er y gellid amlygu bod Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn nodi cyfleoedd y mae angen eu harchwilio ymhellach efallai o safbwynt yr ynys.

**8.7** Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, yn nodi sawl argymhelliad yng nghyswllt amcan yr economi. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Symud y tu hwnt i nodi amcanion llesiant a chamau sy'n ymateb i gyfleoedd economaidd a diwydiannau presennol, a mynd ati yn hytrach i sganio'r gorwel hirdymor o safbwynt mowldio ein heconomi at y dyfodol – ac nid dim ond sicrhau bod gan fusnesau presennol y gweithlu sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd ac yn y tymor byr;
- Mabwysiadu targedau atgyweirio ac ailddefnyddio i gymell economi gylchol o safbwynt ailgylchu;
- Adeiladu datblygiad busnes mewn trefi a dinasoedd yng nghyswllt yr hyn a gynigir o safbwynt diwylliannol;
- Sicrhau bod ganddynt fecanweithiau ar waith i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu prosesau penderfynu;
- Creu cysylltiadau ystyrlon â busnesau lleol o safbwynt datblygu cynlluniau economaidd ar gyfer ardaloedd lleol;
- Cefnogi busnesau a darparwyr lleol lle'n bosibl.

**8.8** Fel y nodwyd yn y canfyddiadau cyffredinol (adran 4 o'r adroddiad hwn), roedd y dadansoddiad o'r modd y dylai'r Cyngor wario'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn awgrymu y dylid gwario llai o arian ar hyrwyddo twristiaeth, yn ogystal ag adeiladu llai o unedau diwydiannol a busnes.

**8.9** Yng ngolau'r canfyddiadau uchod, **argymhellir y dylid ailystyried y blaenoriaethau a restrir isod i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gyfredol:**

i. Archwilio cyfleoedd i adeiladu unedau busnes newydd ar draws yr ynys i alluogi busnesau newydd a rhai presennol i dyfu

a chynigir efallai bod angen archwilio'r meysydd a ganlyn ymhellach er mwyn ennyn rhagor o ymrwymiad a diddordeb yng nghyfeiriad yr economi leol at y dyfodol, gan gofio'r agenda ddatgarboneiddio -


- Cynnwys plant pobl ifanc a busnesau lleol yn y gwaith o gynllunio cyfleoedd ar gyfer yr ynys o safbwynt datblygu economaidd ar hyn o bryd ac at y dyfodol
- Creu cysylltiadau ystyrlon â busnesau lleol o safbwynt datblygu cynlluniau economaidd ar gyfer ardaloedd lleol
- Mabwysiadu targedau atgyweirio ac ailddefnyddio i gymell economi gylchol o safbwynt ailgylchu

**8.10** Felly mae'r darlun cyffredinol yng nghyswllt y flaenoriaeth strategol hon yn un llawn gwrthdaro. Er bod lefel y gefnogaeth ar gyfer y ffrydiau gwaith arfaethedig yn gryf, roedd y cwestiynau ynglyn â chyllid ymhlith y rhai a gefnogwyd leiaf o blith y canlyniadau i gyd.

Er efallai y gellir cysylltu'r thema o ran swyddi gwell â 'datblygu economaidd' o safbwynt y cwestiwn ynghylch newid y modd y cyflenwir gwasanaethau, mae hyrwyddo twristiaeth ymhlith yr atebion penagored yn mynd yn groes i'r cwestiwn yng nghyswllt buddsoddi cyfalaf.

**9.0 – Yr Hinsawdd – blaenoriaethu'r agenda ddatgarboneiddio ar draws y Cyngor**

**9.1** Ar y cyfan, byddai'n deg awgrymu mai'r farn gyffredin oedd y dylid cefnogi ffrydiau gwaith yng nghyswllt yr hinsawdd. Ond nid i'r un graddau â'r pedwar amcan strategol blaenorol. Roedd nifer y rheiny a oedd wedi ateb 'dim' tua thair gwaith yn uwch na hynny ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Addysg.




**9.2** Yn nhermau'r cwestiwn am y dreth gyngor a lle byddai pobl yn hoffi gweld newid mewn gwasanaethau, gellir priodoli pum ffrwd waith i'r hinsawdd, sef:


- 'Trafnidiaeth gyhoeddus',
- 'Goleuadau stryd',
- 'Casglu sbwriel',
- 'Glanhau strydoedd' a
- 'Lleihau ôl troed carbon y Cyngor'.

Roedd y canlyniadau'n weddol gymysg.

Roedd pobl yn gyffredinol yn cefnogi cynnydd yn y buddsoddiad ar gyfer 'trafnidiaeth gyhoeddus.

Derbyniodd 'casglu sbwriel' y nifer uchaf o ymatebion gan bobl a oedd eisiau gweld y gwasanaeth yn cael ei gynnal fel yr oedd ar hyn o bryd – cyfanswm o 82.45%.


Fodd bynnag, 'goleuadau stryd' oedd y ffrwd waith fwyaf amhoblogaidd o bob un o'r opsiynau posibl o fewn y rhestr, gyda 56.69% o bobl yn ei dewis o safbwynt lleihau'r buddsoddiad ynddi (gweler ffigwr isod am ddadansoddiad).




**9.3** O ran buddsoddi cyfalaf, roedd tair ffrwd waith yn gysylltiedig â'r hinsawdd, sef –

- 'Lleihau ôl troed carbon y Cyngor trwy fuddsoddi mewn ynni gwyrdd a cheir trydan',
- 'Buddsoddi mewn mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan' a
- 'Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd'.

Roedd y canlyniadau ar gyfer y ddwy y cyfeiriwyd atynt gyntaf bron yn union yr un fath, gyda dros 45% o'r ymatebion ar gyfer y ddwy yn dod o dan y thema 'lleihau'r buddsoddiad'. Roedd tua 31% o'r ymatebion yn mynegi y teimlwyd y dylid cynnal y buddsoddiad ar yr un lefel o safbwynt y ddwy, ond dim ond ychydig bach dros 20% o'r ymatebwyr yng nghyswllt y ddwy ffrwd waith oedd yn teimlo y dylai'r Cyngor gynyddu'r buddsoddiad. At ei gilydd, dangoswyd ychydig iawn o gefnogaeth ar gyfer y ddwy ohonynt. Cafwyd mwy o gefnogaeth ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd na'r ddwy flaenoriaeth y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Er bod nifer yr ymatebwyr a oedd eisiau gweld cynnydd mewn buddsoddiad ychydig yn uwch nag 20% unwaith eto, roedd nifer y bobl a oedd eisiau gweld y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn llawer uwch - sef 60.74% (gweler ffigwr isod).



**9.4** Roedd y sylwadau'n amlygu dwy brif thema. Y thema gyntaf oedd bod pobl eisiau gweld y Cyngor yn mynd i'r afael â'r agenda o ran y newid yn yr hinsawdd. O fewn hyn, roedd llawer yn nodi y byddent yn awyddus i weld cynnydd o safbwynt mannau gwyrdd a chyflwyno rhagor o ynni gwyrdd.

Y thema fwyaf poblogaidd ond un yng nghyswllt yr hinsawdd oedd atal 'dinistrio' Coetir Penrhos. Roedd y gwrthwynebiad i hyn yn dadlau ei bod yn mynd yn groes i'r ail flaenoriaeth a nodwyd ar gyfer yr hinsawdd, sef 'Cyflawni amrywiaeth o fentrau i hybu bioamrywiaeth sy'n cynnwys cynlluniau i blannu coed'.

**9.5** Yn ogystal â'r uchod, mae 'Asesiad Llesiant Ynys Môn' yn nodi bod 'amgylchedd naturiol amrywiol Ynys Môn yn adnodd pwysig', wrth nodi hefyd bod 'diogelu natur a bioamrywiaeth yn bwysig o safbwynt datgarboneiddio'. Mae'r ddau nod yn cryfhau'r ddwy thema y cyfeirir atynt uchod, ac yn cyd-fynd yn dda â'r ail a'r bumed ffrwd waith o fewn yr amcan strategol hwn.

**9.6** Yn ogystal, mae 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' yn argymell y dylai awdurdodau ystyried 'adfer coedwigoedd a mawndiroedd ac annog defnydd tir mwy cynaliadwy i amddiffyn natur'. Mae'n pwysleisio hefyd yr angen i alinio cynlluniau datblygu lleol gydag amcanion llesiant, ac y dylid gwneud ymdrech i gymryd pob cam i integreiddio gwaith rhwng asiantaethau sy'n cael effaith ar greu lleoedd a'n hamgylchedd adeiledig.

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi meysydd y gallai cyrff cyhoeddus eu hystyried ymhellach er mwyn gwneud y gorau o'r agenda ddatgarboneiddio trwy –


- leihau'r angen am adnoddau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon,
- lleihau'r angen am ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithlon,
- blaenoriaethu cynlluniau teithio cynaliadwy a chynlluniau teithio llesol mewn ardaloedd lleol,
- annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol.

**Argymhellir felly y dylid rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r mentrau hyn yng ngwaith y Cyngor dros y cyfnod i ddod, ac y gellir ychwanegu'r ffrydiau gwaith at y cynlluniau datgarboneiddio sydd i ddod.**

**9.7** Yn gyffredinol, mae pobl yn cefnogi'r mesurau a nodwyd. Er y byddai'n deg awgrymu nad oes fawr o awydd am geir trydan / mannau gwefru ar gyfer ceir trydan, mae pobl yn cefnogi'r mesurau eraill a gynigir. Yn y bôn, y blaenoriaethau sy'n berthnasol i'r boblogaeth gyfan sy'n cael cefnogaeth y bobl (trafnidiaeth gyhoeddus, casglu sbwriel), tra nad yw'r rheiny sydd efallai'n llai tebygol o effeithio'r mwyafrif o bobl yn cael eu cefnogi i'r un graddau (ceir trydan).

**10. Y Gymraeg –**

10.1 Y Gymraeg oedd yr amcan strategol a dderbyniodd y lefel isaf o gefnogaeth o blith y chwe amcan a nodwyd. Roedd yr ymateb ‘dim’ yn arbennig wedi sgorio tua dwywaith cymaint â hynny ar gyfer yr hinsawdd - sef yr uchaf ond un ar gyfer yr ymateb hwn. Fodd bynnag, roedd y darlun cyffredinol yn un lle cafwyd ychydig o gefnogaeth ar gyfer y flaenoriaeth, gyda’r ymatebion ‘pob un’ a’r ‘mwyafrif’ yn dal i sgorio’n uwch na ‘rhywfaint’ a ‘dim’ (gweler ffigwr isod).




10.2 O safbwynt newid dulliau darparu, nid oedd unrhyw ffrydiau gwaith gwirioneddol yn gysylltiedig â’r Gymraeg. O ran buddsoddi cyfalaf, nid oedd unrhyw ffrydiau gwaith yn gysylltiedig â’r Gymraeg.

Roedd gan y cwestiynau penagored nifer o themâu a oedd yn gysylltiedig â’r Gymraeg.

10.3 Yr un gryfaf oedd cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith. Roedd pobl yn awyddus i weld nad oedd yr un iaith yn cael ei ffafrio llai na’r llall, gyda sawl un yn nodi eu bod yn teimlo y dylai’r Cyngor ganiatáu i ragor o weithwyr sy’n siarad Saesneg yn unig weithio o fewn y Cyngor ei hun. Yn ogystal, nodwyd y dylid sicrhau bod llai o senoffobia ar y ddwy ochr.

10.4 Gyda chefnogaeth i hybu / blaenoriaethu’r Gymraeg fel y thema fwyaf ond un yng nghyswllt y flaenoriaeth strategol hon, gellid dweud bod y thema ei hun yn creu ymateb da, sy’n llawn gwrthdaro.

10.5 Mynegwyd hyn mewn sawl modd, gyda rhai’n teimlo y dylid gwneud mwy i hybu’r diwylliant Cymreig, yn ogystal â’r iaith, trwy gynnal rhagor o ddigwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ymatebwyr eraill yn awyddus i weld y Gymraeg fel prif iaith yr ynys, trwy gefnogi busnesau lleol i fabwysiadu’r iaith. Nodwyd hefyd bod pobl yn awyddus i weld y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo mwy ym maes twristiaeth hefyd.

10.6 Teimlai ymatebwyr eraill y dylid rhoi llai o flaenoriaeth i'r iaith, a gwario llai o arian arni. Roedd pobl yn awyddus i weld y Cyngor yn rhoi llai o gefnogaeth i'r Gymraeg, ac yn lleihau'r cyllid ar ei chyfer.

10.7 Tra bo'r pwyntiau uchod yn dangos y gwahanol deimladau tuag at yr iaith, mae'n bwysig nodi bod rhai ymatebwyr yn awyddus i weld y sefyllfa'n aros yr un fath ag y mae ar gyfer y Gymraeg. Yn y bôn, nodwyd y dylid parhau i weithredu fel y mae'r Cyngor ar hyn o bryd yng nghyswllt yr amcan strategol hwn.

10.8 Roedd cael rhagor o wersi Cymraeg, a gwersi Cymraeg rhesymol o ran cost, os nad yn rhad ac am ddim, yn thema a gefnogwyd gan 48 o bobl. Roedd pobl yn awyddus i gael rhagor o wersi Cymraeg yn gyffredinol i bobl fynd iddynt yn eu cymunedau. Roedd rhai'n awyddus hefyd i'r iaith gael ei dysgu mewn modd hwyliog, ac ymatebwyr eraill yn dymuno manteisio ar ddysgu'r iaith er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i gael swydd ym Môn.


10.9 Ar y cyfan mae 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' yn cyd-fynd â'r pwynt yng nghyswllt hybu'r Gymraeg sy'n deillio o'r sylwadau ychwanegol. Gellir gweld enghraifft o hyn trwy argymhelliad yr adroddiad y dylem ddefnyddio'r 'Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid economaidd ac amgylcheddol'. Felly mae cefnogi'r syniad o hyrwyddo'r Gymraeg ochr yn ochr â thwristiaeth yn rhywbeth sy'n cyd-fynd yn dda â'r adroddiad hwn.

10.10 Yn ogystal, mae'r blaenoriaethau a nodwyd o fewn yr amcanion yn cyd-fynd yn dda â'r disgwyliadau a nodwyd yn 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol'. Fel cam gweithredu ar gyfer cyrff cyhoeddus, mae'r adroddiad yn nodi y dylid prif ffrydio'r Gymraeg, sydd wedyn yn cyd-fynd â thrydedd flaenoriaeth yr amcan strategol hwn.

10.11 Mae'r casgliad cyffredinol o safbwynt y Gymraeg wedi'i hollti. P'un a ydyw yn ymwneud a'r graddau y mae pobl yn cefnogi'r blaenoriaethau arfaethedig, neu'r cwestiynau penagored, roedd dadleuon ar y naill ochr a'r llall. Er ei fod yn glir mai'r flaenoriaeth hon ar y cyfan sy'n cael y lefel isaf o gefnogaeth o blith y chwe amcan strategol, mae'n cyd-fynd â'r cyfeiriad a nodwyd gan Lywodraeth Cymru o ran ei nod i wireddu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 11. Canfyddiadau Amrywiol / Eraill

**11.1** O safbwynt buddsoddi cyfalaf, roedd un ffrwd waith nad oedd yn cyd-fynd ag unrhyw rai o'r amcanion strategol, sef 'gwella systemau TG y Cyngor i alluogi pobl i ddefnyddio rhagor o wasanaethau ar-lein'. Y consensws cyffredinol yw na chafodd y ffrwd waith hon ei chefnogi, gyda'r opsiwn 'lleihau'r buddsoddiad' yn derbyn mwy na dwbl yr ymatebion a gafodd yr opsiwn 'buddsoddi mwy' – 40.49% o gymharu â 14.88% (gweler ffigwr isod).




**11.2** Fodd bynnag, gellid dadlau bod y canlyniad hwn yn groes i ddisgwyliad adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n amlinellu'r angen i ddefnyddio adnoddau mewn modd mor effeithlon â phosibl (gweler pwynt 9.6).

**11.3** Yn ogystal, dim ond un prif thema sy'n deillio o'r sylwadau ychwanegol na ellir ei phriodol i unrhyw rai o'r amcanion strategol, a oedd yn bwynt perthnasol a wnaed gan sawl un ar y pryd. Roedd hyn yng nghyswllt y pontydd a dymuniad ymatebwyr i weld naill ai mwy o wydnwch o ran y pontydd, adeiladu trydedd groesfan neu newidiadau i Bont Britannia yn ei ffurf bresennol.

## 12. Casgliad –

12.1.1 I grynhoi, gyda dros 2,500 o ymatebion ar draws y flwyddyn, credir y bu hwn yn ddull ymgysylltu ac ymgynghori cynhwysfawr gyda phreswylwyr, cynghorwyr, cymunedau, busnesau a phartneriaid, sydd wedi darparu barnau gan lawer o unigolion a sefydliadau.

12.1.2 Mae'r canfyddiadau uchod yn dangos bod dros 8 o bob 10 ymatebwr yn cytuno gyda'r blaenoriaethau strategol drafft. Ceir amryw farnau yng nghyswllt y mwyafrif o'r ffrydiau gwaith drafft. Bydd hyn yn helpu i fapio'r hyn y bydd y Cyngor yn ei flaenoriaethu dros y pum mlynedd nesaf, ac yn darparu sail dda ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran yr hyn y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arno ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

12.1.3 O safbwynt rhoi'r flaenoriaeth strategol yng nghyswllt yr Economi ar waith a ddylai'r Cyngor roi ystyriaeth bellach i bu'n a ydyw'n -

- Cynnwys plant, pobl ifanc a busnesau lleol wrth gynllunio cyfleoedd ar gyfer yr ynys ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ym maes datblygu economaidd
- Ymgymryd â chysylltiadau ystyrlon â busnesau lleol wrth ddatblygu cynlluniau economaidd ar gyfer yr ardal leol
- Mabwysiadu targed atgyweirio ac ailddefnyddio i gymell economi gylchol o safbwynt ailgylchu

12.1.4 O safbwynt rhoi ei flaenoriaeth strategol a'i ffrydiau cysylltiedig o safbwynt Tai ar waith, a ddylai'r Cyngor roi rhagor o ystyriaeth i sut y mae'n -

- gweithio gyda chymdeithasau tai i rannu a gweithredu arferion arloesol
- ystyried sut y gallant sicrhau gwaith adeiladu sy'n cynhyrchu dim gwastraff trwy eu harferion caffael
- ystyried tai fel un o benderfynyddion ehangach iechyd

12.1.5 O safbwynt gwireddu ei flaenoriaeth o safbwynt yr Hinsawdd, argymhellir y dylid rhoi ystyriaeth berthnasol i'r mentrau a ganlyn, ac y dylai'r ffrydiau gwaith naill ai gael eu hychwanegu neu eu cynnwys o fewn cynlluniau datgarboneiddio i ddod –

- lleihau'r angen am adnoddau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon,
- lleihau'r angen am ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithlon,
- blaenoriaethu cynlluniau teithio lleol a chynlluniau teithio llesol lleol
- annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol

**FFORDDIADWYEDD - CYNLLUN Y CYNGOR 2023-2028**

Mae'r papur hwn wedi ei lunio i roi bras-olwg o fforddiadwyedd cynllun gweithredu Cynllun y Cyngor gan gydnabod ffynonhellau ariannol yr amcanion strategol a'r risgiau cysylltiedig.

**CRYNODEB**

- Mae Cynllun Y Cyngor yn adnabod 6 Amcan bydd y Cyngor am ei gyflawni o fewn y Pum mlynedd nesaf. Mae **57** o weithredoedd lefel uchel wedi ei adnabod i alluogi'r Cyngor i gyflawni'r amcanion hyn.
- Dim ond **9/57 (16%)** o'r gweithredoedd sydd yn cael ei cyflawni gan ddefnyddio cyllid craidd y Cyngor yn unig.
- Mae Cyllideb Craidd y Cyngor hefyd yn cyfrannu tuag at **32/57 (56%)** o weithgareddau eraill sydd wedi ei adnabod yn yr Cynllun, ond mae ffynonellau cyllid arall hefyd yn sybsydeiddio y gweithgareddau hyn. O'r 32 o'r gweithgareddau hyn, mae cyllid grant yn cyfrannu tuag at 29 (91%) ohonynt.
- Mae **10/57 (17%)** o'r gweithredoedd yn cael ei cyllido trwy gyllid grant yn unig.
- Tra bod y **6/57 (11%)** sydd yn weddill, yn cael ei gyllido drwy gyfuniad o Grantiau, a ffynonellau cyllid arall, er enghraifft y Cyfrif Refeniw Tai, a ffynonellau eraill o gyllid allanol.

*Mae cyllid grant felly yn cyfrannu tuag at 45/57 (79%) o'r gweithredoedd.*

Gwelwch isod y dadansoddiad ar lefel yr Amcanion unigol:

**AMCAN 1 – GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLESIANT – DARPARU GWASANAETH I DRIGOLION PAN BOD ANGEN**

| **Gweithredoedd sydd yn cael ei cyllido trwy:** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyllid craidd y Cyngor yn unig | 1 | 8% |
| Cyllid Craidd a ffynhonnell arall | 9* | 69% |
| Cyllid grant yn unig | 3 | 23% |
| **Cyfanswm** | **13** | **100%** |

*O'r 9 o weithredoedd sydd yn cael ei cyllido drwy gyllid craidd a ffynhonnell arall, mae grantiau yn cyfrannu tuag at 9/9 (100%) or gweithgareddau hyn.

Mae grantiau felly yn cyfrannu tuag at 12/13 (92%) o'r gweithredoedd hyn.

**AMCAN 2 – ADDYSG – SICRHAU SYSTEM ADDAS AR GYFER Y GENHEDLAETH HON A CENEDLAETHAU'R DYFODOL.**

| **Gweithredoedd sydd yn cael ei cyllido trwy:** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyllid craidd y Cyngor yn unig | 2 | 22% |
| Cyllid Craidd a ffynhonnell arall | 7* | 78% |
| **Cyfanswm** | **9** | **100%** |

*O'r 7 o weithredoedd sydd yn cael ei cyllido drwy gyllid craidd a ffynhonnell arall, mae grantiau yn cyfrannu tuag at 7/7 (100%) or gweithgareddau hyn.

Mae grantiau felly yn cyfrannu tuag at 7/9 (78%) o'r gweithredoedd hyn.

**AMCAN 3 – TAI – SICRHAU BOD GAN PAWB YR HAWL I ALW RHYWLE ADREF.**

| **Gweithredoedd sydd yn cael ei cyllido trwy:** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyllid craidd y Cyngor yn unig | 2 | 20% |
| Cyllid Craidd a ffynhonnell arall | 3* | 30% |
| Cyllid grant yn unig | 1 | 10% |
| Cyllid Grant a ffynhonnell cyllid arall er enghraifft Cronfa Refeniw Tai / ffynhonnell cyllid allanol arall | 4 | 40% |
| **Cyfanswm** | **10** | **100%** |

*O'r 3 o weithredoedd sydd yn cael ei cyllido drwy gyllid craidd a ffynhonnell arall, mae grantiau yn cyfrannu tuag at 3/3 (100%) or gweithgareddau hyn.

Mae grantiau felly yn cyfrannu tuag at 8/10 (80%) o'r gweithredoedd hyn.

**AMCAN 4 – ECONOMI – SICRHAU CYFLEOEDD I DDTBLYGU ECONOMI'R YNYS.**

| **Gweithredoedd sydd yn cael ei cyllido trwy:** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cyllid craidd y Cyngor yn unig | 1 | 8% |
| Cyllid Craidd a ffynhonnell arall | 6* | 46% |
| Cyllid grant yn unig | 5 | 38% |
| Cyllid Grant a ffynhonnell cyllid arall er enghraifft Cronfa Refeniw Tai / ffynhonnell cyllid allanol arall | 1 | 8% |
| **Cyfanswm** | **13** | **100%** |

*O'r 6 o weithredoedd sydd yn cael ei cyllido drwy gyllid craidd a ffynhonnell arall, mae grantiau yn cyfrannu tuag at 4/6 (67%) or gweithgareddau hyn.

Mae grantiau felly yn cyfrannu tuag at 10/13 (77%) o'r gweithredoedd hyn.

**AMCAN 5 – HINSAWDD – BLAENORIAETHU'R AGENDA DATGARBONEIDDIO AR DRAWS Y CYNGOR**

| Gweithredoedd sydd yn cael ei cyllido trwy: | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyllid craidd y Cyngor yn unig | 1 | 14% |
| Cyllid Craidd a ffynhonnell arall | 5* | 72% |
| Cyllid Grant a ffynhonnell cyllid arall er enghraifft Cronfa Refeniw Tai / ffynhonnell cyllid allanol arall | 1 | 14% |
| **Cyfanswm** | **7** | **100%** |

*O'r 5 o weithredoedd sydd yn cael ei cyllido drwy gyllid craidd a ffynhonnell arall, mae grantiau yn cyfrannu tuag at 5/5 (100%) or gweithgareddau hyn.

Mae grantiau felly yn cyfrannu tuag at 6/7 (86%) o'r gweithredoedd hyn.

**AMCAN 6 – CYMRAEG**

| Gweithredoedd sydd yn cael ei cyllido trwy: | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyllid craidd y Cyngor yn unig | 2 | 40% |
| Cyllid Craidd a ffynhonnell arall | 2* | 40% |
| Cyllid grant yn unig | 1 | 20% |
| **Cyfanswm** | **5** | **100%** |

*O'r 2 weithred sydd yn cael ei cyllido drwy gyllid craidd a ffynhonnell arall, mae grantiau yn cyfrannu tuag at 2/2 (100%) or gweithgareddau hyn.

Mae grantiau felly yn cyfrannu tuag at 3/5 (60%) o'r gweithredoedd hyn.

**DIWEDDGLO**

Tra bod cyllideb craidd y Cyngor yn cyfrannu tuag at mwyafrif (72%) o'r gweithredoedd sydd yn cael ei adnabod o fewn Cynllun Y Cyngor, mae cyllid grant hefyd yn cyfrannu tuag at nifer sylweddol ohonynt (79%). Mae Cyllid grant yn arferol yn gyllid sydd yn cael ei ddarparu am gyfnod penodol. O ganlyniad, nid oes sicrwydd bod y cyllid am barhau tu hwnt i'r cyfnod penodol hwnnw. Mae hynny yn amlygu risg i'r ffynonellau sydd yn cyllido rhai o'r gweithredoedd (yn llawn neu'n rhannol) ddod i ben, ac o ganlyniad gall hyn gael effaith ar allu'r cyngor i gyflawni'r amcanion sydd wedi ei adnabod.

Mae'r canran o weithredoedd sydd yn cael ei cyllido (yn rhannol neu'n llawn) drwy grant yn amrywio rhwng 60% i 92% fesul amcan.

Yr Amcanion sydd gyda fwyaf o weithredoedd yn cael ei gyllido trwy grant ydi:

Amcan 1 – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant – Mae cyllid grant yn cyfrannu tuag at 92% o'r gweithredoedd, gyda 23% o'r gweithredoedd yn cael ei cyllido trwy gyllid grant yn unig.

Amcan 4 – Economi – Mae Cyllid grant yn cyfrannu tuag at 77% o'r gweithredoedd, gyda 38% o'r gweithredoedd yn cael ei cyllido trwy gyllid grant yn unig.

Amcan 5 – Hinsawdd - Mae Cyllid grant yn cyfrannu tuag at 86% o'r gweithredoedd.

**ATODIAD 1**

Dyma **enghreifftiau** o'r math o grantiau sydd wedi ei adnabod, fydd yn cefnogi gwireddu rhai o'r amcanion (nid yw'n rhestr gyflawn):

- Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Ysgolion Bro
- Tlodi Bwyd
- Mannau Cynnes
- Tanwydd Gaeaf
- Costau Byw
- Cinio Ysgol am Ddim
- Cymunedau Cyfeillgar i Oed
- Cronfa Tai gyda Gofal
- Cronfa Unigrwydd ac Arwahanrwydd
- Cronfa Seibiant
- Digartrefedd Ieuenctid
- Grant Diogelwch Cymunedol
- Strydoedd Diogel
- TRAC
- Mon Ymlaen CRF
- Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Grant Addysg Awdurdod Lleol
- Cyfalaf Cynnal a Chadw – Ysgolion
- Ôl 16
- Trochi
- Tai Cymdeithasol
- Tai i Gartrefi
- Swyddfa Gartref
- Rheoli Gwastraff Cynaliadwy
- Economi Gylchol
- Deddf Rheoli Dŵr
- Grantiau Trafnidiaeth
- Lwfans Atgyweiriadau Mawr
- Grant Gwella Addysg
- Arfor 2

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 Ionawr 2023** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Dewisol Cymorth Costau Byw – Cam 2** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Robin W Williams – Deilydd Portffolio – Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer**<br>**Llinos Medi – Arweinydd y Cyngor** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Marc Jones – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Llinos Wyn Williams – Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol**<br>**01248 752190**<br>**lwwhp@ynysmon.llyw.cymru**<br>**Llinos Mair Roberts – Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau**<br>**01248 752651**<br>**Llinosroberts5@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i bob Aelod** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

**1.** Ehangu'r cyllid a gytunwyd yn flaenorol o dan gam 1 i ddarparu cymorth gyda chostau tai ar gyfer pobl sydd yn symud o lety dros dro drwy ddarparu grantiau i aelwydydd gydag anghenion tai (prynu a gosod lloriau a charpedi, costau dodrefnu, bwyd a dyledion rhent) lle nad ydynt yn deilwng am gymorth o dan y cynllun Taliad Dewisol at Gostau Tai – gweler paragraff 2.3.4.

**2.** Cymeradwyo'r prosiectau cam 2 ychwanegol a nodir yn Atodiad 1, paragraff 4.

**3.** Awdurdodi'r Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol i ddod o hyd i partner lleol / sefydliad(au) addas a all barhau i ddarparu'r cymorth gyda chostau byw drwy'r cynlluniau a sefydlwyd gan y Cyngor tu hwnt i 31 Mawrth 2023, ac awdurdodi trosglwyddo unrhyw arian sydd dros ben i'r sefydliad a nodir, os na ddefnyddir y cyllid i gyd erbyn diwedd Mawrth 2023.

Mae gwybodaeth gefndirol bellach a'r rhesymau dros yr argymhellion wedi'u nodi yn Atodiad 1.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

O dan y prif gynllun costau byw, derbyniodd tua 23,000 o aelwydydd grant o £150. Roedd hyn yn cynnwys tua 70% o aelwydydd ar Ynys Môn.

Roedd Cam 1 o'r Cynllun Dewisol yn darparu cymorth ychwanegol i grwpiau bregus eraill nad oedd y gymwys am gymorth o dan y prif gynllun, ac i aelwydydd a ystyriwyd eu bod angen cymorth ychwanegol (gweler Adain 2, Atodiad 1 am fanylion pellach).

Mae Cam 2 yn ehangu'r grwpiau a fydd yn derbyn cymorth ond mae yna risg na fydd modd sicrhau bod yr holl gyllid yn cael ei wario'n llawn erbyn 31 Mawrth 2023. Ystyriwyd darparu grant ychwanegol i grŵp a dderbyniodd gymorth o dan y prif gynllun e.e. aelwydydd mewn eiddo Band A y Dreth Gyngor, rhieni gyda phlant sydd yn derbyn cinio ysgol am ddim ac ati.

Fodd bynnag, ystyriwyd y gallai dyrannu grant cyffredinol i grŵp penodol olygu y byddai aelwydydd nad ydynt mewn angen yn derbyn y grant tra byddai aelwydydd sydd mewn mwy o angen yn colli allan. Ystyriwyd y gellid gwneud y defnydd gorau o'r cyllid drwy ddull gweithredu sy'n targedu'n fwy penodol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Oherwydd lefel y cyllid sydd ar gael a chan bod helpu aelwydydd gyda'r argyfwng costau byw yn flaenoriaeth i'r Cyngor ystyrir bod ehangu'r cynllun a'r modd y caiff y cyllid ei ddefnyddio yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r cynllun yn cael ei gyllido drwy grant gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n rhan o'r gyllideb graidd sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Cyngor.

**Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Yn achos trigolion sy'n derbyn cynhwysiant ariannol a / neu hawliau lles a / neu gyngor ar ddyledion fel rhan o'r gwasanaeth hwn, fe all gael effaith gadarnhaol ar eu sefyllfa ariannol bersonol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut? | Fe all caledi ariannol arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau eraill y Cyngor. Trwy gefnogi grwpiau bregus sydd heb dderbyn cyllid drwy'r prif gynllun costau byw, efallai y gellir lleihau costau'r Cyngor yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy | Mae pob Cyngor unigol yng Nghymru yn gyfrifol am ddyluniad y cynllun, ac mae ganddynt ryddid i gyfeirio'r cyllid i'r rheiny sydd fwyaf mewn angen yn eu hardaloedd hwy. Er hyn, mae trafodaethau ar y math o gategorïau y dylid eu cyllido drwy'r cynllun dewisol wedi cael eu cynnal ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Na |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Cwblhawyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Ystyriwyd pob grwp. |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni fydd y cynllun yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ymdrinnir â phob cais am gymorth yn iaith ddewisol yr ymgeisydd. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (Gorfodol) | Mae'r argymhellion yn yr adroddiad wedi cael eu cytuno gan y Tîm Arweinyddiaeth. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | Roedd y Swyddog Adran 151 yn rhan o'r Gweithgor a oedd yn gyfrifol am lunio'r cynllun. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae unrhyw sylwadau o safbwynt cyfreithiol wedi cael eu hystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Nid yw'r mater wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol/eraill** | Mae sefydliadau trydydd parti sy'n darparu cymorth wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid. |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y cynnig | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):** | | |
| Dim | | |

**ATODIAD 1**

**Y CYNLLUN DEWISOL CYMORTH COSTAU BYW – CAM 2**

## 1. TROSOLWG CYFFREDINOL O'R CYLLID

**1.1.** Yn wreiddiol, darparodd Llywodraeth Cymru swm o arian (£3.44m) i bob Cyngor yng Nghymru i ymorol am gostau'r prif gynllun, a darparwyd £580k yn ychwanegol i ymorol am gostau'r cynllun dewisol. Byddai unrhyw danwariant yn y prif gynllun yn cael ei drosglwyddo fel cyllid ychwanegol i'r cynllun dewisol.

**1.2.** Bwriedir i'r cynlluniau ddarparu cymorth ar unwaith i aelwydydd, wrth i Gymru adfer ar ôl y pandemig, a'u helpu i ddelio ag effaith costau ynni a chostau eraill sy'n cynyddu.

**1.3.** Wrth ddatblygu Cynllun Dewisol lleol, bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut i dargedu'r cyllid i gefnogi trigolion i wneud yn siŵr mai hwn yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion aelwydydd unigol.

**1.4.** O dan y prif gynllun, derbyniodd 22,999 o aelwydydd cymwys daleb gwerth £150 i'w chyfnewid yn y Swyddfa Bost. O'r rhain, ni chafodd 1,036 o dalebau eu cyfnewid ac, o'r herwydd, gellir trosglwyddo £155,400 (1,036 x £150) i'r cynllun dewisol, sy'n darparu cyllid ychwanegol terfynol o £735,400.

## 2. CAM UN O'R CYNLLUN DEWISOL

**2.1.** Ym mis Mehefin 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith gam 1 o'r Cynllun Dewisol.

**2.2.** Byddai'r grwpiau canlynol nad oedd yn gymwys o dan y Prif Gynllun yn derbyn grant o £150, wedi'i weinyddu gan y Tîm Refeniw a Budd-daliadau.

**Diweddariad ar y Taliadau a Wnaed i'r Grwpiau nad oedd yn Gymwys o dan y Prif Gynllun**

| Grŵp | Nifer Bosib o Ymgeiswyr | Cyllideb £ | Nifer o Daliadau a Wnaed hyd Yma | Gwariant Hyd Yma £ |
|---|---|---|---|---|
| Yn Darparu neu'n Derbyn Gofal (Dosbarth I a J) | 15 | 2,250 | 10 | 2,250 |
| Amhariad Meddyliol Difrifol (Dosbarth U) | 135 | 20,250 | 119 | 17,850 |
| Gadawyr Gofal (Dosbarth X) | 10 | 1,500 | 7 | 1,050 |
| Gofalwyr Di-dâl – gweler Nodyn 1 isod | 100 | 15,000 | 1 | 15,000 |
| Rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y Cap Budd-daliadau – gweler Nodyn 2 isod | Anhysbys | | 0 | 0 |
| Aelwydydd a fyddai wedi bod yn gymwys ond a symudodd i eiddo cymwys ar ôl y dyddiad cymwys – gweler Nodyn 3 isod | 100 | 15,000 | 0 | 0 |
| Trigolion sy'n byw mewn llety â chymorth – gweler Nodyn 4 isod | 50 | 7,500 | 0 | 0 |
| Sector Tai Cymdeithasol Band E ac uwch | 20 | 3,000 | 0 | 0 |

- Nodyn 1 – Cafodd y swm ei drosglwyddo'n llawn i'r Gwasanaeth Cymorth Gofalwyr, sydd wedi asesu ceisiadau a dyrannu grantiau ar ran y Cyngor.

- Nodyn 2 – Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw aelwydydd a oedd wedi cael eu heffeithio gan y cap budd-daliadau nad oedd wedi derbyn cymorth o dan y prif gynllun.

- Nodyn 3 – Bydd y broses ymgeisio ar gyfer y rheiny sydd yn y categori hwn yn agor ym mis Ionawr 2023.

- Nodyn 4 – Ymdrinnir â'r agwedd hon drwy'r agwedd anghenion digartrefedd a thai yng ngham dau.

**2.3. Gronfa Galedi Digartrefedd**

**2.3.1.** Ym mis Mehefin 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith gronfa caledi i drigolion sydd yn symud o lety argyfwng i lety sefydlog, sydd yn darparu grant o hyd at £300. Defnyddir y cyllid i ymorol am gostau tanwydd uniongyrchol, megis olew. Hefyd, gellir defnyddio'r agwedd hon i gefnogi costau dodrefnu, yn cynnwys prynu a gosod lloriau a charpedi. Mae'r cyllid o £50,000 yn cael ei weinyddu gan ein Gwasanaeth Digartrefedd Statudol yn seiliedig ar asesiad anghenion.

**2.3.2.** Caiff atgyfeiriadau ar gyfer y rhan yma o'r cynllun eu cwblhau gan ein gwasanaeth digartrefedd statudol a darparwyr Grantiau Cymorth Tai. Lansiwyd y cynllun ym mis Hydref 2022. Mae lefel y gefnogaeth ariannol yn amrywio rhwng ceisiadau, gyda rhai ymgeiswyr yn derbyn swm uwch er mwyn ymorol am gostau prynu a gosod lloriau a charpedi yn eu heiddo newydd (er enghraifft, teuluoedd mwy sy'n symud o lety dros dro i lety parhaol). Mae'r agwedd hon o'r cynllun wedi cael ei hyrwyddo'n eang gan ein gwasanaeth digartrefedd statudol a darparwyr Grantiau Cymorth Tai.

**2.3.3.** Ym mis Rhagfyr 2022 roedd y canlynol wedi cael ei gyflawni:-

| Yr Agwedd yr Adroddir arni | Data a Gwybodaeth |
|---|---:|
| Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd | 69 |
| Nifer y Ceisiadau a Gymeradwywyd | 69 |
| Nifer y Ceisiadau a Wrthodwyd | 0 |
| Cyfanswm sydd wedi cael ei Wario Hyd Yma | 16,670 |
| Cyfanswm i'w Wario (Ceisiadau yn yr Arfaeth) | 1,200 |

**2.3.4.** Wrth asesu ceisiadau, mae wedi dod i'r amlwg bod angen cymorth ehangach gyda chostau tai ac y dylid ehangu'r gefnogaeth i'r rheiny gydag anghenion tai cyffredinol yn ogystal â'r rheiny sy'n symud o lety dros dro.

**2.4. Myfyrwyr mewn Addysg Bellach ac Uwch**

**2.4.1.** Gan fod myfyrwyr sydd yn rhentu neu'n berchen ar eu cartref eu hunain wedi'u diystyru at ddibenion asesu'r Dreth Gyngor, ni fyddai myfyrwyr a oedd yn byw ar eu pen eu hunain mewn eiddo cymwys wedi bod yn gymwys i dderbyn unrhyw gymorth o dan y prif gynllun, er eu bod yn wynebu cynnydd mewn costau ynni.

**2.4.2.** Nodwyd bod 55 o fyfyrwyr yn gymwys am gymorth o dan y cynllun dewisol, a bydd talebau'n cael eu dosbarthu iddynt yn ystod mis Ionawr 2023.

## 2.5. Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

**2.5.1.** Dyrannwyd £10,000 o gyllid dewisol, gyda'r cynllun yn cael ei weinyddu i gyn-filwyr ar ran y Cyngor gan SSAFA. Hyd yma, mae 2 gais wedi cael ei gymeradwyo ac mae £200 wedi cael i ddyrannu, ond mae SSAFA yn credu y bydd y galw'n cynyddu'n sylweddol ym mis Ionawr 2023.

## 2.6. Dyfarniad Dewisol i'r rheiny Mewn Caledi Ariannol

**2.6.1.** Fel rhan o gam un y Cynllun Dewisol, gwahoddwyd ceisiadau gan drigolion Ynys Môn a oedd mewn caledi ariannol ond nad oedd yn gallu defnyddio'r cronfeydd caledi arferol e.e. y Gronfa Cymorth Dewisol. Cafodd ceisiadau eu hasesu gan staff Canolfan J.E.O'Toole, y Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn, a dyrannwyd cyllideb gwerth £100k i gwrdd â'r costau.

**2.6.2.** Caiff taliadau grant eu dyrannu drwy'r 'siop' Charis lle mae grantiau'n cael eu dyrannu drwy daliadau mewn arian parod, talebau siopa ar gyfer yr holl brif archfarchnadoedd ar Ynys Môn a thaliadau ynni ychwanegol sy'n cyrraedd ymgeiswyr llwyddiannus drwy neges destun neu e-bost o fewn munudau i gymeradwyo'r cais.

**2.6.3.** Ar 3 Ionawr 2023, roedd 95 o geisiadau wedi cael eu derbyn, a chafodd 71 eu cymeradwyo. Mae taliadau gwerth £17,500 wedi cael eu gwneud hyd yma. Unwaith eto, disgwylir i'r galw gynyddu ym mis Ionawr 2023.

# 3. CYNIGION CAM 2 - WEDI'U HYMRWYMO

## 3.1. Pecynnau Effeithiolrwydd Ynni

**3.1.1.** Fe all pecynnau effeithlonrwydd ynni, sy'n darparu offer megis blancedi trydan, siolau trydan, bylbiau rhad ar ynni, dillad thermol a fflasgiau, helpu i leihau faint o ynni y mae aelwydydd yn ei ddefnyddio. Mae pecyn effeithlonrwydd ynni ar gyfer 4 o bobl yn costio tua £250.

**3.1.2.** Bydd y pecynnau effeithlonrwydd ynni'n cael eu darparu i bobl sy'n ymweld â'n mannau cynnes. Mae gwaith ar y gweill i gadarnhau pwy fydd yn deilwng a disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2023. Bydd angen tua £30,000 i gyllido'r prosiect.

## 3.2. Banc Bwyd Ynys Môn

**3.2.1** Yn dilyn cais am gymorth gan CSYM gan Fanc Bwyd Ynys Môn i ymorol am gostau cyflogau, maent wedi derbyn £12,200. O ganlyniad, fe allant barhau i gyflogi dau aelod o staff i ddelio gyda'r galw a pharhau i gludo bwyd i ardaloedd gwledig. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan aelod portffolio'r Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Ariannol.

## 3.3. Y Samariaid

**3.3.1.** Yn dilyn cais gan y Samariaid, cytunwyd i glustnodi £10,000 dros dro o'r cyllid hwn i ddarparu cymorth iechyd meddwl hanfodol i drigolion Ynys Môn.

### 3.4. Prosiect Bwyd y Nadolig

**3.4.1** Pob blwyddyn, mae'r Cyngor a phartneriaid amrywiol yn cymryd rhan mewn prosiect Bwyd y Nadolig. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dosbarthu hamperi bwyd a rhoddion. Oherwydd y galw presennol ar ein gwasanaethau, penderfynwyd y bydda'r prosiect bwyd ar gyfer 2022 yn cael ei weinyddu drwy dalebau. Gofynnwyd i dderbynyddion ddewis archfarchnad neu fusnes lleol, megis siop cigydd. Cafodd trigolion eu cyfeirio at y prosiect drwy weithwyr proffesiynol, yn cynnwys gweithwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol tai, darparwyr Grantiau Cymorth Tai, Heddlu Gogledd Cymru, partneriaid 3ydd sector a llawer mwy.

**3.4.2** Gan fod rhaid darparu'r cymorth hwn dros gyfnod y Nadolig, cafodd y dyraniadau eu gwneud heb gymeradwyaeth ffurfiol y Pwyllgor Gwaith. Derbyniodd 430 o aelwydydd gymorth, gwerth £27,000.

## 4. CYNIGION PELLACH AR GYFER CAM 2

### 4.1. Trigolion Ynys Môn gyda Chyflyrau Iechyd

**4.1.1** Mae amryw o drigolion Ynys Môn gyda chyflyrau iechyd difrifol sy'n golygu eu bod yn defnyddio offer iechyd electronig hanfodol yn y cartref, fel rhan o'u triniaeth neu i gynnal eu hansawdd bywyd. O ganlyniad, mae'r aelwydydd hyn yn wynebu cynnydd sylweddol anocheladwy mewn costau ynni. Mae pedwar prif grŵp o gleifion wedi'u dynodi, sef cleifion sy'n derbyn triniaeth dialysis arennol, cleifion gyda chlefyd niwronau motor, cleifion gyda MS a chleifion gyda ffeibrosis systig.

**4.1.2** Cynigir bod grantiau'n cael eu dyrannu i Aren Cymru, y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor, y Gymdeithas MS a'r Gymdeithas Ffeibrosis Systig, a fydd yn asesu ceisiadau gan unigolion ac yn dyrannu'r cyllid grant. Bydd £10,000 yn cael ei ddyrannu i Aren Cymru, a £5,000 i'r 3 sefydliad arall.

### 4.2. Trigolion sy'n Defnyddio Olew i Wresogi eu Cartrefi

**4.2.1** Hyd yma, nid yw aelwydydd sydd yn defnyddio olew i wresogi eu cartrefi wedi derbyn unrhyw gymorth gan y Llywodraeth, er bod pris olew gwresogi wedi cynnyddu'n sylweddol yn ystod 2022. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu rhoi cynllun ar waith, ond nid yw wedi digwydd eto.

**4.2.2** Mae gan Ynys Môn 3 phrif gyflenwr olew gwresogi domestig, a chynigir bod y Cyngor yn talu £10,000 i bob cwmni a defnyddio'r gronfa i brynu olew ar ran aelwydydd sydd yn wynebu caledi ariannol. Hefyd, bydd £5,000 ar gael i brynu logiau a glo gan ddarparwyr lleol.

**4.2.3** Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan staff Canolfan J.E.O'Toole, y Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn, a fydd yn codi archebion gyda'r cyflenwyr yn uniongyrchol.

**4.2.4** Bydd rhaid cael cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a'r cyflenwyr i sicrhau y gall y Cyngor adennill unrhyw arian sydd heb ei wario.

## 5. CRYNODEB O'R SEFYLLFA CYLLIDO

**5.1.** Yn seiliedig ar y cyllid a dderbyniwyd, y Cyllid sydd wedi'i ymwymo hyd yma a'r cynigion cyllidebol ychwanegol, mae'r sefyllfa cyllido wedi'i nodi yn y tabl isod:-

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllid Gwreiddiol gan Lywodraeth Cymru | 580,000 | |
| Tanwariant a Drosglwyddwyd o'r Prif Gynllun | 155,400 | |
| **Cyfanswm y Cyllid sydd ar Gael** | | **735,400** |
| **Cyllid a Ddyrannwyd ar gyfer Prosiectau Cam 1** | | **320,000** |
| **Cyllid sydd Eisoes wedi'i Glustnodi ar gyfer Prosiectau Cam 2** | | |
| Pecynnau Effeithlonrwydd Ynni | 30,000 | |
| Banc Bwyd Ynys Môn | 12,200 | |
| Samariaid | 10,000 | |
| Prosiect Bwyd y Nadolig | 27,000 | |
| **Cyfanswm y Cyllid sydd Eisoes wedi'i Glustnodi ar gyfer Prosiectau Cam 2** | | **79,200** |
| **Prosiectau Cam 2 Ychwanegol** | | |
| Cymorth gyda Chyflyrau Iechyd | 25,000 | |
| Cymorth gyda Chostau Olew Gwresogi, Logiau a Glo | 50,000 | |
| Cyllid i'w weinyddu'n uniongyrchol dan Ddarparwr Cymorth Tai | 50,000 | |
| **Cyfanswm y Prosiectau Ychwanegol Cam 2** | | **125,000** |
| **Cyfanswm y Cyllid a Ddyrannwyd** | | **524,200** |
| **Cyfanswm y Cyllid Dros Ben sydd Heb ei Ddyrannu** | | **211,200** |

## 6. DEFNYDDIO GWEDDILL Y CYLLID

**6.1.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir iawn y bod disgwyl i'r Cynllun Dewisol ddod i ben erbyn 31 Mawrth 2023 ac y bydd rhaid dychwelyd unrhyw gyllid sydd heb ei wario.

**6.2.** Er bod £524,200 wedi cael ei glustnodi ar gyfer prosiectau penodol, mae'r holl brosiectau'n annhebygol o wario'r symiau a ddyrannwyd iddynt erbyn 31 Mawrth 2023 ac y bydd cyllid ychwanegol heb ei wario i'w ychwanegu at y £211,200 o gyllid sydd heb ei glustnodi.

**6.3.** Ni fydd yr argyfwng costau byw yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a bydd angen cymorth a chefnogaeth ar aelwydydd y tu hwnt i'r dyddiad hwn, yn enwedig pan fydd cynllun cymorth ynni Llywodraeth y DU yn dod i ben ym mis Ebrill 2023, gyda chymorth ar gael i lai o aelwydydd ar adeg pan fydd costau ynni'n cynyddu eto.

**6.4.** Gwnaed ymholiadau gyda Llywodraeth Cymru, ac maent yn hapus i dderbyn y bydd y cyllid wedi cael ei wario'n briodol gan y Cyngor drwy ddyrannu gweddill y cyllid i sefydliad neu sefydliadau trydydd sector, a fydd yn parhau i naill ai gefnogi aelwydydd yn y grwpiau sydd eisoes yn derbyn cymorth o dan gynllun dewisol y Cyngor, neu ddarparu cymorth i drigolion Ynys Môn mewn ffordd arall.

**6.5.** Mae amser yn brin ac, felly, mae angen cynnal trafodaethau brys gyda sefydliadau trydydd parti i weld a ydynt yn fodlon darparu cymorth ar ôl 31 Mawrth 2023, drwy ddefnyddio unrhyw gyllid sydd dros ben.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **24 Ionawr 2023** |
| Pwnc: | **Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Cyng. Nicola Roberts** |
| Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth: | **Christian Branch** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **John Ifan Williams – Rheolwr Cynllunio Amgylchedd Adeiledig a Naturiol.**<br>**01248 752460**<br>**JohnWilliams2@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ehangach ar Awdurdodau Cyhoeddus (dyletswydd Adran 6). Fel rhan o ofynion y ddyletswydd, rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus gyhoeddi adroddiad pob tair blynedd o 2019 ymlaen mewn perthynas â'r amcanion a nodir yn eu Cynlluniau Bioamrywiaeth.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi cynnydd y Cyngor Sir mewn perthynas â chwrdd ag amcanion y Cynllun Bioamrywiaeth yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf (2019-22). Mae'r adroddiad yn cynnig argymhellion ar sut i fodloni unrhyw amcanion neu gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni.

## B –Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu fynd am yr opsiwn hwn?

Amherthnasol.

## C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth yn ofyniad statudol, fel y nodir yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Pob tair blynedd, o 2019 ymlaen, rhaid i bob Awdurdod Cyhoeddus adrodd ar eu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion yn eu Cynlluniau unigol.

| Ch - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn cyd-fynd â'r amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun cyfredol y Cyngor. Yn benodol, gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Bioamrywiaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2021.<br><br>O safbwynt lles, fe all annog ein trigolion i ddefnyddio eu hamgylchedd naturiol sicrhau manteision lles. Cydnabyddir yn gyffredinol bod treulio amser bob wythnos yn ymgolli ym myd natur yn gallu gwneud lles i iechyd meddwl a chorfforol pobl.<br><br>Mae bioamrywiaeth a'n tirwedd unigryw yn darparu sylfaen gadarn i economi'r Ynys. Er enghraifft, o safbwynt twristiaeth, bioamrywiaeth a thirwedd Ynys Môn yw un o'r prif nodweddion sy'n denu ymwelwyr i'r Ynys.<br><br>Trwy gyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun gweithredu gellir atgyfnerthu bioamrywiaeth a bydd hyn, yn ei dro, yn gwella'r amodau a all gyfrannu at wella lles pobl Ynys Môn, sicrhau bod adnoddau bywyd yn dal i gael eu cyflenwi yn ogystal â darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnal economi'r Ynys. |

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Bydd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn defnyddio ei adnoddau presennol i gydlynu a llywodraethu gweithgareddau a bydd pob Gwasanaeth o fewn y Cyngor Sir yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r ddyletswydd hon. Yn unol ag adran 6 (1) o Ddeddf 2016 mae gan y Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol dros sicrhau ei fod yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bydd yn sicrhau bod cynnal a gwella bioamrywiaeth yn dod yn rhan annatod o benderfyniadau'r Cyngor, a thrwy hynny bydd yn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o amgylchedd naturiol amrywiol yr Ynys yn ogystal â sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y | Gellir cyflawni arbedion drwy newid y modd y caiff asedau'r Cyngor eu rheoli a'u cynnal. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | dyfodol. Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy | Cydweithio mewnol ac ar draws gwasanaethau i ddatblygu'r adroddiad, a chydweithio ar yr argymhellion. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Amherthnasol |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E –Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (Gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (Gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (Gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad a Chrynodeb Annhechnegol ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Cydnerthedd Adran 6 |

| |
|---|
| |

| Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



# Cyngor Sir Ynys Môn –

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6

# Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022

**Cynnwys**


| Adran | Teitl | Tud(au) |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad a Chyd-destun | 3 |
| 2 | Uchafbwyntiau, Prif Ganlyniadau a Materion | 5 |
| 3 | Astudiaethau Achos | 14 |
| 4 | Adroddiad Gweithredu | 14 |
| 5 | Adolygu Dyletswydd Adran 6 | 15 |
| 6 | Argymhellion am Gamau ar gyfer y Dyfodol | 16 |

| Atodiad | Teitl | Tud(au) |
|---|---|---|
| A | Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022 – Astudiaethau Achos | 18 |
| B | Adolygu'r Cynllun Gweithredu | 34 |

## 1.0 Cyflwyniad a Chyd-destun

### 1.1. Gofynion statudol

1.1.1 Diben yr adroddiad yw nodi beth mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i wneud i gydymffurfio gyda dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2022. Paratowyd yr adroddiad gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd, ac mae'n cynnwys mewnbwn Gwasanaethau'r Cyngor.

1.1.2 Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau sy'n cyd-fynd ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Rhaid i Awdurdod Cyhoeddus gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r gofyniad hwn, cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019.

1.1.3 Mae Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o organebau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru sydd, yn eu barn nhw, o'r pwysigrwydd mwyaf er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Gelwir hon yn rhestr Adran 7.

### 1.2 Disgrifiad o Awdurdod Cyhoeddus mewn perthynas â bioamrywiaeth

1.2.1 Mae'r Cyngor Sir yn dod o fewn y diffiniad o Awdurdod Cyhoeddus, ac o ran adrodd ar gamau sy'n gysylltiedig â'i Gynllun Bioamrywiaeth, mae ganddo fwy o faich. Mabwysiadwyd y Cynllun ar ôl ei adrodd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 25 Ionawr 2021. Gellir gweld y cynllun drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Biodiversity/Biodiversity-Plan.pdf

### 1.3 Graddfa Ofodol a Lle

1.3.1 Mae Ynys Môn yn ynys sy'n cwmpasu ardal o tua 700km$^2$ ac sy'n cynnwys trefi a phentrefi bychain gan fwyaf. Mae poblogaeth yr ynys ychydig yn is na 69,000 o bobl.

1.3.2 Mae gan yr ynys forlin o tua 225km gyda'r rhan fwyaf ohoni wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Yn ogystal â hyn, mae'r ynys a'r môr o'i chwmpas yn destun nifer o ddynodiadau ecolegol rhyngwladol a chenedlaethol, ac mae'n enwog am ei chynefinoedd a'i rhywogaethau. Mae'r ddaeareg arbennig a geir yno yn cael ei chydnabod drwy ei dynodi fel Geoparc Byd-eang UNESCO ac, fel Ynys, mae ein bioamrywiaeth yn wahanol i ardaloedd eraill yn y DU, mewn ambell ffordd.

1.3.3 Mae tirlun Ynys Môn, ei hadnoddau naturiol a'i hasedau, yn ogystal â chynnal cymunedau lleol cryf, yn sylfaen i fioamrywiaeth cyfoethog ac amrywiol.

### 1.4 Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus

1.4.1 Mae CSYM yn aelod statudol o Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn. Sefydlwyd byrddau gwasanaeth cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal gan gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y bwrdd yn:

a) Asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal; a
b) Gosod amcanion penodol i wneud y mwyaf o gyfraniad y byrddau gwasanaeth cyhoeddus i'r nodau llesiant.

1.4.2 Cyhoeddodd y BGC Gynllun Llesiant Lleol yn 2018 ac un o'r negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r asesiad llesiant oedd hyrwyddo'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a lles yn y tymor hir.

1.4.3 Mae CSYM yn cymryd rhan yn y broses Datganiad Ardal sy'n cael ei arwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac mae wedi cyfrannu at baratoi'r Datganiad ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru. Cafodd Datganiad Ardal Gogledd Orllewin ei gymeradwyo'n swyddogol ar 1 Ebrill 2020 a gellir ei weld trwy ddilyn y ddolen isod.

https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/north-west-wales-area-statement/?lang=en#:~:text=North%20West%20Wales%20Area%20Statement%20The%20area%20is,further%20upland%20moors%20to%20the%20east%20in%20Conwy

**1.5 Sut mae gwella bioamrywiaeth yn cyfrannu at swyddogaethau ac amcanion strategol CSYM**

1.5.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi tri amcan strategol. Un o'r rhain yw *"gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau gan ddiogelu'r amgylchedd naturiol ar yr un pryd."* Mae'r ymrwymiad i ddiogelu'r amgylchedd naturiol o fewn strategaeth gorfforaethol y Cyngor, ac mae wedi'i adlewyrchu yn yr amcanion a'r camau a nodir yn y Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol. Gellir gweld y Cynllun presennol drwy'r ddolen ganlynol:

https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s11785/Cynllun%20y%20Cyngor%202017-22.pdf?LLL=1

**1.6 Prif bolisïau, amcanion, dangosyddion perfformiad a threfniadau monitro**

1.6.1 Mae sawl dogfen gorfforaethol a gwasanaeth-benodol yn gosod sylfaen polisi cadarn ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae darpariaeth fonitro yn rhan o'r dogfennau hyn. Yn eu plith mae:

a) Cynllun CSYM
b) Tuag at Gynllun Sero Net
c) Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn
d) Cynlluniau Darparu Gwasanaeth Unigol
e) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

**1.7 Trefniadau llywodraethu o ran gweithredu dyletswydd adran 6**

1.7.1 Mae gan Bennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd reolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn adrodd i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. O safbwynt gwleidyddol, yr aelod portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am hyrwyddo bioamrywiaeth o ystyried natur y rôl a'r rhyngweithio rhyngddo â'r portffolio amgylcheddol ehangach. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cynllun Gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Bioamrywiaeth yn gosod camau penodol ar gyfer swyddogion unigol gyda chyfrifoldebau rheolaethol.

1.7.2 Wrth fabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth, gwnaeth Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir hynny ar y sail y byddai adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i roi gwybodaeth am y cynnydd i fodloni'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cynllun.

1.7.3 Mae'r Cyngor Sir yn cynnig ffurfio grŵp gyda swyddogion o bob gwasanaeth yn ystod 2023 er mwyn monitro, adolygu ac addasu'r camau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Bioamrywiaeth, pan fo'n berthnasol, er

mwyn sicrhau bod y camau hyn yn parhau'n gyfredol a pherthnasol. Defnyddir y data monitro i lywio gofynion adrodd yn y dyfodol.

## 2.0 Uchafbwyntiau, Prif Ganlyniadau a Materion

### 2.1 Camau bioamrywiaeth allweddol

2.1.1 Ym mis Ionawr 2021, mabwysiadodd y Cyngor Sir y Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol yn ffurfiol. Mae'r Cynllun yn rhoi sylfaen ar gyfer:

a) Archwiliad bioamrywiaeth o ystâd y Cyngor, a fydd yn adnabod cyflwr safleoedd a sut ellir eu gwell mewn perthynas â chysylltedd cynefinoedd;
b) Fframwaith holistig ar gyfer rheoli safleoedd sensitif sy'n gyfoeth o fioamrywiaeth ar draws ystâd y Cyngor Sir, ynghyd â safleoedd eraill a ellir eu gwella;
c) Gwella darpariaeth seilwaith werdd y Cyngor Sir, a
d) Ffurfioli strwythur adrodd ar fioamrywiaeth.

2.1.2 Yn wleidyddol, mae'r aelod portffolio Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd yn gyfrifol am hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae cyfres o gyfarfodydd chwarterol rheolaidd wedi'u trefnu rhwng yr aelod portffolio a'r swyddog perthnasol er mwyn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau pwysig, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau bioamrywiaeth.

2.1.3

2.1.4 Mae LNP Ynys Môn yn sefydliad allweddol i sicrhau bod camau bioamrywiaeth yn dod i sylw'r gymuned ehangach. Mae amrywiaeth yr aelodau'n fodd o sicrhau bod gwybodaeth ynghylch bioamrywiaeth yn cael ei rhannu'n eang. Anogir aelodau i feithrin syniadau ar gyfer prosiectau cyfoethogi y gellir eu hystyried ar gyfer cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae'r Cyngor Sir yn goruchwylio dyfarniad arian grant i bartneriaid o'r gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Ers ei gyflwyno, mae'r gronfa wedi dosbarthu gwerth £450,000 mewn arian grant i nifer o brosiectau, fel y nodwyd yn y tabl isod. Darperir astudiaethau achos yn Atodiad 1.

| Blwyddyn Ariannol | Prosiectau partner | Prosiectau'r Cyngor | Prosiectau Cronfa Her | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2020-21 | £40,785 | £37,465 | Amherthnasol | **£78,250** |
| 2021-22 | £47,179 | £24,900 | £167,000 | **£239,079** |
| 2022-23 | £101,070 | £32,050 | Amherthnasol | **£133,120** |
| | **£189,034** | **£94,415** | **£167,000** | **£450,449** |

Tabl 1: Dyfarniadau grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2020-23

2.1.5 Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid presennol, mae Swyddog Bywyd Gwyllt yr Awdurdod Lleol yn annog aelodau newydd i ymuno â'r LNP drwy rwydweithio. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal gyda CADW a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a bu i gyflwyniad a ddarparwyd ar gyfer cangen Môn o Un Llais Cymru, sef y prif sefydliad ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, annog ddiddordeb mewn ymaelodi â LNP Ynys Môn.

2.1.6 Mae gwaith sylweddol a ariannwyd gan Gronfa Her LNP, wedi digwydd gyda phrosiect allweddol Clegir Mawr. Bydd yn cynnig ffordd o asesu adferiad y cyn safle ysbwriel hwn yn gynefin bywyd gwyllt. Yn ychwanegol at hyn, gellir ei ddefnyddio fel ased addysgiadol a all gynnig lleoliad cynefin mosaig fel bo myfyrwyr yn dod i ddeall cyd-ddibyniaeth rhywogaethau ar fathau penodol o gynefinoedd, a bod yn ganolfan astudio werthfawr ar gyfer ymchwil.


Gweirglodd blodau gwyll, Clegir Mawr, Gwalchmai

2.1.7 Ni ellir tanseilio'r pwysigrwydd o allu defnyddio cofnodion ecolegol. Oherwydd hyn, mae'r Cyngor Sir ar fin cwblhau sawl cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gwahanol gyda Cofnod, y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERC) ar gyfer gogledd Cymru. Drwy gael mynediad at y data hwn, gellir llywio gwaith neu brosiectau penodol lle amheuir bod rhywogaethau sydd wedi'u diogelu yn bresennol a/neu mae lliniaru yn hanfodol. Disgwylir cwblhau'r CLG ar ddechrau 2023.

## 2.2 Canlyniadau cadarnhaol ar gyfer iechyd, cydlyniant cymunedol a buddion economaidd

2.2.1 Fel y cyfeiriwyd eisoes, ar y dechrau gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr i safleoedd y Cyngor Sir yn ystod y cyfnod adrodd oherwydd effeithiau pandemig Covid. Fodd bynnag, byddai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn cefnogi'r ddamcaniaeth fod treulio amser ym myd natur o fudd i lesiant meddyliol ac iechyd corfforol.

| Blwyddyn Ariannol | Nant y Pandy | Parc Morglawdd | Cyfunol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 63,129 | 124,607 | 187,736 | *Caewyd y llwybr pren yn Nant y Pandy am 6 wythnos oherwydd gwaith adeiladu pont newydd yn Ch3 |
| 2019-20 | 60,159 | 91,815 | 151, 974 | |
| 2020-21 | 0* | 91,051 | 91, 051 | Caewyd y llwybr pren yn Nant y Pandy o fis Mawrth 20 tan fis Mehefin 21 / caewyd Parc y Morglawdd hefyd am rai misoedd oherwydd to COVID. |
| 2021-22 | 65, 412 | 107, 550 | 172,962 | |
| 2022-23 (4/22 -9/22) | 19,066 | 62,167 | 81,233 | Data Rhannol – 6 mis yn unig o'r flwyddyn ariannol bresennol fel cyfeiriad. |
| * Ffigyrau ar gyfer Nant y Pandy wedi'u darparu gan rifydd ar y Llwybr Pren, felly 0 wedi'u nodi gan fod y llwybr wedi'i gau am gyfnod | | | | |

Tabl 2: nifer yr ymwelwyr i safleoedd bywyd gwyllt a reoli gan y Cyngor

2.2.2 Profwyd bod darparu rhandiroedd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor hefyd yn fuddiol i lesiant a chydlyniant cymdeithasol yn ogystal â bod yn hafan ar gyfer bywyd gwyllt, gan ddarparu cynefin gwerthfawr i beillwyr yn arbennig. Ar hyn o bryd mae gan yr Ynys 9

safle rhandiroedd, gyda 3 ohonynt ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir neu ar brydles, gyda rhai eraill yn cael eu darparu ar safleoedd Cynghorau Tref/Cymuned. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Sir yn ystyried datblygu safle rhandiroedd newydd pellach ar dir yng Nghaergybi.



Plotiau Cymdeithas Rhandiroedd Llangefni

2.2.3 Mae Cynllun y Cyngor Sir (2017-22) yn cydnabod gwerth amgylchedd naturiol yr Ynys, pwysigrwydd diogelu'r ased hwn a'i gyfraniad presennol a phosibl at ffyniant economaidd yr Ynys.

2.2.4 Er nad yw wedi'i anelu'n uniongyrchol at wella bioamrywiaeth, mae prosiect sy'n argymell rhagnodi gwyrdd yn cael ei redeg gan Wasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor Sir gan ddefnyddio cyllid SDF i drefnu gweithgareddau coetir i bobl na fyddai'n cael mynediad atynt fel arall. Nod y prosiect: yw

- gwella iechyd a llesiant pobl drwy ragnodi cymdeithasol i weithgareddau rheolaidd mewn coetiroedd, sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol, maeth a sgiliau coetir;
- hybu dealltwriaeth o'r AHNE a diddordeb ynddi; Tîm Cefn Gwlad/AHNE.

Cynhelir y prosiect gan Grŵp Coetir Cymunedol Llyn Parc Mawr, un o’r partneriaid LNP.



Gweithgareddau presgripsiynu gwyrdd yn Llyn Parc Mawr, Niwbwrch

## 2.3 Arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd

2.3.1 Gall adolygu arferion gweithio ac ysgogi newid arwain at welliannau o ran bioamrywiaeth, yn ogystal ag arbed costau hefyd. Gweler enghraifft o newid o'r fath sy'n arbed costau o fewn y rhaglen radical rheoli ymylon. Mae lleihau cysondeb torri gwellt yn arbed costau ac mae hefyd yn hybu bioamrywiaeth drwy gynyddu nifer yr ardaloedd cynefin. Mae gan wasanaethau'r Cyngor, sydd â chyfrifoldebau dros dir, ddiddordeb pellach mewn ardaloedd o weirgloddiau blodau gwyllt a chreu cynefinoedd er mwyn sefydlu gweirgloddiau blodau gwyllt mewn ardaloedd glaswellt a fyddai'n cael eu torri'n rheolaidd fel arall, heb unrhyw effaith fuddiol ar fioamrywiaeth.



Trefniadau torri gwellt gwahanol i annog tyfiant blodau gwyllt, Talwrn

2.3.2 Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod y newidiadau mewn trefniadau torri gwellt wedi arbed oddeutu £7,000 i'r Cyngor Sir bob blwyddyn rhwng 2010 a 2022. Mae'r cynnydd sylweddol diweddar mewn tanwydd yn golygu nad yw'r arbedion cystal ag y gallent

fod, ond maent yn dal i gael eu cyflawni. Mae'r tabl isod yn dangos graddfa'r rhaglen Rheoli Cadwraeth a Thorri.

| **Adroddiad ar Ardaloedd Rheoli Torri Cadwraeth 2019-20** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif CMA** | **Lleoliad** | **Amrywiaeth rhywogaethau** | **Rheolaeth** | **Hyd yr ymyl a reolwyd** |
| 1 | Tal Poncau, Dwyran | Cofnodwyd 63 rhywogaeth planhigion: 88 tegeirian coch y gwanwyn eleni. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref | 200m |
| 2 | Lon Cwirt, Dwyran | 64 rhywogaeth gan gynnwys briallu, fioledau a 148 tegeirian coch y gwanwyn. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref | 100m |
| 3 | Lon Bacsia, Llangefn | 52 rhywogaeth gan gynnwys troed y golomen, tegeirian coch y gwanwyn a tegeirian cyffredin. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref Toriad cadwraeth yn y gaeaf. | 100m |
| 4 | Tyddyn Philip, Brynteg | 105 rhywogaeth gan gynnwys brawdlys gwaedlyd, cor-rosynau a chlafrllys y maes . | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref. Toriad cadwraeth. Rheolaeth rhedyn. | 100m |
| 5 | Frigan, Brynteg | 92 rhywogaeth gan gynnwys brawdlys gwaedlyd, cor-rosynau a gludlys codrwth | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref. Toriad cadwraeth. | 100m |
| 6 | A5025, Pentraeth | 63 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian gyffredin, tegeirian llydanwyrdd wedi ail-ymddangos | Torri ymylon yn yr haf, yn cael ei dorri a'i felio neu'n cael ei gribinio ym mis Medi | |
| 7 | Tyddyn Waen, Talwrn | 115 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn a tegeirian cyffredin a briallu. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref. Ffermwr yn torri ymylon a gwrychoedd ym mis Medi | 600m |
| 8 | Bryn Gors, Talwrn | 98 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian cyffredin, amrhydlwyd cyffredin, llysiau'r milwr coch. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref. | 100m |
| 9 | Tan y Bryn, Brynsiencyn | 56 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn, briallu a chlust yr ewig. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref + toriad cadwraeth. | 100m |
| 10 | Pant y Bugail, Marianglas | 54 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn a chaineirianau. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref. | 500m |
| 11 | Ty Mwdwal, Dwyran | Amserlen ar gyfer ffosydd gyda llyffaint, madfall ddŵr a llygod dŵr. | Yn cael eu torri yn yr haf a'r Hydref. Torri gwrychoedd yn yr Hydref. | |
| 12 | A5025 Benllech Cross | 66 rhywogaeth gan gynnwys briallu, tegeirian cyffredin a marjoram. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref. Toriadau cadwraeth, tynnu chwyn. | 150m |
| 13 | Ty'n Pistyll, Llanddona | Safle gyda rhywogaeth prin – Gorfanhadlen Fawr – parasitig ar Eithin. | Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref a thoriadau cadwraeth. | 20m |
| 14 | Cyffordd Rhos Llaniestyn, Llanddona | Dim rhestr fanwl o blanhigion ar gael ond amrywiaeth dda o flodau carreg galch | Dim toriad yn yr ha fond angen ei dorri'n glir yn yr Hydref. | |
| 15 | Ffordd Osgoi, Cemaes | 111 rhywogaeth wedi cael eu cofnodi gan | Llethr ddim yn cael ei dorri yn yr haf. Yn cael ei dorri'n | 100m |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gynnwys sawl tegeirian arall | glir i frig y llethr. Chwyn yn cael eu cribinio a'u tynnu | |
| 16 | Stone Science, Talwrn | 74 rhywogaeth wedi'u cofnodi gan gynnwys briallu Mair, llysiau'r llwynog a mantell Fair. | Dim toriad yn yr haf. | |
| 17 | Comin, Marianglas | Amrywiaeth dda o blanhigion glaswelltir carreg galch gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn, cor-rosynau a chlychlys llydanddail. | Mae sawl plot wedi'i farcio â cherrig gwyn. Cânt eu torri yn yr Hydref yn unig gan adael i'r planhigion flodeuo. | |
| 18 | Tywyn Aberffraw, Aberffraw | Amrywiaeth dda o blanhigion glaswelltir twyni, gan gynnwys sawl rhywogaeth o degeirian. | Dim toriad yn yr haf. Dau ystodau rheolaidd yn yr Hydref. | |
| 19 | Bwrdd Arthur, Llanddona | Amrywiaeth dda o blanhigion carreg galch gyda chlafrllys y maes, dant y pysgod a darnau helaeth o gor-rosynau cyffredin. | Dim toriad yn yr haf. 2 ystodiad yn yr Hydref a thoriad cadwraeth i reoli miaren | 400m |
| 20 | Safle bach ar lôn gul i'r gogledd o Talwrn | Wedi'i sefydlu i ddiogelu'r unig safle ger ffordd ar gyfer tegeirian y broga | Ddim yn cael ei dorri yn yr haf. Gosod amddiffynwyr ymylon i ddiogelu rhag difrod gan gerbydau amaethyddol. | |
| 21 | Ffordd Maelog, Rhosneigr | 59 rhywogaeth wedi'u cofnodi gan gynnwys tegeirian pyramid, mandon lâs yr ŷd, briwydd felen, rhwyddlwyn-y-maes-gwyrdd a gwenithwellt caled | Dim toriad yn yr haf, ond bydd angen torri canol y gweirglodd ym mis Medi. | |

Tabl 3: Ardaloedd Rheoli Cadwraeth 2019-20

2.3.3. Gellir cyflawni arbedion ac arbedion effeithlonrwydd drwy reoli neu gael gwared ar rywogaethau ymledol. Yn achos Jac y Neidiwr, mae fwyaf amlwg ger glannau afonydd, ac wrth gael gwared ohono, caniateir llystyfiant brodorol i dyfu ar lannau afonydd a darperir sicrwydd yn y pridd. Byddai Jac y Neidiwr wedi gallu ansefydlogi glannau am ei fod yn marw dros y gaeaf ac yn amlygu'r ddaear moel. Gall llifogydd a chasgliad o waddod amlygu ymhellach i lawr yr afon gan arwain at gostau rheolaeth i'r Cyngor Sir.

2.3.4 Gall defnyddio gwirfoddolwyr i wneud gwaith megis clirio rhywogaethau ymledol a chasglu ysbwriel ddarparu buddion i fioamrywiaeth a hynny drwy gynnal cynefinoedd, yn ogystal ag arbed costau. Defnyddir llafur gwirfoddolwyr yn eang o fewn swyddogaeth AHNE a Chefn Gwlad y Cyngor er mwyn cwblhau prosiectau o'r fath. Yn ychwanegol at hyn, bydd gwaith cyffelyb gydag ysgolion yn cael yr un buddion o ran bioamrywiaeth ac arbedion/arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd â chynnig buddion addysgiadol lle mae gweithgareddau o'r fath yn mynd i'r afael ag anghenion cwricwlaidd.

### 2.4 Prif ffactorau sy'n hwyluso camau gweithredu bioamrywiaeth

2.4.1 Mae ailgynnull Fforwm Bywyd Gwyllt Ynys Môn fel Partneriaeth Bioamrywiaeth Lleol (LNP) Ynys Môn wedi bod yn gam arwyddocaol i hwyluso camau bioamrywiaeth llwyddiannus yn y gymuned. Mae LNP Ynys Môn yn gorff sy'n cynnwys nifer o gyrff

gwahanol sy'n cynrychioli sbectrwm amrywiol o ddiddordebau. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys:

a) Llunio partneriaethau traws-sector;
b) Adeiladu capasiti;
c) Gweithgareddau lleol sy'n diwallu anghenion lluosog gan gyflawni blaenoriaethau NRAP;
d) Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth;
e) Eirioli a dylanwadu;
f) Olyniaeth.

2.4.2 Mae Cydlynydd yr LNP yn ei swydd ers blwyddyn, ac os oes cyllid refeniw ar gael ar gyfer 2023-24 neu ddim, y bwriad yw cyflogi cynorthwyydd ar gyfer y Cydlynydd, er mwyn adeiladu capasiti a chanolbwyntio'n well ar ddatblygu a gweithredu prosiect bioamrywiaeth.

2.4.3 Fel y soniwyd eisoes, mae cael mynediad at ddata ecolegol cyfredol yn allweddol ar gyfer gweithredu yn y maes bioamrywiaeth, sef bwriad y CLA gyda LERC Cofnod. Disgwylir y bydd y mater hwn yn dod i ben yn ystod chwarter cyntaf 2023.

2.17 Mae cydweithio â sefydliadau eraill yn gallu darparu prosiectau mwy gyda buddion bioamrywiaeth gwell. Mae prosiect *Wild Landfill* yn fenter gydweithredol rhwng y Cyngor Sir, Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n ceisio sicrhau'r amodau gorau posibl ar gyfer bioamrywiaeth mewn safleoedd tirlenwi sydd wedi'u capio, ac mae wedi arwain at waith sylweddol yn safleoedd Penhesgyn a Chlegir Mawr (gan gynnwys plannu 24,000 o goed). Mae gan y safleoedd sydd wedi'u gwella y gallu i fod yn adnoddau addysgiadol ar gyfer ysgolion a cholegau lleol.



Plannu coed yn Safle Tirlenwi Penhesgyn Landfill Site, Porthaethwy

## 2.5 Rwystrau rhag gweithredu

### Deall gofynion Adran 6

2.5.1 Mae'r angen i ddeall y cyfrifoldebau sydd wedi'u gosod gan Adran 6 yn hanfodol os yw'r Ddyletswydd am ei chyflawni'n gywir. Byddai sefydlu grŵp o swyddogion traws-wasanaeth yn ffordd effeithiol o wneud hyn. Mae hyn yn flaenoriaeth sydd angen ei chwblhau yn y Cynllun Gweithredu, ond gwneir hynny ar ddechrau 2023.

2.5.2 Mae hyfforddiant ar faterion bioamrywiaeth yn hanfodol er mwyn meithrin dealltwriaeth mewn perthynas â dyletswydd Adran 6. Mewn perthynas â hyn, mae trefniadau i gynnal digwyddiad hyfforddi mewnol ar gyfer swyddogion/aelodau etholedig

perthnasol yn cael ar waith, a disgwylir y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ystod chwarter cyntaf 2023.

**Mynediad at ddata ecolegol**

2.5.3 Gall diffyg mynediad at ddata, neu ddim mynediad o gwbl, gael effaith andwyol ar lwyddiant prosiect. Oherwydd hyn, mae angen cwblhau'r broses CLA gyda Cofnod. Fel y soniwyd eisoes, disgwylir y bydd y broses cael dod I ben ddechrau 2023.

**Newid Hinsawdd**

2.5.4 Yn gryno, mae UNESCO yn disgrifio'r berthynas rhwng newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth fel a ganlyn:

> *Climate change is a major driver of biodiversity erosion, and loss of biodiversity also accelerates climate change processes, as the capacity of degraded ecosystems to assimilate and store $CO_2$ tends to decrease. Humanity therefore has a global responsibility to address these two challenges and the interactions between them.*
> https://www.unesco.org/en/climate-change/biodiversity

2.5.5. Bu i'r Cyngor Sir ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 ac ymrwymodd y Cyngor i fod yn sefydliad Carbon Niwtral erbyn 2030. Mae'r Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol yn cydnabod y cysylltiadau amlwg rhwng newid hinsawdd a bioamrywiaeth wrth osod yr amcan canlynol:

> *Cysylltu manteision bioamrywiaeth â Strategaeth Newid Hinsawdd, agenda datgarboneiddio a rhaglenni lleihau gwastraff/ailgylchu*

2.5.6 Mae'r Cynllun Sero Net yn ail-gyfleu'r gydnabyddiaeth hon wrth restru defnydd tir a bioamrywiaeth ymhlith ei brosiectau ac ymyriadau i helpu i gyrraedd targedau Sero Net erbyn 2030. Oherwydd hyn, mae'r Cynllun yn ymrwymo i wella amrywiaeth bioamrywiaeth ar dir y Cyngor, gwella niferoedd cord ar dir y Cyngor a datblygu seilwaith werdd newydd.

**Colli cynefin a diraddio**

2.5.7 Mae colli a diraddio cynefinoedd yn deillio o arferion sy'n anghydnaws â natur cynefinoedd megis defnyddiau diwydiannol neu ddatblygiadau eraill. Mae'r prosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol yng Nghlegir Mawr a Phenhesgyn yn enghraifft o brosiect sy'n ceisio mynd i'r afael â gwaith adfer cynefinoedd ac atal diraddio.



Gwartheg a ddefnyddir ar gyfer pori cadwraeth yng Nghlegir Mawr, Gwalchmai

**Llygredd**

2.5.8 Gall llygredd fod ar sawl ffurf a gall pob un effeithio'n negyddol ar fyd natur. Mae Partneriaeth Awyr Dywyll wedi cyhoeddi "Goleuo Da", canllaw goleuo da ar gyfer busnesau a chymunedau i atal tarfu ar fywyd gwyllt, yr effaith ar iechyd pobl ac i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. O ran effaith goleuadau amhriodol ar fywyd gwyllt, mae'r ddogfen yn nodi:

> *Mae planhigion ac anifeiliaid yn dibynnu ar gylch dyddiol y Ddaear o olau a thywyllwch i reoli ymddygiadau sy'n cynnal bywyd fel atgenhedlu, maeth, cwsg ac amddiffyn rhag ysglyfaethwyr. Mae tystiolaeth yn dangos bod golau artiffisial yn y nos yn cael effeithiau negyddol a marwol ar lawer o greaduriaid gan gynnwys amffibiaid, adar, mamaliaid, pryfed a phlanhigion. Mae dros 60% o fywyd gwyllt yn y DU yn dibynnu ar dywyllwch i oroesi.*
>
> *Goleuo Da (Partneriaeth Awyr Dywyll 2022)*

2.5.9 O ran lleihau llygredd aer ac effaith allyriadau cerbydau yn benodol, mae'r Cyngor Sir wedi ehangu ei fflyd o gerbydau trydan. Yn ddiweddar, cafodd Gwasanaeth Cefn Gwlad yr Awdurdod dri cherbyd trydan, ac fe gafodd dau ohonynt (car a fan) eu hariannu drwy grant a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cerbyd cyfleustodau yw'r llall a ariannwyd drwy grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cerbydau hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan staff y gwasanaeth.

**Rhywogaethau Ymledol**

2.5.10 Rhywogaethau ymledol yw rhai o'r prif bethau sy'n bygwth bywyd gwyllt brodorol. Gall effaith rhywogaethau ymledol ar ein heconomi a'n hecosystemau naturiol fod yn gostus iawn gyda llawer o'n gweithgareddau masnachol, amaethyddol a hamdden yn dibynnu ar ecosystemau brodorol iach. Mae'r Cyngor Sir yn cymryd rhan mewn sawl prosiect (gweler Atodiad 1) sy'n ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon.

2.5.11 Mae'r swyddogaeth AHNE a Chefn Gwlad ynghlwm â sawl prosiect sy'n ceisio rheoli neu gael gwared ar rywogaethau ymledol. Yn eu plith mae:

- Mae Partneriaeth Jac y Neidiwr Ynys Môn wedi datblygu rhaglen waith sy'n targedu'r rhywogaeth wrth ei wraidd o fewn ardaloedd dalgylch ar yr Ynys, gyda chymorth gwirfoddolwyr, contractwyr a pherchnogion tir / tirfeddianwyr.
- Mae prosiect Afonydd Menai yn cynnwys gwarchod a chodi ymwybyddiaeth o ddwy rywogaeth blaenoriaeth Adran 7, sef llygod pengrwn y dŵr a dyfrgwn, yn bennaf drwy weithio i reoli'r Minc Americanaidd anfrodorol sy'n ymledu.
- Pwrpas Prosiect Achub Ein Gwiwerod yw gwarchod gwiwerod coch rhag bygythiad gwiwerod llwyd.

2.5.12 Mae'r system dylunio yn ffordd o reoli rhywogaethau ymledol mewn cyd-destun datblygiad tir. Gellir defnyddio amodau cynllunio yn y cyd-destun hwn i atal rhywogaethau ymledol rhag sefydlu neu ymledu wrth wneud gwaith datblygu. Gall amodau o'r fath ofyn am Asesiad Risg Bioddiogelwch a chynlluniau monitro tymor hir er mwyn rheoli unrhyw ddigwyddiad posibl.

**Peryglu Bioddiogelwch**

2.5.13 Mae bioddiogelwch yn cyfeirio at fesurau sy'n ceisio atal organebau niweidiol (e.e. firysau, bacteria, ac ati) rhag sefydlu a/neu ledaenu i anifeiliaid a phlanhigion er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo clefyd heintus. Mae dau enghraifft yn berthnasol i

fioddiogelwch ar yr Ynys ar hyn bryd, sef clefyd coed ynn (ADB) a Ffliw Adar. Mae'r clefydau'n peri risgiau sylweddol i iechyd a diogelwch pobl ac anifeiliaid a'r dirwedd. Mae ADB yn benodol yn peri bygythiad sylweddol i gynefin ac i'r rhywogaethau niferus o fflora a ffawna y gwyddom sy'n dibynnu ar goed ynn.

2.5.14 I ddechrau, roedd y Cyngor Sir yn cyflogi Cydlynydd ADB i fynd i'r afael ag effeithiau'r clefyd, ond mae'r swydd wedi'i ehangu i Reolwr Prosiect ADB, gyda chyfrifoldebau dros sicrhau y gall y sir wella o effeithiau'r clefyd.

2.5.15 Gall Ffliw Adar ledaenu i'r boblogaeth adar gwyllt a gwelwyd hyn mewn rhannau eraill o'r DU a'r effaith ddinistriol a gafodd. Pwysleisiodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru bod y fath achos yn cadarnhau'r angen i bawb sy'n cadw dofednod ac adar caeth eraill gadw at y lefelau uchaf o fioddiogelwch er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu.

**Adnoddau Staff**

2.5.16 Profodd y Cyngor Sir heriau wrth recriwtio ecolegydd cymwys addas ar ôl i'r Ymgynghorydd Ecolegol adael ei swydd ym mis Medi 2022. Ni lenwyd y swydd tan fis Mehefin 2022, ac mae'n adlewyrchu heriau recriwtio mewn lleoedd eraill ac mae'n rhywbeth a all beri pryder yn y dyfodol. Fodd bynnag, gyda'r swydd bellach wedi'i llenwi, mae Cydlynydd LNP wedi'i benodi, ac mae'r rhagolygon ar gyfer penodi cynorthwyydd LNP, os bydd cyllid yn caniatáu hynny, i wella capasiti ynghylch bioamrywiaeth yn y dyfodol yn ymddangos yn gadarnhaol.

## 3.0 Astudiaethau Achos

3.1 Mae'r Cyngor Sir wedi cynnal nifer o brosiectau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a gwella cynefinoedd dros y cyfnod 2019-22, ac mae rhai ohonynt wedi cael eu crybwyll yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae prosiectau o'r fath wedi cael eu hariannu'n bennaf, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan gwbl, drwy grantiau a gafwyd o wahanol ffynonellau megis Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (Gwyrddio'r Ystâd Gyhoeddus), y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) a grantiau'r Gronfa Adferiad Gwyrdd.

3.2 Mae prosiectau wedi amrywio o ran maint ac effaith gyda'r canlyniad disgwyliedig ar gyfer bioamrywiaeth yn gymesur â maint y prosiect. Mae atodiad 1 yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar brosiectau penodol a gynhaliwyd ac mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnig cipolwg ar natur amrywiol y gwaith a wnaed i wella bioamrywiaeth dros wahanol safleoedd a gyda disgwyliadau â ffocws o ran cyflawni canlyniadau penodol.

3.3 Yn ogystal â chynnal prosiectau gan y Cyngor yn unig, mae'r Cyngor Sir hefyd wedi cyfrannu at ddull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â rhai prosiectau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth. Bydd yr astudiaethau achos yn yr Atodiad yn rhoi blas o'r amrywiaeth o brosiectau a gynhaliwyd a'r canlyniadau disgwyliedig mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth.

## 4.0 Adroddiad Gweithredu

4.1 Nodwyd chwe amcan sy'n ymwneud â'r Cynllun Gweithredu Adferiad Natur yn y Cynllun Gweithredu o fewn y Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol ac mae diwedd y cyfnod adrodd cyntaf yn amser priodol i asesu i ba raddau y cyflawnwyd nhw. Bydd y cynnydd a nodir yn sail ar gyfer adolygu'r Cynllun, yn gyfle i ddiweddaru amcanion presennol a gosod amcanion newydd a chysoni'r amcanion hynny i gynlluniau eraill a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir, yn bennaf Cynllun y Cyngor, y Cynllun Tuag at Sero Net a chynlluniau gwasanaeth unigol.

4.2 Neilltuodd y Cynllun Bioamrywiaeth sawl cam ar gyfer pob un o'r chwe amcan a rhestrodd y rhain ar ffurf tabl gyda phob cam gweithredu wedi'i neilltuo i swyddog arweiniol a/neu Wasanaeth penodol. Roedd mesurau perfformiad a chanlyniadau disgwyliedig hefyd ynghlwm wrth bob cam gweithredu. Yn hytrach nag adolygu pob cam gweithredu o fewn corff yr adroddiad, nodir yn Atodiad 2 o'r adroddiad y cynnydd a wnaed i gyflawni'r camau gweithredu a gweithio tuag at gyflawni'r amcanion cyffredinol. Pan nad yw disgwyliadau'n cael eu bodloni, gwneir argymhellion ynghylch sut y dylid ymdrin â'r rhain.

4.3 Yn gyffredinol, gall yr adroddiad hwn ddod i'r casgliad bod llawer o'r camau a restrir yn y Cynllun Gweithredu wedi cael eu cyflawni'n llawn neu'n rhannol gan gyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion. Fodd bynnag, mae rhai camau allweddol yn parhau i gael sylw, ac mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r argymhellion sydd i ddilyn.

## 5.0 (Casgliadau) Adolygu Dyletswydd Adran 6

5.1 Mae'r ddyletswydd Adran 6 yn gosod gofyniad penodol ar Awdurdodau Cyhoeddus i gynnal neu wella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Drwy fabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth mae'r Cyngor Sir wedi cydnabod camau perthnasol a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r ddyletswydd.

5.2 Yn gyffredinol, ystyrir bod y Cyngor Sir yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn hyn o beth i gynnal a gwella bioamrywiaeth drwy:

a) Baratoi a mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth sy'n gosod camau clir sy'n cynnig sail ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth;
b) Alinio'r Cynllun gyda chynlluniau/polisïau eraill y Cyngor gan osgoi meysydd gwrthdaro posibl o ran bodloni amcanion a osodwyd e.e. Cynllun Sero Net;
c) Adnabod ffyrdd o newid arferion gweithio a fydd yn elwa bioamrywiaeth yn ogystal ag arwain at arbedion costau/effeithlonrwydd ar gyfer yr Awdurdod;
d) Sefydlu cysylltiadau gweithio cryf gyda phartneriaid allanol a cheisio'r ffrydiau ariannu priodol (yn bennaf drwy'r LNP, ond hefyd drwy gydweithio ag asiantaethau eraill) er mwyn cyflwyno prosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio ar gynnal neu wella bioamrywiaeth;
e) Rheoli safleoedd natur lleol er mwyn datblygu bioamrywiaeth;
f) Mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol sy'n effeithio'n negyddol ar ein rhywogaethau brodorol;
g) Adfer a/neu greu cynefin newydd fel ffordd o wella'r amrywiaeth o rywogaethau sy'n gallu byw mewn ardaloedd o'r fath;
h) Lle bo'n bosibl, mynd i'r afael â bygythiadau i fioamrywiaeth leol;
i) Gweithio gyda sefydliadau addysgiadol a diwylliannol i annog diddordeb mewn bioamrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o gael amgylchedd sydd â mwy o fioamrywiaeth;
j) Annog gwirfoddoli o fewn mentrau sy'n seiliedig ar natur; a
k) Sicrhau bod cynigion datblygu yn cynnig gwelliannau o ran bioamrywiaeth.

5.3 Dylid amcanu i ddatblygu ar y cryfderau hyn, gan sicrhau bod Dyletswydd Adran 6 yn cael ei chyflawni'n effeithiol gan y Cyngor Sir.

5.4 Mae'r Cyngor Sir wedi profi ei fod yn bartner cryf o ran cyflwyno amrywiaeth eang o brosiectau'n ymwneud â bioamrywiaeth. Mae hyn yn gosod meincnod ar gyfer cynnal

perfformiad yn ogystal â chanolbwyntio ar yr amcan o gynnig buddion i fioamrywiaeth a mynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng natur a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2021.

5.5 Mae diwedd y cyfnod adrodd cyntaf ar gyfer y Cynllun Bioamrywiaeth yn rhoi cyfle i adolygu cynnwys y Cynllun ac ystyried a yw'r camau a osodwyd ar y dechrau i fodloni'r chwe amcan NRAP yn dal yn berthnasol, a ellir cael gwared ar rai wrth eu cwblhau neu a oes angen newid camau er mwyn bodloni heriau sy'n newid, neu heriau newydd.

## 6.0 Argymhellion ar gyfer y dyfodol

6.1 Er bod y Cyngor Sir o'r farn ei fod yn bodloni dyletswydd adran 6 yn effeithiol, mae'n cydnabod fod sawl cam a nodwyd yn y Cynllun Bioamrywiaeth angen eu bodloni. Mae'r rhain wedi'u nodi isod, a byddant yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau y dylid ymdrin â nhw yn ystod y cyfnod yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

| **Argymhelliad 1: Grŵp Traws-wasanaeth** |
|---|
| Ffurfio grŵp o swyddogion traws-wasanaeth i sicrhau bod y gwaith o gynnal neu wella bioamrywiaeth yn parhau'n ystyriaeth wrth ffurfio'r rhaglenni gwaith a'r gweithgareddau. Bydd pob gwasanaeth yn penodi swyddogion priodol i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd grŵp rheolaidd. |
| **Rheswm:** Mae cynnal trafodaethau'n hanfodol er mwyn gallu parhau i gyflawni Dyletswydd adran 6 yn effeithiol. Mae'n bwysig gweithio'n agosach ar draws y gwasanaethau i'r perwyl hwn.. |
| **Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu:** 1.5, 3.1, 6.1, 6.4 |

| **Argymhelliad 2: Strwythur Monitro Bioamrywiaeth ac Adrodd** |
|---|
| Sefydlu strwythur adrodd ffurfiol o fewn pob gwasanaeth ynghylch y camau i gynnal neu wella bioamrywiaeth. |
| **Rheswm:** Gall diffyg data sylfaenol, sy'n ein galluogi i fesur llwyddiant camau penodol, effeithio ar asesu cyfraniad y camau hynny tuag at wella bioamrywiaeth. Dylid cyflwyno'r data a gasglwyd i ffurfio'r adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu:** 1.4, 6.1 |

| **Argymhelliad 3: Archwilio Bioamrywiaeth ac Adolygu Dogfennau Polisi** |
|---|
| Gwneud archwiliad bioamrywiaeth o adeiladau a thirddaliadaeth y Cyngor, ac asesu cynlluniau corfforaethol/gwasanaeth a dogfennau polisi perthnasol i sefydlu graddfa'r ystyriaeth ar gyfer yr ymdriniaeth â bioamrywiaeth mewn perthynas â darparu elfennau gweithredol o'r gwasanaeth. |
| **Rheswm:** Deall yr amrywiaeth o fioamrywiaeth sydd o ddiddordeb sy'n bresennol ar ystâd y Cyngor, a darparu sylfaen data ar gyfer asesu effeithiolrwydd y camau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Bioamrywiaeth. Sicrhau bod dogfennau polisi perthnasol yn cynnwys cyfeiriad at y Ddyletswydd mewn perthynas â chynnal neu wella bioamrywiaeth. |
| **Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu:** 1.1, 1.6, 1.7, 3.2, 5.3, 5.4 |

| **Argymhelliad 4: Adnoddau Staff ac Adnoddau Ariannol** |
|---|
| Manteisio ar gyfleoedd cyllid refeniw i wella capasiti i ddelio â materion sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth o fewn y Cyngor Sir yn ogystal â gwella cyfleoedd cyllid refeniw i sicrhau arian digidol i ymgymryd â rhaglenni newydd a rhai presennol. |
| **Rheswm:** Angen sicrhau capasiti digonol er mwyn delio â materion yn ymwneud â bioamrywiaeth o fewn y gwasanaethau (e.e. cyllid refeniw LNP i gryfhau'r tîm |

| |
|---|
| LNP) wrth geisio cyllid er mwyn ariannu prosiectau a mentrau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a fydd yn sicrhau bod y Cyngor Sir yn gallu dangos cynnydd wrth fynd i'r afael â'r ddyletswydd bioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth, a'i fuddion o safbwynt ymateb i newid hinsawdd a'r agenda sero net. |
| **Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu:** 1.2, 3.9, 6.3 |

| **Argymhelliad 5: Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cofnod** |
|---|
| Cytuno ar y CLG gyda Cofnod (LERC ar gyfer gogledd Cymru). |
| **Rheswm:** Sicrhau mynediad at ddata ecolegol a ellir ei ddefnyddio i arwain prosiectau a gweithgareddau eraill lle all effeithiau bioamrywiaeth godi, a lle bydd angen lliniaru o bosib. |
| **Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu:** 2.1, 3.1 |

| **Argymhelliad 6: Cydweithio** |
|---|
| Ceisio cyfleoedd i gydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn cyflwyno prosiectau mwy a all gynnig buddion eang i fioamrywiaeth. |
| **Rheswm:** Cyflwyno gwelliannau bioamrywiaeth ar raddfa fwy |
| **Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu:** 3.5, 3.8, 3.9, 6.3 |

| **Argymhelliad 7: Hyfforddiant** |
|---|
| Cynnig hyfforddiant priodol ar faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth i swyddogion ac aelodau etholedig perthnasol. |
| **Rheswm:** Mae'n rhaid ymdrin â'r diffyg dealltwriaeth o Ddyletswydd Adran 6 er mwyn sicrhau bod gofynion y ddyletswydd yn cael eu rhoi ar waith ym mhob maes perthnasol. |
| **Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu:** 5.2, 6.2 |

**ADRODDIAD DYLETSWYDD AR FIOAMRYWIAETH A CHADERNID ECOSYSTEMAU 2022**

**ASTUDIAETHAU ACHOS**

| **Astudiaeth Achos 1: Plannu a thirlunio** | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Pencadlys Glas – gwella bioamrywiaeth ar dir swyddfa'r Cyngor Sir |
| **Cyfnod y Prosiect:** | Haf/Hydref |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **Ffynhonnell Gyllido:** | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Glasu'r Stad Gyhoeddus |
| **Dyraniad Grant:** | £25,000 |
| | |

Pwrpas y prosiect oedd cyflwyno mesurau i wella bioamrywiaeth ar dir o amgylch prif Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn a'r llyfrgell yn Llangefni.

Er bod nifer sylweddol o goed yn yr ardal hon lle cynhelir amrywiaeth o rywogaethau, yn blanhigion a chreaduriaid, braidd yn dameidiog oeddynt a'r teimlad oedd y gellid gwella'r sefyllfa i greu cynefin gwell, cyfoethocach ar gyfer bioamrywiaeth. Ystyriwyd bod troi ardaloedd o'r glaswelltir yn ddolydd blodau gwyllt yn arbennig o bwysig i gynnal pryfed peillio. Gallai rhywogaethau nodedig a ystyriwyd ac a welwyd ar y safle elwa yn sgil gwaith gwella'r cynefin; yn eu plith glas y dorlan, y wiwer goch a'r dyfrgi.

PRIF AMCANION

- Gwella ardaloedd o gynefin trwy gynyddu nifer y coed, gwella gwrychoedd sydd eisoes yno a phlannu rhai newydd i leihau'r mannau tameidiog.
- Plannu rhywogaethau brodorol sydd fwyaf buddiol i fywyd gwyllt. Bydd hyn yn sicrhau bwyd a lloches trwy gydol y flwyddyn.
- Sicrhau bod y gwaith yn ddymunol i'r llygad ac yn hawdd cael ato. Dengys tystiolaeth y gall amgylchedd ffyniannus, llawn bywyd gwyllt fod o fudd i iechyd corfforol a meddyliol pobl

Ardal 1
Plannu pedair coeden (1.75 - 2 fetr) sy'n tyfu'n gymharol fach (megis coed bedw, criafol neu grabas) ar y llethr serth y tu ôl i brif adeilad swyddfa'r cyngor i gydymffurfio â choed sy'n cael eu plannu ar gloddiau glaswelltog, serth eraill yn y cyffiniau. Bydd rhes o gwyrwiail coch (40 o blanhigion) hefyd yn cael eu plannu i greu gwrych newydd i gyd-fynd â gwrychoedd sydd eisoes yn yr ardal.

Ardal 2
Plannu 50m$^2$ o dywyrch blodau gwyllt ar dir moel a phlannu chwe choeden (1.75 -2 metr).

Ardal 3
Plannu tua thair (1.75 - 2 fetr) coeden sy'n tyfu'n gymharol fach, megis coed bedw, criafol neu grabas ar y glaswellt ar hyd ochr y ffordd, gan sicrhau na fydd y coed, wrth gael eu plannu, yn atal traffig sy'n defnyddio meysydd parcio'r cyngor rhag gweld. Mae'n bosib, hefyd, blannu tair coeden arall ar yr ymyl laswelltog gyfagos.

Ardal 4
Llenwi bylchau yn y gwrychoedd cwyrwiail coch sydd eisoes yno drwy blannu tua 20 o blanhigion (60cm). Plannu rhagor o wrychoedd cwyrwiail coch neu wrychoedd tebyg (30 o blanhigion) ar ddwy ochr y ffens, lle mae'r generadur.

Ardal 5
Llenwi bylchau yn y gwrychoedd ffawydd trwy blannu tua 20 o blanhigion (60cm). Plannu deg coeden (1.75 – 2 fetr) ar y boncen laswelltog o flaen gwrych ffawydd ac ar yr ymyl laswelltog y tu ôl i wrych ffawydd. Plannu llecynnau o flodau gwyllt (30m2) ar fannau glaswelltog ger mynedfa swyddfeydd y cyngor.

Ardal 6
Plannu 220m$^2$ o dywyrch blodau gwyllt rhwng y gwrychoedd ger prif adeilad swyddfa'r cyngor.

Ardal 7
Plannu 50m$^2$ o dywyrch blodau gwyllt ger y bont yn y maes parcio.

Ardal 8
Plannu 800m$^2$ o dywyrch blodau gwyllt a phlannu 30 o goed (1.75-2 metr) o rywogaethau brodorol cymysg ar y glaswellt rhwng y llyfrgell a swyddfeydd y cyngor. Bydd yn rhaid gwasgaru'r coed yn eang er mwyn cynnal arddull "parcdir" agored. Plannu 30 metr o goed cyll (40 planhigyn) i greu gwrych yn erbyn ffens y llyfrgell.

Ardal 9
Plannu 120m$^2$ o dywyrch blodau gwyllt o amgylch mynedfa'r llyfrgell ac ar laswellt uchel i lawr ochr yr adeilad ger y ffordd.

**Manylion cynhyrchion / rhywogaethau i'w defnyddio yn y prosiect.**

**TYWYRCH BLODAU GWYLLT – TIRLUN CYMYSGEDD O 34**

- Mae tywyrch yn cynnwys 34 o flodau gwyllt a gweiriau brodorol y DU, o leiaf 75% yn flodau gwyllt.
- Yn addas ar gyfer amrywiaeth o fathau pridd.
- Pob cais tirlunio o 30m$^2$ i 10,000m$^2$.
- Yn gallu goddef cysgod a sychder.
- Dim angen llawer o waith cynnal a chadw – un i ddau doriad y flwyddyn.

Ymhlith y rhywogaeth fwyaf toreithiog yn y cymysgedd mae:

| Enw Cyffredin | Enw Gwyddonol |
|---|---|
| Peradyl yr Hydref | *Scorzoneroides autumnalis* |
| Cribau San Ffraid | *Stachys officinalis* |
| Pysen y Ceirw | *Lotus corniculatus* |
| Llysiau'r Poer | *Silene vulgaris* |
| Melynydd | *Hypochaeris radicata* |
| Cramenog | *Centaurea nigra* |
| Suran | *Rumex acetosa* |
| Ffacbysen faethol | *Vicia sativa ssp. segetalis* |
| Llin y Llyfant | *Linaria vulgaris* |

**COED MAWR A DYFIR MEWN POTIAU (175-200CM)**

- Yr holl rywogaethau brodorol
- Bydd y maint mwy yn cael effaith uniongyrchol ar y safle

Ymhlith y rhywogaethau i'w hystyried (os ydynt ar gael) mae:

| Enw Cyffredin | Enw Gwyddonol |
|---|---|
| Derwen ddigoes | *Quercus petrea* |
| Gwernen | *Alnus glutinosa* |
| Celynnen | *Ilex aquifolium* |
| Bedwen Arian | *Betula pendula* |
| Criafolen | *Sorbus acuparia* |
| Criafolen wen | *Sorbus aria* |
| Surianen ddu | *Prunus avium* |
| Pisgwydden deilen fach | *Tilia cordata* |
| Ywen | *Taxus baccata* |
| Pinwydden | *Pinus sylvestris* |
| Masarnen Fach | *Acer campestre* |

**COED LLAI A DYFIR MEWN CELLOEDD (60CM)**

- Yr holl rywogaethau brodorol
- Bydd y rhai llai yn cael eu defnyddio i gau i mewn yn bennaf

Ymhlith y rhywogaethau i'w hystyried (os ydynt ar gael) mae:

| Enw Cyffredin | Enw Gwyddonol |
|---|---|
| Collen | *Corylus avellana* |
| Cwyrwialen goch | *Cornus alba* |
| Ffawydden | *Fagus sylvatica* |

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Rhoddwyd y cynllun ar waith ym mis Medi 2019. Methodd un goeden a bydd yn rhaid cael un arall yn ei lle er nad yw ei lleoliad yn cael effaith ar brif ran y cynllun, sef o amgylch prif faes parcio'r swyddfa. Mae'r planhigion a ddefnyddiwyd i gau'r bylchau yn y gwrych cwyrwiail coch i gyd wedi cymryd a byddant yn cyflawni eu pwrpas yn weddol brydlon.<br><br>Eginodd y dolydd blodau gwyllt yn llwyddiannus ac maent wedi esgor ar olygfeydd trawiadol o flodau gwyllt dros y ddau haf diwethaf, gan sicrhau golygfa ddeniadol i'r rhai sy'n dod i mewn i safle'r cyngor. Y bwriad yw cynyddu'r arwynebedd lle plennir blodau gwyllt ar dir ger y Llyfrgell Gyhoeddus. Mae'r ardal hon yn cynnwys tir ar lethr serth ac arno laswellt wedi'i dorri. Bydd llwybrau, lle bydd y gwair wedi'i dorri, ar hyd y llecynnau o flodau gwyllt ac yn ei wneud yn amgylchedd dymunol i'r cyhoedd ac aelodau'r staff gerdded drwyddo. Y bwriad, hefyd, yw gosod meinciau/byrddau picnic yn yr ardal hon fel bod modd i aelodau'r staff gymryd eu hegwyl mewn amgylchedd dymunol, yn enwedig yn ystod y gwanwyn a'r haf. |

| Astudiaeth Achos 2: Rheoli Ymylon | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Polisi Torri Ymylon Ffyrdd |
| **Cyfnod y Prosiect:** | Parhaus |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cyngor Sir Ynys Môn (Gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) |
| **Ffynhonnell Gyllido:** | Cyllideb y gwasanaeth |
| **Dyraniad Grant:** | Amherthnasol |
| | |

Mae polisi torri gwair presennol y Cyngor Sir yn nodi bod ymylon ffyrdd Dosbarth I a II yn cael eu torri deirgwaith yn ystod y tymor tra bod ymylon ffyrdd Dosbarth III a ffyrdd di-ddosbarth yn cael eu torri ddwywaith. Mae nifer y toriadau ar ffyrdd gwledig wedi gostwng ers 2010 o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol ond, hefyd, gyda golwg ar annog blodau gwyllt i dyfu a sefydlu cynefin hanfodol i fywyd gwyllt ar rwydwaith ffyrdd yr Ynys.

Caiff ymylon ffyrdd eu torri’n bennaf er mwyn diogelu defnyddwyr y ffyrdd. Heb waith rheoli a chynnal a chadw gofalus, byddai ymylon yn gordyfu a mieri a phrysglwyni’n cymryd drosodd a byddai eu gwerth bioamrywiaeth yn lleihau o’r herwydd. Mae rheoli ymylon ffyrdd gwledig yn rheolaidd yn helpu i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau ac yn atal rhywogaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, megis gweiriau, rhag ‘’mygu’’ blodau gwyllt.

Mae ymylon ffyrdd Dosbarth III a IV yn cael eu torri ddwywaith y flwyddyn gyda'r toriad cyntaf, fel arfer, yn dechrau ar ddechrau'r haf gyda'r ail doriad yn cael ei wneud yn gynnar yn yr hydref. Yn ystod y ddau gylch, dim ond llain 1m sy'n cael ei dorri ar bob ffordd o'r fath, yn enwedig ar briffyrdd lle ceir cyfoeth o rywogaethau.

Nid oes llawer o werth cynefin i'r metr cyntaf yn ôl o ymyl y ffordd gerbydau o ystyried pa mor agos ydynt at y ffyrdd y mae cerbydau'n teithio arnynt. Mae'r trydydd cylch yn doriad llawn ac yn digwydd ar ddiwedd cylch bywyd y blodau a phan fyddant wedi gosod eu had. O’r herwydd, mae golygfeydd trawiadol o flodau gwyllt i’w gweld ar y rhwydwaith priffyrdd ac mae’r rhain yn ffynhonnell gyfoethog o baill a neithdar i bryfed peillio drwy gydol misoedd y gwanwyn a’r haf.

Nid yn unig y mae'r rhaglen dau doriad yn ffrwyno twf glaswellt ac yn ailgyflenwi banc hadau’r blodau gwyllt, mae, hefyd, yn gwella diogelwch defnyddwyr ffyrdd, yn lleihau'r baich rheoli dros amser ac yn arbed arian.

Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (yr Ymddiriedolaeth) mewn perthynas â'r gwaith hwn ac wedi llunio cynllun penodol sy'n gwarchod bywyd gwyllt mewn ardaloedd penodol. Mae’r Ymddiriedolaeth yn llwyr gefnogi polisi presennol y Cyngor Sir o dorri glaswellt ymylon priffyrdd. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi bod yn cydweithio â’r Ymddiriedolaeth ers nifer o flynyddoedd i reoli 20 o lecynnau unigol o ymyl ffyrdd, yn benodol ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'r safleoedd dan sylw wedi eu marcio ar y briffordd gyda thriongl gwyn ac, ar rai ymylon, mae'r glaswellt sy'n cael ei dorri'n cael ei symud o'r safle yn ystod y gaeaf er mwyn atal blodau gwyllt rhag gwasgaru yn y tymor dilynol.

Amcangyfrifir bod gweithredu'r polisi wedi sicrhau arbedion o tua £7,000 y flwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Yn sgil gweithredu’r polisi hwn gwelwyd yn sicr gynnydd mewn blodau gwyllt ar ymylon priffyrdd ac mae hyn wedi bod yn allweddol yn nhwf cynefinoedd bywyd gwyllt, yn enwedig i beillwyr. Mae’n bolisi sydd wedi llwyddo i gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig, nid yn unig o ran cyflawni arbedion cost/effeithlonrwydd ond, hefyd, o ran gwella’r amodau i fioamrywiaeth ffynnu. |

| Astudiaeth Achos 3: Creu/Adfer Cynefin | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Adfer Cynefin Clegir Mawr |
| **Cyfnod y Prosiect:** | Haf 2021 gyda gwaith rheoli ac ôl-ofal parhaus |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cydweithrediad y Cyngor Sir (Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Chynllunio) a Chyfoeth Naturiol Cymru |
| **Ffynhonnell Gyllido:** | Cronfa Her Prosiect y Tirlun a Natur (Clegir Mawr) |
| **Dyraniad Grant:** | £167,000 yn ogystal â £32,050 ychwanegol ar gyfer gwaith gwella |

Ariannodd y grant waith adfer byd natur ar gyfanswm o 133 erw o dir ac roedd y prosiect yn seiliedig ar y prosiect arddangos blaenllaw ar safle tirlenwi Penhesgyn ar Ynys Môn a'r ddau safle tirlenwi, Ffridd Rasus a Llwyn Isaf, yng Ngwynedd.

Roedd yr ased cyfalaf a grëwyd yn cynnwys 10 erw o reoli dolydd blodau gwyllt a 10 erw o gynefin coetir brith (plannu coed) ac yn cynyddu cysylltedd a maint y tirlun. Cyfunwyd hyn â gwaith adfer ecosystem pridd, creu llanerchau a phyllau/gwalau i annog mwy o amffibiaid, pryfed a mamaliaid brodorol, megis Llygod y Dŵr. Mae'r cynllun yn gwneud y mwyaf o'r cynnydd mewn bioamrywiaeth trwy greu cynefinoedd brith, annog cynefin cyfoethog ac amrywiol ar y cyrion, cynyddu faint o ddŵr gaiff ei storio a charbon ei ddal ar y safle, yn ogystal â chynyddu bioamrywiaeth.

Mae'r contractwyr a ariannwyd trwy'r grant i blannu tua **10,000** o goed a llwyni, yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (sy'n statudol ar gyfer pob cynllun plannu mawr), dolydd blodau gwyllt, rheoli, gan gynnwys peiriannau ar gyfer rheoli dolydd a chynaeafu hadau, a seilwaith ar gyfer rheoli stoc ar gyfer arferion pori cynaliadwy. Roedd angen arolygon gan Ymgynghorwyr Ecolegol hefyd i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol cywir ar gyfer y safle a mesur llwyddiant ar ddiwedd y rhaglen.

Roedd y prosiect hwn yn ddilyniant o brosiect arddangos blaenllaw tebyg /cyntaf i Gymru gyda'r Cyngor Sir yn Safle Tirlenwi Caeedig Penhesgyn. Mae hyd at **10,000** o goed a llwyni wedi'u plannu, mae gwrychoedd a ffiniau wedi'u hehangu a'u hadfer, ecosystemau carbon a phridd wedi'u gwella, dŵr wedi'i storio a'i buro, pyllau wedi'u ffurfio a bioamrywiaeth wedi'i gwella, ymhlith llawer o ganlyniadau eraill. O ystyried y prosiect blaenllaw a roddwyd ar waith yn Safle Tirlenwi Penhesgyn, roedd yn hysbys bod y dull yn gweithio. Mae'r prosiect wedi ehangu'r fenter lwyddiannus hon ac mae'n dangos bod y dull hwn bellach yn dempled posibl ar gyfer creu cynefinoedd a chysylltedd ar draws Cymru gyfan, gan fod safleoedd tirlenwi yn hollbresennol yn y tirlun. Ymgysylltwyd â sawl partner ar draws y trydydd sector ac â phrifysgolion, awdurdodau lleol, gwleidyddion a Chyfoeth Naturiol Cymru gan greu templed ar gyfer creu cynefinoedd helaeth ar safleoedd tir llwyd ac ar laswelltir cysylltiedig wedi'i wella ledled Cymru.

Ariannodd y grant fynediad i'r safle fel bod modd creu pyllau a gwalau, i brysgwydd ymledu, rheoli dolydd a phori stoc. Cafodd brigiad creigiog, sy'n bwysig oherwydd ei gynefin botanegol sensitif, ei warchod gan ffensys fel na fyddid yn sathru arno a chafwyd llwyfan i bobl sefyll arno.

Targedwyd 'mesurau cymedrol' y Prif Weinidog yn rhan o'r cynnig hwn. Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd, cynyddu maint a hyd dolydd blodau gwyllt a chynyddu'r gallu i gynaeafu a dosbarthu blodau gwyllt a hadau coed trwy *Plantlife* a grwpiau cymunedol. Llwyddwyd i ddal carbon a storio pridd trwy sefydlu cynefin brith, llawn carbon ar draws 133 erw ar y safle. Datblygwyd nifer o ecosystemau trwy reoli amodau oedd eisoes yno. Yn ogystal, plannwyd hyd at **10,000** o goed newydd brodorol. Mae'r cynefin brith hwn sydd wedi'i ddatblygu ac sy'n cynnwys cynefin ymylol helaeth, yn gwella gwerth bioamrywiaeth y safle tirlenwi caeedig. Trwy greu'r ardal hon, mae wedi cynyddu cysylltedd rhwng cynefinoedd tebyg sydd eisoes yn yr ardal a chynyddu bioamrywiaeth.

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Mae'r gwaith a wnaed wedi creu cynefin brith, ffafriol, newydd ac wedi'i adfer er mwyn cael cynefin mwy amrywiol ac mae'r gwaith a wnaed wedi cyflawni'r briff yn hyn o beth.<br><br>Mae Arolwg Sylfaenol o Fioamrywiaeth a baratowyd ar gyfer y safle yn rhoi syniad o ble i dargedu gwaith rheoli a sut olwg y gallai fod ar fwy o fioamrywiaeth. Cofnododd yr arolwg cychwynnol **145** rhywogaeth o blanhigion (wedi codi i **166** yn dilyn ail arolwg), **28** rhywogaeth o adar (gan gynnwys **8** rhywogaeth arwyddocaol) a **67** rhywogaeth o wyfynod a gloÿnnod byw (gan gynnwys dwy rywogaeth o loÿnnod byw arwyddocaol a phedair rhywogaeth o wyfynod a7).<br><br>Bydd gwaith rheoli yn y dyfodol yn canolbwyntio ar bori cadwraethol i reoli gweiriau a sicrhau amodau mwy ffafriol i rywogaethau o flodau gwyllt ffynnu. Bydd mesurau ôl-ofal priodol yn cael eu defnyddio gyda'r coed a blannwyd, gyda choed marw neu sydd yn marw yn cael eu disodli gan goed o faint a rhywogaeth debyg.<br><br>Bydd arolygon ecolegol dilynol yn sicrhau bod modd asesu llwyddiant y prosiect trwy ddangos newidiadau i niferoedd rhywogaethau a nifer yr achosion o rywogaethau newydd.<br><br>Bydd y safle hefyd ar gael i'w ddefnyddio fel adnodd addysgol/hyfforddiant i ysgolion a cholegau lleol. |

| Astudiaeth Achos 4: Rhywogaeth Oresgynnol | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Rheoli Jac y Neidiwr |
| **Cyfnod y Prosiect:** | 2022-24 |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cyngor Sir Ynys Môn (Uned Cefn Gwlad ac AHNE) |
| **Ffynhonnell Gyllido:** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Dyraniad Grant:** | Oddeutu £40 mil |
| | |
| Mae prosiect Rhywogaethau Goresgynnol AHNE Ynys Môn yn gweithio ar hyd dalgylchoedd afonydd Ynys Môn i reoli Jac y Neidiwr. Mae Partneriaeth Jac y Neidiwr Ynys Môn yn datblygu rhaglen waith gan dargedu Jac y Neidiwr yn ei darddiad o fewn dalgylchoedd yr Ynys gyda chymorth gwirfoddolwyr, contractwyr a thirfeddianwyr / deiliaid. Mae grwpiau cymunedol ac ysgolion yn cymryd rhan yn y prosiect hefyd i godi ymwybyddiaeth a magu dealltwriaeth.<br><br>Roedd modd i'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r prosiect hwn barhau trwy gyfnod Covid-19 er ei fod yn dibynnu'n llwyr ar ddefnyddio contractwyr oherwydd y cyfyngiadau oedd ar waith. Nid oedd y prosiect yn defnyddio gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod pan oedd cyfyngiadau Covid mewn grym. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n rhaid i gontractwyr oedd yn gwneud y gwaith addasu a glynu wrth gyfyngiadau Covid-19 oedd yn gofyn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol (PPE), cwblhau asesiadau risg Covid-19 a chadw at reolau cadw pellter cymdeithasol.<br><br>Yn ystod 2022, rhoddodd y contractwyr flaenoriaeth i reoli Jac y Neidiwr ar yr un safleoedd â blynyddoedd cynt er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth geisio mynd i'r afael â'r broblem mewn safleoedd newydd hefyd. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Llai o achosion o Jac y Neidiwr yn yr ardaloedd yr oedd y prosiect ar waith ynddynt.<br><br>O ran gwaith rheoli yn y dyfodol, byddir yn ailafael mewn llafur gwirfoddol. Er mai 2024 yw'r terfyn amser o ran y cyllid presennol, y disgwyl yw y bydd cyfraniad gwirfoddolwyr yn parhau y tu hwnt i'r pwynt hwn. |

| Astudiaeth Achos 5: Rhywogaethau Goresgynnol | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Prosiect Bioamrywiaeth afonydd y Fenai |
| **Cyfnod y Prosiect:** | Ionawr 2019 – hyd heddiw |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Menter Môn/ Cygor Sir Ynys Môn (Uned Cefn Gwlad ac AHNE) |
| **Ffynhonnell Gyllido:** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **Dyraniad Grant:** | £10,750 |
| | |
| Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei arwain gan fioamrywiaeth, yn ymestyn dros bymtheg o wahanol ddalgylchoedd afonydd yn Ynys Môn a Gwynedd ac fe'i gweithredir mewn ymateb i fygythiad y Minc Americanaidd ar fioamrywiaeth leol. Heb ymyrraeth, fe allai'r problemau ysglyfaethu a achosir gan y minc arwain at leihad sylweddol yn niferoedd llygoden y dŵr, sy'n **rhywogaeth a7** ac, yn y pen draw, at ei difodiant.<br><br>Mae'r gwaith yn cynnwys lleoli cyfuniad o rafftiau monitro a chamerâu llwybr a ddefnyddir i fonitro darnau penodol o'r afon i ganfod a oes mincod yno. Mae'r prosiect yn ymwneud â gweithio gyda chymunedau ac mae wedi arwain at sefydlu rhwydwaith o Warchodwyr Afonydd, grŵp o wirfoddolwyr sy'n gyfrifol am gynnal rhaglen o fonitro, ymgysylltu a rheoli i sicrhau bod Ynys Môn yn parhau i fod yn lloches i rywogaethau a warchodir. Yn ogystal â hyn, mae'r prosiect yn trefnu teithiau cerdded tywys, sgyrsiau, diwrnodau arolwg a digwyddiadau hyfforddi i wirfoddolwyr.<br><br>O ran allbynnau, mae'r prosiect wedi creu **tair** swydd - un swydd lawn amser a'r ddwy arall yn rhan amser. Mae'r gwaith yn golygu monitro **76** o rafftiau minc yn barhaus ar draws **15** o wahanol safleoedd a dalgylchoedd afonydd. Cynhaliwyd dau arolwg o lygod y dŵr.<br><br>Ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ceir diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau a chynnydd y prosiect a'r disgwyl yw y bydd hyn yn dwyn y cyhoedd i mewn ac yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n cael effaith ar fywyd gwyllt glannau afonydd. Mae'r prosiect wedi creu dros **400** o ddilynwyr ar ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Sefydlu rhaglen fonitro; dwyn i mewn gwirfoddolwyr lleol; rheoli niferoedd y mincod a sicrhau amgylchedd mwy diogel i rywogaethau gwarchodedig ffynnu a thyfu.<br><br>Mae'n bwysig bod partneriaid yn parhau i gydweithio ar y prosiect hwn. |

| Astudiaeth Achos 6: Addysgol a Diwylliannol | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Y Chwiorydd Massey (Oriel Môn) |
| **Cyfnod y Prosiect:** | Haf 2021 gyda gwaith rheoli ac ôl-ofal parhaus |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cyngor Sir Ynys Môn (Gwasanaeth Dysgu) |
| **Ffynhonnell Gyllido:** | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (Glasu'r Stad Gyhoeddus) |
| **Dyraniad Grant:** | £24,900 |
| | |
| Mae'r prosiect yn cynnwys sefydlu dôl blodau gwyllt a chreu pwll ar gyfer cynefinoedd. Ochr yn ochr â sefydlu'r ddôl, ceir darpariaeth dehongli i amlygu gwaith y Chwiorydd Massey.<br><br>Roedd y chwiorydd yn hanu o Langoed ac yn fotanegwyr ac artistiaid gyda dawn hynod i wneud astudiaethau botanegol manwl ac eithriadol er nad oeddynt wedi cael fawr ddim hyfforddiant! Paentiadau dyfrlliw oeddynt a gwyddys bod mwy na 500 o astudiaethau, gydag enwau'r rhywogaethau yn Gymraeg, Saesneg a Lladin. Prynwyd y casgliad o baentiadau dyfrlliw gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn mewn arwerthiant am £2,000 yn 1982 a chânt eu cadw a'u harddangos yn yr Oriel.<br><br>Mae'r byrddau dehongli'n canolbwyntio ar golli dolydd blodau gwyllt o'r tirlun oherwydd arferion amaethyddol modern ac yn ymgorffori paentiadau'r Chwiorydd Massey.<br><br>Caiff y planhigion a ddarlunnir ar y byrddau dehongli eu disgrifio yn Gymraeg a Saesneg ac maent ymhlith y blodau gwyllt sydd i'w gweld yn y ddôl. Mae'r cysylltiad rhwng y chwiorydd a'r ddôl yn amlwg a gall ymwelwyr â'r Oriel ei werthfawrogi ymhellach drwy edrych ar eitemau o gasgliad yr arddangosfa y tu mewn i'r adeilad. Bydd y ddôl, unwaith y bydd yn ei blodau, hefyd yn lleoliad sy'n ddymunol i'r llygad yn yr Oriel.<br><br>Bydd y pwll yn gynefin i nifer o rywogaethau yn ogystal ag yn nodwedd ddeniadol yn lleoliad cyffredinol yr Oriel. Bydd rhywogaethau gwlyptir yn cael eu plannu ar ymylon y pwll a bydd llwyfan trochi yn ased addysgol, i'w ddefnyddio gan ysgolion lleol. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Mae'r prosiect yn ceisio tynnu sylw at golli dolydd blodau gwyllt dros amser ac yn esbonio sut y gall eu hailsefydlu greu mwy o amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n byw ynddynt. Mae hyn yn arbennig o wir am bryfed peillio. Bydd y pwll yn gynefin i ragor o rywogaethau yn ogystal â bod yn ased addysgol i ysgolion lleol.<br><br>Bydd gwaith rheoli yn y dyfodol yn golygu cynnal arferion torri gwair priodol mewn perthynas â'r ddôl, fel y gall y blodau gwyllt sefydlu a ffynnu. |

| Astudiaeth Achos 7: Sefydlu/Atgyfnerthu Rhywogaethau | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Achub ein Gwiwerod (Saving Our Squirrels) |
| **Cyfnod y Prosiect:** | 2021-22 |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru |
| **Ffynhonnell Gyllido:** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **Dyraniad Grant:** | £9720 |
| | |

Mae'r prosiect wedi gwarchod y wiwer goch rhag bygythiad y wiwer lwyd oresgynnol anfrodorol sy'n croesi'r Fenai o Wynedd i Ynys Môn. Mae wedi golygu gweithio gyda phobl leol, gan gynnwys y rhai sydd ar hyn o bryd yn rheoli 235 o orsafoedd bwydo'r wiwer goch yn wirfoddol ac sydd, gyda'i gilydd, yn 'rhwydwaith rhybuddio a chanfod yn gynnar ar yr ynys' i ganfod clefyd mewn gwiwerod a chanfod y wiwer lwyd. Mae'r prosiect wedi codi ymwybyddiaeth o effaith rhywogaethau goresgynnol.

Cyflogwyd contractwr (Ceidwad Gwiwerod Coch) i gydlynu gwirfoddolwyr a rheoli'r wiwer lwyd yn yr AHNE, gan gynnwys coetiroedd ar ochr Gwynedd i Afon Menai, lle maent yn bygwth ailboblogi ar Ynys Môn.

Cyfrannodd y prosiect at warchod 80% o wiwerod coch Cymru trwy atal ymlediad y wiwer lwyd i Ynys Môn a'i dal yn fyw, ei maglu a'i hanfon ar hyd Afon Menai ar dir mawr Gwynedd. Ers 2017 bu tri achos o frech y wiwer ac mae prosiectau a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru wedi llwyddo i atal yr haint rhag lledaenu o'r tir mawr i'r ynys.

Dros gyfnod y prosiect hwn, anfonwyd 72 o wiwerod llwyd ar draws Treborth, Faenol a Nantporth. Ni chanfuwyd yr un wiwer lwyd ar yr ynys. Parhaodd gwaith cadw golwg ar glefydau'r wiwer goch ac roedd yn dibynnu ar bobl leol yn rhoi gwybod am anifeiliaid sâl. Daethpwyd o hyd i nifer o anifeiliaid â briwiau ar eu croen oedd yn awgrymu'r firws staphylococcus. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r briwiau wedi'u profi i fod yn firws brech y wiwer.

Wrth weithredu yn ystod cyfyngiadau Covid-19, bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a ddefnyddiai coetiroedd arfordirol y Faenol. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y prosiect anawsterau wrth i dri chamera bywyd gwyllt, goddefol, is-goch gael eu difrodi a'u dwyn. Ers hynny mae gwirfoddolwyr wedi cyfarfod â'r Ceidwad Gwiwerod Coch sydd wedi sicrhau lleoliadau addas a newydd ar gyfer monitro - lleoliadau lle ceir llai o ymwelwyr.

Rhannwyd newyddion rheolaidd am y prosiect ar ffrydiau cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r dudalen *Facebook* yn arbennig, yn boblogaidd iawn gyda'r gymuned leol, gyda llawer o bobl yn rhannu ffotograffau o'r wiwer goch yn eu gerddi neu mewn coetiroedd lleol, felly'n dangos y mwynhad y mae pobl yn ei gael o weld y rhywogaeth garismatig, eiconig hon.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi data i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n datblygu Papur Gwyn Amaethyddiaeth Newydd, sy'n cynnwys cyfreithiau newydd i ddiogelu cynefinoedd y wiwer goch yn well. Cyn bo hir bydd amodau, y gellir eu gorfodi i warchod neu wella bywyd gwyllt, yn cael eu cynnwys mewn trwyddedau torri coed yn ôl yr angen.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydweithio â nifer o sefydliadau (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Menter Môn) drwy roi cyngor ar reoli cynefinoedd a thir. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cysylltu â Dr Josh Twining a Dr Dave Tosh i ddysgu am eu profiad o wneud gwaith ymchwil ar fele'r coed yn Iwerddon. Ochr yn ochr â hyn , rhoesant ddata i brosiect modelu a gynhaliwyd gan Brifysgol Heriot Watt a ddangosodd, heb waith rheoli'r wiwer lwyd, y byddai'r

| | |
|---|---|
| wiwer lwyd yn gwladychu Ynys Môn yn gyflym. Pan fydd bele'r coed o gwmpas, mae'r gyfradd cytrefu'n lleihau a gallai wrthdroi lledaeniad y wiwer lwyd os yw cyfraddau ysglyfaethu ar y wiwer hon yn uchel. Mae pedwar bele'r coed wedi'u rhyddhau yn ardal Bangor a'r gobaith yw y byddant yn bridio. Gall bele'r coed ddal y wiwer lwyd gan leihau ei nifer a chynorthwyo i adfer niferoedd y wiwer goch. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Y canlyniad a ddisgwylir gyda'r prosiect hwn yw rheoli nifer yr y gwiwerod llwyd fel bod y wiwer goch, frodorol yn ffynnu. Mae disgwyl y bydd defnyddio bele'r coed i ysglyfaethu ar wiwerod llwyd mewn coetir ar ochr Gwynedd i'r Fenai yn rhwystro'r wiwer lwyd rhag dod draw i'r Ynys.<br><br>Mae defnyddio "gwyddoniaeth dinasyddion" yn ganolog i'r prosiect hwn ac mae cael trigolion lleol i gadw llygad a chofnodi achosion o ymlediad y wiwer lwyd ac adrodd arnynt i Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru yn allweddol i lwyddiant parhaus ailboblogi'r Ynys â'r wiwer goch. |

| Astudiaeth Achos 8: Gwirfoddoli | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Gwirfoddoli Gwyllt |
| **Cyfnod y Prosiect:** | Dwy flynedd |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| **Ffynhonell Gyllido:** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **Dyraniad Grant:** | £7,257 |
| | |
| Nod y prosiect yw gwella bywydau a rhagolygon pobl ifanc Gogledd Cymru drwy gryfhau eu cysylltiad â byd natur.<br><br>Mae'r prosiect yn gweithio gyda charfannau o bobl ifanc o ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid ac mae'n eu hannog i barhau i wirfoddoli gyda gwaith amgylcheddol cadarnhaol yn eu cymunedau a chyfrannu ato. Nod y prosiect hwn yw cefnogi pedair rhywogaeth allweddol ar Ynys Môn sydd mewn perygl a chodi ymwybyddiaeth ohonynt. Y rhain yw melyn yr eithin, y wennol, llygoden yr ŷd a'r fôr-wennol bigddu.<br><br>Mae'r prosiect wedi'i gyflwyno i bedair ysgol gynradd (cyfanswm o 146 o ddisgyblion) ac i un ysgol uwchradd (cyfanswm o 22 o ddisgyblion) a hyd yma mae wedi darparu:<br><br>• **11** o Deithiau Cerdded ar y Safle a Digwyddiadau a gynhaliwyd (**124** o ddisgyblion yno);<br>• Cynhaliwyd **pedair** sgwrs (**101** o ddisgyblion yno); a<br>• **Saith** Arolwg / Gweithdy (**26** o ddisgyblion yno);). | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Bydd y prosiect yn annog y rhai a gymerodd ran i barhau i wirfoddoli yn ogystal ag i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau sydd mewn perygl.<br><br>Byddir yn gwneud cais newydd am arian er mwyn i'r gwaith barhau. |

| Astudiaeth Achos 9: Rhoi Sylw i Newid Hinsawdd | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Meithrin Coed |
| **Cyfnod y Prosiect:** | 2022-25 |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cyngor Sir Ynys Môn (Uned Cefn Gwlad ac AHNE) |
| **Ffynhonell Gyllido:** | Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy |
| **Dyraniad Grant:** | £85 mil |
| | |
| Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â thyfu a phlannu coed i gynorthwyo Cynllun Ffermio Cynaliadwy, arfaethedig Llywodraeth Cymru, cynlluniau perthnasol eraill o fewn yr AHNE a chynyddu nifer y coed a blennir, gyda cholledion ar Ynys Môn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn cael eu priodoli i glefyd coed ynn.<br><br>Ynys Môn yw'r dirwedd â'r iseldir lleiaf coediog yng Nghymru.<br><br>Bydd dros 80% o'r coed a dyfir yn cael eu plannu yn yr AHNE gyda'r 20% sy'n weddill yn cael eu plannu ar dir cyfagos i'r AHNE i wella cysylltedd.<br><br>O ran rhedeg y feithrinfa, y disgwyl yw y bydd hyn ar fodel cydweithredol/partneriaeth, i'w sefydlu gydag aelodau perthnasol Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE a'r Bartneriaeth Natur Leol. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Bydd tyfu a phlannu coed yn cyfrannu at adfer natur, cysylltedd ac, yn y tymor hwy, yn lliniaru effeithiau newid hinsawdd trwy ddal a storio carbon. |
| | |
| | |

| Astudiaeth Achos 10: Adfer a Rheoli Cynefin | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Rhostir |
| **Cyfnod y Prosiect:** | 2022-25 |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cyngor Sir Ynys Môn (Uned Cefn Gwlad ac AHNE) a phartneriaid perthnasol |
| **Ffynhonell Gyllido:** | Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy |
| **Dyraniad Grant:** | £120,000 |
| | |
| Mae rhostir yr iseldir yn gynefin prin a gaiff ei flaenoriaethu ac sydd dan fygythiad. Mae Ynys Môn yn cynnal tua 900ha (data 2003) o rostir isel sy'n 1.3 % o arwynebedd tir cyfan yr ynys. Mewn cyd-destun cenedlaethol, mae Ynys Môn yn cyfrif am tua 12.5% o rostir iseldir Cymru (Strategaeth Rhostir Môn 2003).<br><br>Mae'r prosiect yn ymwneud â llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhostir ar gyfer AHNE Ynys Môn a bydd hefyd yn cynnwys diogelu a rheoli rhostir mewn ardaloedd blaenoriaeth uchel.<br><br>Cynhelir y prosiect ar y cyd â'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a'r Bartneriaeth Natur Leol. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhostir ar gyfer AHNE Ynys Môn fydd yn golygu bod angen adolygu Strategaeth Rhostir Ynys Môn 2003 a'i diweddaru.<br><br>Bydd gwaith rheoli yn y dyfodol yn golygu diogelu a rheoli rhostir mewn ardaloedd blaenoriaeth uchel ym mlynyddoedd 1-3 rhaglen gyllido Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy. |

| **Astudiaeth Achos 11: Adfer a Rheoli Cynefin** | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Dolydd Blodau Gwyllt |
| **Cyfnod y Prosiect:** | 22-25 |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Y Cygnor, AHNE a'u partneriaid |
| **Ffynhonell Gyllido:** | Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy |
| **Dyraniad Grant:** | £70 mil |
| | |
| Mae 97% o ddolydd blodau gwyllt y DU wedi'u colli ers y 1930au. Mae'r prosiect yn ymwneud â phlannu, diogelu a rheoli dolydd blodau gwyllt, a hynny er mwyn gweithio yn erbyn colli'n sylweddol ddolydd o'r fath; dolydd sy'n cynnal bioamrywiaeth bwysig, yn enwedig peillwyr.<br><br>Caiff y prosiect ei gyflwyno mewn partneriaeth â'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a'r Bartneriaeth Natur Leol. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Bydd y prosiect yn llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Dolydd Blodau Gwyllt ar gyfer AHNE Ynys Môn, yn ogystal ag yn ymgymryd â gwaith cadwraeth a rheoli dolydd blodau gwyllt mewn ardaloedd blaenoriaeth uchel ym mlynyddoedd 1-3 rhaglen gyllido Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy. |

| Astudiaeth Achos 12: Adfer a Rheoli Cynefin | |
|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | Afonydd Môn |
| **Cyfnod y Prosiect:** | 22-25 |
| **Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:** | Cyngor Sir Ynys Môn (Uned Cefn Gwlad ac AHNE) ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru |
| **Ffynhonell Gyllido:** | Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy |
| **Dyraniad Grant:** | £75 mil |
| | |
| Mae rhwystrau artiffisial, sy'n rhwystro pysgod sy'n mudo, mewn 99% o afonydd Prydain. Bu gostyngiad o 83% mewn rhywogaethau dŵr croyw yn fyd-eang ers 1970. Mae 1% o wyneb y ddaear wedi'i wneud o ecosystemau dŵr croyw ond, eto, maent yn gynefin i dros 100,000 o rywogaethau.<br><br>Byddir yn ymgymryd â phrosiect Afonydd Môn mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru a bydd y prosiect yn cyflwyno ffensio o amgylch lleiniau clustogi gyda chyflenwadau dŵr yfed amgen ar gyfer da byw.<br><br>Yn ogystal, bydd coed yn cael eu plannu i gysylltu darnau anghysbell o goetir ar hyd coridor yr afon. | |
| **Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol** | Y disgwyl yw y bydd hyn yn gwella cysylltedd cynefinoedd â'i gilydd yn ogystal ag yn gwella cysylltiadau'r llwybrau troed a mynediad cyhoeddus rhwng cymunedau<br><br>Bydd gan dirfeddianwyr/tenantiaid/Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru gyfrifoldebau rheoli yn y dyfodol |

*NRAP Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i gynnwys bioamrywiaeth drwy benderfyniadau a wneir ar bob lefel.*

| ***Rhif*** | ***Cam gweithredu*** | ***Tystiolaeth o gyflawni*** | ***Sylw*** | ***Camau ar gyfer y dyfodol*** |
|---|---|---|---|---|
| *1.1* | *Mae angen i'r Cyngor Sir ystyried ei effaith a'i berthynas â'r amgylchedd naturiol yn ei holl weithgareddau.* | *Mae Cynllun y Cyngor Sir (2017-22) yn cydnabod bod amgylcheddau naturiol ac adeiledig yr ynys yn hanfodol i'r sector twristiaeth. Mae'n dal angen diogelu a gwella'r nodweddion unigryw hyn a gwneud y mwyaf o'u gwerth fel adnoddau economaidd-gymdeithasol.*<br><br>*Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor Sir yn ymrwymo i ddatblygu'r Ynys mewn modd sensitif a diogelu ei hasedau naturiol, gan sicrhau bod penderfyniadau Cynllunio yn cefnogi nodau ac amcanion Cynllun y Cyngor a chynyddu cyfraddau ailgylchu i 70% wrth leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi* | *Cynnwys amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor (2017-22)* | *Parhau i gynnwys diogelu'r amgylchedd yng Nghynllun y Cyngor nesaf (2023-28). Cynnwys cyfeiriad penodol at gynnal a gwella bioamrywiaeth yn unol â gofyniad adran 6.* |
| *1.2* | *Ailgynnull Fforwm Bywyd Gwyllt Ynys Môn fel y Bartneriaeth Natur Leol a sicrhau bod perthynas gref rhwng yr LNP a gwasanaethau'r Cyngor* | *Y bartneriaeth wedi'i hailgynnull a sawl cyfarfod wedi'i gynnal.* | *Partneriaeth wedi'i hailgynnull a Swyddog Bywyd Gwyllt Lleol wedi'i benodi i weithredu fel cydlynydd* | *Ystyried cynyddu pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd LNP, yn bennaf i drafod syniadau ar gyfer prosiectau newydd a diweddaru ynghylch y prosiectau sy'n parhau. Ar hyn o bryd cynhelir cyfarfodydd bob 6 mis.* |
| *1.3* | *Mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth Gorfforaethol i gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau* | *Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol wedi'i fabwysiadu* | *Mabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2021* | *Parhau i gyflawni yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu a cheisio* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | mynd i'r afael â chamau sydd heb eu cymryd.<br><br>Cynllun Adolygu i nodi meysydd y mae angen eu diweddaru a/neu ddiwygio i adlewyrchu amgylchiadau sydd wedi newid |
| *1.4* | *Cyhoeddi adroddiad ar sut mae'r camau a nodir yn y Cynllun Bioamrywiaeth yn cael eu bodloni neu weithio tuag atynt* | *Yr adroddiad drafft wedi'i gwblhau ac i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gytuno arno cyn ei gyhoeddi* | *Cwblhawyd yr adroddiad drafft ar gyfer cyfnod 2020/2022* | *Dim angen tan y dyddiad cau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf* |
| *1.5* | *Ymgysylltu â Phenaethiaid Gwasanaeth i nodi'r gofynion o fewn y Ddyletswydd Bioamrywiaeth* | *Ymgynghorwyd ar y Cynllun Bioamrywiaeth drafft* | *Ymgynghorwyd ar fersiynau drafft o'r Cynllun ond ni chafwyd llawer o ymateb - grŵp cyswllt i'w ffurfio fel cyfrwng i gyfnewid gwybodaeth ac ati i wasanaethau unigol* | *Sefydlu grŵp pwnc/cyswllt swyddogion rhyng-wasanaeth i integreiddio bioamrywiaeth fel ystyriaeth wrth osod rhaglenni gwaith a blaenoriaethau*<br><br>*Alinio a chysylltu â phrosesau corfforaethol sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau a hunanasesiadau* |
| *1.6* | *Asesu dogfennau polisi perthnasol ar gyfer cynnwys cyfeiriadau at fioamrywiaeth ac awgrymu gwelliannau lle bo angen* | *Heb ei wneud eto* | *Mae angen adolygu dogfennau polisi perthnasol er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth. Er bod rhai dogfennau yn ystyried bioamrywiaeth ee Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn* | *Ystyried asesu dogfennau polisi er mwyn cynnwys polisïau perthnasol* |

Tudalen 159

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *1.7* | *Cysylltu manteision bioamrywiaeth â Strategaeth Newid Hinsawdd, agenda datgarboneiddio a rhaglenni lleihau gwastraff/ailgylchu* | *Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Rheolwr Newid Hinsawdd a Rheolwr Amgylchedd Naturiol Adeiledig a Naturiol, i drafod manteision/prosiectau bioamrywiaeth a sut maen nhw'n cyfrannu tuag at gyrraedd amcanion sero-net* | *Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cyfrannu at yr amserlen adrodd chwarterol ar gynnydd Tuag at Sero Net* | *Parhau â chyfarfodydd sydd â chyd-fanteision o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur.* |

*NRAP Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r prif bwysigrwydd a gwella eu rheolaeth*

| ***Rhif*** | ***Cam gweithredu*** | ***Tystiolaeth o gyflawni*** | ***Sylw*** | ***Camau ar gyfer y dyfodol*** |
|---|---|---|---|---|
| *2.1* | *Ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gyda Chanolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERC) Cofnod* | *Y cytundeb yn y broses o gael ei gwblhau a'i weithredu* | *Trafodaethau ar fin cael eu cwblhau. Sylwadau CLG drafft yn cael eu hystyried gan Cofnod cyn cwblhau* | *Sicrhau bod angen mynediad at ddata wedi'i gynnwys yn y CLG ac yn parhau i fod yn berthnasol ac adnewyddu'r CLG pan fo hynny'n briodol* |
| *2.2* | *Rhoi ystyriaeth sylweddol i gynnwys gwelliannau bioamrywiaeth mewn ceisiadau cynllunio* | *Mae ceisiadau cynllunio bellach yn cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth fel rhan o'r datblygiad arfaethedig. Pan nad oes unrhyw un yn cael ei gynnig, gofynnir i ymgeiswyr eu darparu.* | *Gall methu â darparu cynigion perthnasol fod yn rheswm dros wrthod caniatâd. Mae llythyr Prif Swyddog Cynllunio Cymru Hydref 2019 yn amlinellu'n glir y gofyniad yma* | *Parhau i fonitro ceisiadau cynllunio i sicrhau eu bod yn cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth a gofyn i ymgeiswyr eu cyflwyno os nad ydynt wedi'u cynnwys* |
| *2.3* | *Sicrhau y cydymffurfir ag amodau/rhwymedigaethau cynllunio perthnasol sy'n gofyn am welliannau bioamrywiaeth mewn cynlluniau a gymeradwywyd i ddatblygu tir* | *Tîm gorfodi cynllunio'n ymateb i fethu â chydymffurfio ag amodau cynllunio* | *Yn ogystal ag ymateb i gwynion, mae'n bosibl nodi a dilyn achosion o dorri amod cynllunio yn ystod ymweliadau safle* | *Sefydlu'r tîm gorfodi cynllunio i nodi ac ymateb i dorri amod yn ymwneud â gwella bioamrywiaeth* |
| *2.4* | *Darparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth wrth ymgynghori ar geisiadau* | *Cyflawni targedau perfformiad yn gyson ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau ceisiadau cynllunio* | *Bu bwlch mewn perfformiad yn dilyn ymadawiad Cynghorydd Ecolegol yn haf 2021 ond, yn dilyn proses recriwtio anodd, penodwyd ecolegydd newydd ers hynny ac mae'n cynnal lefelau o ran cyrraedd targedau perfformiad* | *Adolygu targedau perfformiad er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i ofynion y gwasanaeth. Parhau i ddarparu ymatebion i geisiadau ymgynghori* |

*NRAP Amcan 3: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd*

| ***Rhif*** | ***Cam gweithredu*** | ***Tystiolaeth o gyflawni*** | ***Sylw*** | ***Camau ar gyfer y dyfodol*** |
|---|---|---|---|---|
| *3.1* | *Cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth mewn cynlluniau newydd gan CSYM. Er enghraifft: plannu coed ac ardaloedd bywyd gwyllt ar gyfer ysgolion newydd. Creu cynefinoedd mewn prosiectau newydd, fel pyllau, gwlyptir, plannu coed newydd.* | *Sawl enghraifft wedi'u dangos mewn astudiaethau achos a ddarperir yn yr adroddiad hwn (Atodiad 1)* | *Sicrhau bod bioamrywiaeth yn parhau i gael ei chynnwys yng nghynlluniau a baratoir gan y Cyngor* | *Bydd grŵp swyddogion traws-wasanaeth yn fforwm defnyddiol ar gyfer sicrhau bod bioamrywiaeth yn parhau i fod yn ystyriaeth ac yn rhan bwysig o gynlluniau/projectau* |
| *3.2* | *Diogelu a Gwella blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd* | *Gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad 1 mewn perthynas â pholisi torri gwair ar hyd ymylon ffyrdd* | *Mae polisi yn cynghori ar arferion torri gwair ac amlder o ran ymylon priffyrdd. Gwasanaeth Priffyrdd yn gweithio gyda NWWT ar faterion rheoli priodol* | *Sicrhau y cedwir at y polisi torri gwair ac adolygu a diwygio lle bo angen. Cynnal perthynas waith gyda NWWT* |
| *3.3* | *Tynnu coed/plannu coed newydd yn sgil clefyd coed ynn (ADB) a sefydlu system gofnodi (gan gynnwys prynu meddalwedd rheoli asedau coed)* | *Cynllun Gweithredu ADB; rheolwr prosiect wedi'i benodi; System gofnodi coed LUTRA yn cael ei defnyddio a nifer o arolygon cyflwr wedi'u gwneud ar goed y Cyngor* | *Cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn hyn o beth gan gynnwys arolwg a mapio coed y Cyngor. Angen ystyried arolwg ecolegol os oes angen torri coed. Cynlluniau ailblannu i gynnwys rhywogaethau brodorol i adfer cynefinoedd* | *Bydd swydd rheolwr prosiect newydd yn fodd i ymateb yn benodol i faterion ADB wrth reoli rhaglenni torri ac ailblannu a goblygiadau'r rhaglenni hyn i fioamrywiaeth* |
| *3.4* | *Ei gwneud yn ofynnol cynnal a chadw/ailblannu gwrychoedd mewn cynlluniau datblygu a chamau gorfodi pan geir gwared â nhw heb awdurdod* | *Amodau wedi'u gosod mewn caniatâd cynllunio a'u gorfodi pan fo achosion o dorri Rheoliadau Gwrychoedd* | *Camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fydd achosion o waredu heb awdurdod neu pan fydd achos o dorri amodau sy'n gofyn am gadw gwrychoedd* | *Sefydlu tîm gorfodi cynllunio i nodi ac ymateb i achosion o dorri amodau'n ymwneud â chadw gwrychoedd neu eu gwaredu heb awdurdod* |
| *3.5* | *Cymryd camau angenrheidiol i sicrhau glendid afonydd a dyfrffyrdd* | *Gwaith prosiect wedi'i wneud mewn perthynas â rhyddhau gormod o nitradau i ddŵr afon* | *Bu prosiect Afon Wygyr yn cydweithio â ffermwyr lleol i leihau nitradau a ryddheir i ddŵr afonydd gan arwain at* | *Chwilio am gyfleoedd pellach i fod yn rhan o brosiectau tebyg gyda'r bwriad o wella ansawdd dŵr* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *welliannau i'r amodau ar gyfer pysgod dŵr croyw ac amodau ymdrochi i lawr yr afon* | |
| *3.6* | *Mabwysiadu cynllun coeden* | *Heb ei wneud eto* | *Cynllun tebyg i gynllun "Plannu / (Plant)!" Llywodraeth Cymru* | *Angen llunio cynllun lle gall coed sy'n cael eu plannu fel rhan o brosiectau'r Cyngor gael eu mabwysiadu gan y cyhoedd* |
| *3.7* | *Nodi cyfleoedd i greu/gwella cynefinoedd yn ystâd y Cyngor* | *Nifer o brosiectau wedi'u cynnal o fewn Ystâd y Cyngor (ee Pencadlys Glas, Oriel Môn ac ati)* | *Gweler astudiaethau achos am enghreifftiau o waith a wnaed* | *Sicrhau bod fframwaith ôl-ofal a rheoli priodol ar waith i sicrhau llwyddiant parhaus prosiectau i ddarparu gwell amodau ar gyfer bioamrywiaeth.* |
| *3.8* | *Ymgysylltu â grwpiau Gwirfoddolwyr i fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bioamrywiaeth a nodi cyfleoedd posibl i gydweithio* | *Gwaith LNP a chysylltiadau pellach wedi'u gwneud y tu allan i'r LNP ee yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw ac ati.* | *Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r LNP ac mae sgyrsiau wedi'u rhoi gan y Swyddog Bywyd Gwyllt Lleol i nifer o grwpiau diddordeb. Hefyd, bu trafodaethau gyda sefydliadau fel Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar sut y gallan nhw wella'u safleoedd er budd bioamrywiaeth.* | *Parhau i gynnal cyfarfodydd LNP rheolaidd a gwneud cysylltiadau gyda grwpiau allanol i'w cynghori sut i wella amodau ar gyfer gwella bioamrywiaeth.* |
| *3.9* | *Nodi a gwneud cais am gyllid allanol lle bo angen* | *Cafwyd cyllid ar gyfer prosiectau o amryw o ffynonellau gan gynnwys LPfN, SDF a GRF* | *Mae astudiaethau achos yn dangos y gwahanol ffynonellau cyllid sydd wedi'u defnyddio i ariannu prosiectau* | *Parhau i nodi a gwneud cais am ffynonellau cyllid perthnasol* |

*NRAP Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd*

| Rhif | Cam gweithredu | Tystiolaeth o gyflawni | Sylw | Camau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | *Sicrhau bod cynigion datblygu'n gwneud y defnydd mwyaf posibl o dir a ddatblygwyd yn flaenorol* | *Ceisiadau i ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol wedi'u hystyried yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol perthnasol.* | *Nodwyd safleoedd tir llwyd i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu yn y dyfodol* | *Parhau i gymhwyso ystyriaethau polisi cynllunio perthnasol i gynigion ar gyfer datblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol.* |
| 4.2 | *Sicrhau bod cynigion datblygu yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth lle bo hynny'n briodol* | *Mae ceisiadau cynllunio yn tueddu i gynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth perthnasol a, phan nad ydynt, cynghorir ymgeiswyr i'w darparu er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r cais* | *Gofyniad wedi'i gadarnhau drwy lythyr Prif Swyddog Cynllunio Cymru, Hydref 2019. Gellir gwrthod ceisiadau yn dechnegol os nad yw gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu cynnig.* | *Parhau i gynnal y sefyllfa o ran cyflwyno cynigion gwella bioamrywiaeth i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio.* |
| 4.3 | *Paratoi Cynllun i addasu i newid hinsawdd a chymryd camau lliniaru, a galluogi'r Ynys a Chyngor Sir i addasu i fywyd mewn hinsawdd sy'n newid* | *Tuag at Gynllun Sero Net wedi'i fabwysiadu 2022* | *Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Rheolwr Newid Hinsawdd a Rheolwr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig i adrodd ar sut mae prosiectau'n cyfrannu tuag at Sero Net* | *Cynnal cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'w hadrodd* |
| 4.4 | *Parhau i hybu lleihau gwastraff ac adeiladu ar fentrau ailgylchu llwyddiannus y Cyngor* | *Un o berfformwyr uchaf Cymru* | *Gwybodaeth gynhwysfawr am ddulliau gwahanol o reoli gwastraff ar wefan Cyngor* | *Ceisio archwilio dulliau pellach, arloesol o leihau gwastraff* |
| 4.5 | *Cynyddu'r fflyd o geir trydan pŵl a blaenoriaethu eu defnydd dros gerbydau personol wrth deithio i wneud gwaith y Cyngor* | *Fflyd o geir pŵl a system archebu ar gael. Atgoffa staff yn rheolaidd i ddefnyddio ceir pŵl ar gyfer teithiau busnes* | *Angen cynyddu'r defnydd o geir trydan pŵl* | *Atgyfnerthu'r neges mewn perthynas â defnyddio ceir pŵl a chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r fflyd os yw'n bosibl* |
| 4.6 | *Manteisio ar gyfleoedd ar gyfer llwybrau teithio llesol, yn enwedig lle mae cyn-goridorau trafnidiaeth segur dan sylw* | *Map Rhwydwaith Teithio Llesol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022* | *Angen adeiladu ar y defnydd o lwybrau teithio llesol a welwyd yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud (ee Y Lôn Las Cefni)* | *Ystyried datblygu llwybrau sy'n gallu darparu cynefin a chysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *4.7* | *Cefnogi prosiectau/mentrau a gynhaliwyd i gael gwared ar INNS ee prosiectau a oruchwylir gan y Tîm Cefn Gwlad ac AHNE a phartneriaid* | *Prosiectau wedi'u cynnal gan y Tîm Cefn Gwlad ac AHNE mewn perthynas â Jac y Neidiwr, y Minc Americanaidd a'r Wiwer Lwyd* | *Gweler astudiaethau achos am fanylion* | *Prosiectau'n parhau. Bydd angen ailystyried y sefyllfa ar ôl i'r ffrydiau ariannu ddod i ben* |
| *4.8* | *Annog y defnydd o agregau eilaidd /wedi'u hailgylchu yn hytrach na deunydd cynradd lle bo hynny'n briodol mewn datblygiadau* | *Canolfan ailgylchu deunydd priffyrdd yn y Gaerwen. Deunydd a gynhyrchir i gyflawni deunyddiau gradd isel yn lle agregau cynradd* | *Angen sicrhau, lle mae gradd isel yn defnyddio deunydd eilaidd ar gyfer sylfeini, bod hyn yn parhau i gael ei fodloni gan y defnydd o agregau wedi'u hailgylchu* | *Parhau â'r arfer o ailgylchu gwastraff sy'n deillio o'r briffordd i gynhyrchu agregau eilaidd a'i ddefnyddio at ddibenion gradd is* |

*NRAP Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro*

| ***Rhif*** | ***Cam gweithredu*** | ***Tystiolaeth o gyflawni*** | ***Sylw*** | ***Camau ar gyfer y dyfodol*** |
|---|---|---|---|---|
| *5.1* | *Paratoi a dosbarthu bwletin/cylchlythyr electronig sy'n tynnu sylw at feysydd perthnasol ar gyfer cydymffurfio â chyfraith bywyd gwyllt (holl aelodau etholedig CSYM, staff a Chynghorau Tref a Chymuned). Bwletin i'w adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru lle bo angen* | *Nid oes unrhyw gylchlythyr bioamrywiaeth cyffredinol wedi'i baratoi hyd yma ond mae'r Swyddog Bywyd Gwyllt Lleol wrthi'n datblygu opsiynau cyfryngau cymdeithasol i adlewyrchu gwaith sy'n gysylltiedig â gwaith prosiect LPfN a gwaith LNP yn gyffredinol.* | *Cyllid refeniw gan grant LNP i'w ddefnyddio i wneud y gwaith hwn* | *Ystyried ehangu'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu eraill i roi gwybodaeth am welliannau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd adran 6 yn gyffredinol* |
| *5.2* | *Cyflwyno hyfforddiant bioamrywiaeth priodol i swyddogion perthnasol ac aelodau etholedig* | *Rhai digwyddiadau hyfforddi mewnol ar gyfer aelodau'r Tîm Rheoli Datblygu o fewn y Swyddogaeth Gynllunio* | *Trafod gyda Deiliaid Portffolio mewn perthynas â threfnu digwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau mewn perthynas â gwaith gwella bioamrywiaeth a wnaed ar safleoedd tirlenwi Clegir Mawr a Phenhesgyn sydd wedi'u capio* | *Angen trafod darparu hyfforddiant gydag AD er mwyn gallu cynnal cyfres o ddigwyddiadau i roi gwybodaeth i staff perthnasol ac aelodau etholedig* |
| *5.3* | *Cynnal archwiliad bioamrywiaeth o adeiladau a thirddaliadau CSYM* | *Heb wneud eto, er y gwnaed arolwg o'r holl goed ar dir y Cyngor* | *Gellir defnyddio data o'r arolwg coed i gyfrannu at archwiliad bioamrywiaeth* | *Angen trefnu bod archwiliad yn cael ei wneud er mwyn nodi meysydd o werth bioamrywiaeth a rheoli'r rhain yn briodol* |
| *5.4* | *Opsiwn i dargedu ardaloedd sy'n amlwg yn cael budd yn hytrach na dull cyffredinol, e.e. lle gellid gosod blychau ystlumod a blychau nythu i adeiladau CSYM.* | *Peth tystiolaeth o'r dull hwn o weithredu mewn prosiectau dan arweiniad y Cyngor (ee Clegir Mawr)* | *Angen ystyried gwneud mwy yn hyn o beth* | *Gall archwiliad bioamrywiaeth o eiddo'r Cyngor nodi cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth* |

*NRAP Amcan 6: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chefnogaeth ar gyfer cyflawni*

| **Rhif** | **Cam gweithredu** | **Tystiolaeth o gyflawni** | **Sylw** | **Camau ar gyfer y dyfodol** |
|---|---|---|---|---|
| *6.1* | *Sefydlu grŵp swyddogion rhyng-wasanaeth sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd y Cynllun a chydlynu'r swyddogaeth adrodd.* | *Heb ei wneud eto* | *I'w wneud - nodi cysylltiadau perthnasol i gynrychioli pob gwasanaeth* | *Ffurfio grŵp rhyng-wasanaeth o gysylltiadau a nodwyd a sefydlu strwythur cyfarfod ac adrodd rheolaidd* |
| *6.2* | *Cynnal rhaglen o ddiweddariadau briffio rheolaidd (o leiaf bob chwarter) gyda Deilydd y Portffolio Amgylcheddol/Hyrwyddwr Bioamrywiaeth* | *Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf gyda'r Deilydd Portffolio newydd ym mis Awst cyn cynnal ymweliadau tywys â Chlegir Mawr a Phenhesgyn i weld gwaith adfer/creu cynefinoedd/plannu coed* | *Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter i roi gwybodaeth am ddiweddariadau bioamrywiaeth ac am gynnydd prosiectau* | *Cadw at y rhaglen o gyfarfodydd chwarterol oni bai bod digwyddiadau anghyffredin yn gofyn am rai ychwanegol* |
| *6.3* | *Cynyddu'r cydweithio rhwng CSYM a sefydliadau / partneriaethau perthnasol er mwyn gwella cyfleoedd cydweithio a chyd-ariannu ar faterion bioamrywiaeth* | *Wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â sawl sefydliad. Llawer o'r gwaith hwn wedi'i hwyluso gan yr LNP* | *Astudiaethau achos yn tynnu sylw at nifer y sefydliadau a weithiwyd gyda nhw mewn partneriaeth* | *Parhau i gydweithio gyda chyrff allanol fydd yn ceisio ymgymryd â gwaith a fydd o fudd i fioamrywiaeth* |
| *6.4* | *Archwilio cyfleoedd i dîm caffael CSYM gynnwys bioamrywiaeth wrth gaffael e.e. defnyddio cynhyrchion pren o ffynonellau cynaliadwy a defnyddio compost di-fawn* | *Heb ei wneud eto* | *Angen sicrhau dull cyson o weithredu wrth gaffael a gallu dangos bod deunyddiau a brynir yn dod o ffynonellau cynaliadwy* | *Gellir mynd i'r afael â hyn fel rhan o waith y grŵp rhyng-wasanaeth* |

## 1.0 Cyflwyniad a Chyd-destun

### 1.1 Gofynion Statudol

1.1.1 Mewn ymateb i ofynion Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (Wales) (Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau), mae Awdurdodau Cyhoeddus (AC) cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r gofyniad hwn. Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac sy'n cynnwys mewnbwn Gwasanaethau eraill y Cyngor, yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor Sir wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd adran 6 rhwng 2019 a 2022.

### 1.2 Disgrifiad o Awdurdod Cyhoeddus mewn perthynas â bioamrywiaeth

1.2.1 Y Cyngor Sir fel AC sy'n cario'r baich mwyaf o ran adrodd ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â'i Gynllun Bioamrywiaeth.

### 1.3 Graddfa Ofodol a Lle

1.3.1 Mae Ynys Môn yn ynys sy'n cwmpasu ardal o tua 700km$^2$ a gyda phoblogaeth o tua 69,000. Mae gan yr Ynys nifer o ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol a lleol a ategir gan adnoddau naturiol a thirwedd amrywiol.

### 1.4 Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

1.4.1 Mae CSYM yn aelod statudol o Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn a chyfrannwr i Ddatganiadau Ardal Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r ddwy broses yn ceisio gwarchod a hyrwyddo'r amgylchedd naturiol.

### 1.5 Bioamrywiaeth a Swyddogaethau ac amcanion strategol CSYM

1.5.1 Mae un o dri amcan strategol y Cyngor yn hyrwyddo diogelu'r amgylchedd naturiol tra'n cynnwys newid a datblygiadau yng nghymunedau'r Ynys. Ategir hyn gan yr amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Bioamrywiaeth Gorfforaethol.

### 1.6 Polisiau allweddol a monitro

1.6.1 Mae sawl dogfen gorfforaethol a gwasanaeth-benodol yn gosod sylfaen polisi cadarn ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae monitro darpariaeth yn rhan annatod o'r dogfennau hyn, sy'n cynnwys:

a) Cynllun CSYM;
b) Tuag at Gynllun Sero Net;
c) Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn;
d) Cynlluniau Darparu Gwasanaeth Unigol;
e) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

### 1.7 Trefniadau llywodraethu o ran cyflawni dyletswydd Adran 6

1.7.1 Mae gan Bennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd reolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn adrodd i Dîm

Arwain y Cyngor. Y Deilydd Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd sydd â'r cyfrifoldeb gwleidyddol.

1.7.2 Bydd grŵp traws-wasanaeth o swyddogion yn cael ei ffurfio yn Ch1 2023 i fonitro, adolygu a diweddaru camau gweithredu'r Cynllun Bioamrywiaeth a fydd yn llywio cyfrifoldebau adrodd yn y dyfodol.

## 2.0 Uchafbwyntiau, Prif Ganlyniadau a Materion

### 2.1 Camau bioamrywiaeth allweddol

2.1.1 Mae'r camau allweddol canlynol ar gyfer bioamrywiaeth wedi'u rhoi ar waith

a) Mabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth sy'n darparu sail ar gyfer asesu cyflawniad y Cyngor o gamau gweithredu ar gyfer gwella bioamrywiaeth, gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd a ffurfioli strwythur adrodd;
b) Neilltuo cyfrifoldeb gwleidyddol am fioamrywiaeth i'r deiliad portffolio perthnasol a chynnal cyfarfodydd rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu bioamrywiaeth;
c) Sefydlu'r Bartneriaeth Natur Leol (LNP) i annog cyfranogiad cymunedol a dosbarthu cyllid grant ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth - £450,000 dros y dair blynedd diwethaf;
d) ymgymryd â phrosiectau gwella bioamrywiaeth sylweddol megis yr un yng Nghlegir Mawr, Gwalchmai sy'n ceisio darparu cynefin brithwaith ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau;
e) Negodi cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r ganolfan cofnodion amgylchedd lleol i gael mynediad uniongyrchol i ddata ecolegol.

| Blwyddyn Ariannol | Prosiectau Partner | Prosiectau'r Cyngor | Prosiectau'r Gronfa Her | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2020-21 | £40,785 | £37,465 | N/A | **£78,250** |
| 2021-22 | £47,179 | £24,900 | £167,000 | **£239,079** |
| 2022-23 | £101,070 | £32,050 | N/A | **£133,120** |
| | **£189,034** | **£94,415** | **£167,000** | **£450,449** |

Tabl 1: Cyllid o'r Rhaglen Lleoedd Lleol I Natur 2020-23



Dol blodau gwyllt yng Nghlegir Mawr, Gwalchmai

## 2.2 Canlyniadau cadarnhaol ar gyfer iechyd, cydlyniant cymdeithasol a buddion economaidd

2.2.1 Mae safleoedd natur a reolir gan y Cyngor Sir wedi gweld nifer yr ymwelwyr yn cynyddu ar ôl gostyngiadau sylweddol oherwydd cyfyngiadau Covid sy'n cefnogi'r ddamcaniaeth bod trochi ym myd natur o fudd i les meddwl ac iechyd corfforol.

| Blwyddyn Ariannol | Dingle | Parc y Morglawdd | Wedi cyfuno | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 63,129 | 124,607 | 187,736 | * Rhodfa pren Dingle ar gau am 6 wythnos oherwydd adeiladu pont newydd yn Ch3 |
| 2019-20 | 60,159 | 91,815 | 151, 974 | |
| 2020-21 | 0* | 91,051 | 91, 051 | Caeodd Rhodfa'r Dingle rhwng Mawrth 20 a Mehefin 21 / Parc y Morglawdd hefyd ar gau am rai misoedd oherwydd COVID. |
| 2021-22 | 65, 412 | 107, 550 | 172,962 | |
| 2022-23 (4/22 -9/22) | 19,066 | 62,167 | 81,233 | Data Rhannol yn unig – 6 mis yn unig o'r flwyddyn ariannol gyfredol fel cyfeirnod |
| * Ffigurau Dingle wedi'u darparu gan gownter ar y Llwybr Pren felly 0 yn dychwelyd oherwydd bod y Rhodfa ar gau am gyfnod | | | | |

Tabl 2: nifer yr ymwelwyr mewn safleoedd bywyd gwyllt a reolir gan y Cyngor

2.2.2 Profwyd bod darparu rhandiroedd yn darparu buddion o ran lles a chydlyniant cymdeithasol yn ogystal â bod yn hafanau i fywyd gwyllt, gan ddarparu cynefin gwerthfawr i bryfed peillio yn arbennig. Mae tri rhandir wedi'u lleoli ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac un arall yn cael ei ystyried yng Nghaergybi.





Rhandiroedd Llangefni Lleiniau cymdeithas

2.2.3 Mae'r rhaglen bresgripsiynau gwyrdd sy'n cael ei rhedeg gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn hyrwyddo rhaglenni sy'n cynnwys trochi ym myd natur gyda golwg ar wella iechyd a lles.



Gweithgareddau presgripsiynau gwyrdd yn Llyn Parc Mawr, Niwbwrch

2.2.4 Mae Cynllun y Cyngor Sir yn cydnabod gwerth amgylchedd naturiol yr Ynys, pwysigrwydd diogelu’r ased hwn a’i gyfraniad presennol a phosibl at ffyniant economaidd yr Ynys.

## 2.3 Arbedion cost ac effeithlonrwydd

2.3.1 Gall newid arferion gyda'r bwriad o wella amodau ar gyfer bioamrywiaeth sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd cost gweithredol ar gyfer y Cyngor. Mae’r isod wedi eu cynnwys fel esiamplau:

a) Mae’r rhaglen Ardaloedd Cadwraeth Torri Coed yn arbed, ar gyfartaledd £7,000 y flwyddyn o dorri amledd torri gwair yn ogystal â darparu gwell cynefin;
b) Gallai rheoli rhywogaethau ymledol atal costau pellach, a chostau uwch sy'n gysylltiedig efo dileu mwy a phrosiectau adfer eraill;
c) Mae defnyddio llafur gwirfoddol yn cynnig arbedion cost amlwg tra'n darparu buddion addysgol/sgiliau i wirfoddolwyr.



Newid arferion torri gwair i annog tyfiant blodau gwyllt, Talwrn

## 2.4 Galluogwyr allweddol i weithredu bioamrywiaeth

2.4.1 Mae nifer o alluogwyr allweddol i gyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth wedi'u hadnabod. Ymhlith y rhain mae:

a) LNP Ynys Môn sy'n galluogi gweithredu bioamrywiaeth yn y gymuned;
b) Mae mynediad at ddata ecolegol yn galluogi prosiectau'r Cyngor i fod yn wybodus o'r camau cynllunio hyd at eu cwblhau;
c) Mae gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill yn cynorthwyo i gyflawni prosiectau mwy, a fwy uchelgeisiol a all sicrhau manteision bioamrywiaeth llawer mwy.


Plannu coed ar Safle Tirlenwi Penhesgyn, Porthaethwy

## 2.5 Rhwystrau i weithredu

2.5.1 Nodwyd bod sawl elfen o’r rhwystrau i weithredu bioamrywiaeth. Mae'r Cyngor Sir wedi ceisio mynd i'r afael â'r rhain fel a ganlyn:

a) Darparu hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod gofynion y ddyletswydd adran 6 yn cael eu deall yn llawn;
b) Ceisio mynd i'r afael â'r diffyg mynediad at ddata ecolegol trwy gytuno ar CLG gyda'r ganolfan cofnodion lleol;
c) Penodi Rheolwr Newid Hinsawdd i fynd i'r afael â materion newid yn yr hinsawdd ac i ganolbwyntio ar ddod yn sefydliad sero-net erbyn 2030;

d) Mynd i'r afael â cholli cynefinoedd a dirywiad drwy dargedu prosiectau i adfer a gwella cynefinoedd;
e) Mynd i'r afael ag effeithiau llygredd drwy gymryd camau penodol i leihau effeithiau a allai effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd naturiol ee, cynyddu fflyd cerbydau trydanol, cynhyrchu canllawiau technegol ar oleuadau;
f) Rheoli presenoldeb rhywogaethau ymledol drwy sawl prosiect gyda'r nod o wella amodau i rywogaethau brodorol ffynnu;
g) Ymateb yn brydlon i risgiau bioddiogelwch i'r graddau bod lledaeniad pellach i rywogaethau gwyllt/brodorol yn cael eu lleihau neu eu dileu;
h) Sicrhau bod capasiti o fewn gwasanaethau i ddelio â materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.



Gwartheg a ddefnyddid i bori cadwraeth yng Nghlegir Mawr, Gwalchmai.

## 3.0 Astudiaethau Achos

**3.1** Dros y cyfnod adrodd, mae'r Cyngor Sir wedi cynnal nifer o brosiectau gyda'r nod o wella bioamrywiaeth. Mae hyn wedi cynnwys gweithio'n unigol, gweithio mewn partneriaeth ag eraill neu wrth ddosbarthu gwobrau ariannol i sefydliadau eraill. Mae'r tabl canlynol yn tynnu sylw at amrywiaeth y prosiectau o'r fath:

| Enw'r Prosiect | Crynodeb prosiect | Canlyniadau disgwyliedig | Cyllid Grant | Ffynhonnell Ariannu |
|---|---|---|---|---|
| Pencadlys Glas | Gwella bioamrywiaeth ar gampws Pencadlys y Cyngor. Hau'r ddôl a phlannu coed. | Gwella cynefinoedd, yn enwedig ar gyfer peillwyr a darparu amgylchedd dymunol i ddefnyddwyr y safle. | £25K (2020) | LPfN – Gwyrddio'r Ystâd Gyhoeddus |
| Rhaglen Rheoli Cadwraeth | Lleihau amlder torri gwair ymylon i annog ehangu cynefinoedd. | Rhwydwaith mwy o blodau gwyllt ymylon a fydd yn denu amrywiaeth ehangach o rywogaethau. | D/B | Cyllideb y Gwasanaeth |
| Adfer Tirlenwi Clegir Mawr | Gwella'r hen safle tirlenwi drwy ddôl a phlannu coed a gwaith atgyweirio/creu dŵr wyneb | Creu cynefin mosaig i gynyddu amrywiaeth o rywogaethau ar y safle. Defnyddio fel ased addysgol/ymchwil | £167K (2021) | LNP Cronfa Her |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth Jac y Neidiwr | Gweithio ar ddalgylchoedd afonydd Ynys Môn i reoli Jac y Neidiwr | Llai o achosion ohono i alluogi ail-sefydlu rhywogaethau brodorol | c.£40K (22-24) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Prosiect Bioamrywiaeth Afonydd Menai | Dileu rhifau Minc Americanaidd. | Galluogi llygod dŵr (s7 rhywogaeth) i adfer a ffynnu | £10.75K (2019 - presennol) | Cronfa Datblygu Strategol |
| Chwiorydd Massey (Oriel Môn) | Dôl/pwll datblygiad a dehongliad o flodau gwyllt. | Bydd y prosiect yn cyd-fynd efo casgliad Chwiorydd Massey o waith celf fotanegol yr Oriel. | £24.9K (2021) | LPfN (Gwyrddio'r Ystâd Gyhoeddus) |
| Achub Ein Gwiwerod | Rheoli niferoedd gwiwerod llwyd. | Adfer a chynyddu niferoedd y wiwer goch. | £9.72K (21-22) | Cronfa Datblygu Strategol |
| Gwirfoddoli Gwyllt | Gwella bywydau a rhagolygon pobl ifanc. | Cryfhau eu cysylltiad â'r byd natur | £7.25K | Cronfa Datblygu Strategol |
| Meithrinfa Coed. | Datblygu meithrinfa i dyfu coed o darddiad lleol | Er mwyn ateb i'r galw'n lleol am goed sy'n cael ei yrru gan Gynllun Ffermio Cynaliadwy, Clefyd Coed Ynn ayyb. | £85K (22-25) | Mannau Cynaliadwy ar y Dirwedd Gynaliadwy |
| Rheoli Rhostir | Cadw cynefin rhostir ar Ynys Môn. | Llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhostir ar gyfer AHNE Ynys Môn. | £120K (22-25) | Sustainable Landscape Sustainable Places |
| Dolau Blodau Gwyllt | Plannu, cynnal a chadw dolau blodau gwyllt. | Gwrthdroi colled sylweddol o ddolau sy'n cynnal bioamrywiaeth bwysig,pryfed peillio yn ewnedig. | £70K (22-25) | Mannau Cynaliadwy ar y Dirwedd Gynaliadwy |
| Afonydd Ynys Môn | Ffensys parth byffer a ffynonellau dŵr yfed amgen ar gyfer anifeiliaid. | Gwell cysylltedd cynefinoedd yn ogystal â gwella'r cysylltiadau llwybr troed a mynediad i'r cyhoedd rhwng cymunedau | £75K (22-25) | Mannau Cynaliadwy ar y Dirwedd Gynaliadwy |

## 4.0 Adroddiad Gweithredu

4.1 Mae'r Cynllun Gweithredu a atodir i'r Cynllun Bioamrywiaeth yn nodi 6 prif amcan gyda nifer o gamau gweithredu wedi'u rhestru o dan bob amcan. Mae cyflawni neu gwblhau pob gweithred yn caniatáu i'r Cyngor Sir asesu ei ymateb i'r ddyletswydd adran 6. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r camau wedi cael eu cwblhau'n llawn neu'n rhannol. Fodd bynnag, mae sawl gweithred yn parhau i fod yn cael sylw a bydd y rhain yn sail i'r argymhellion ar gyfer gweithredu y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod adrodd hwn.

## 5.0 Casgliadau (Adolygu'r Ddyletswydd Adran 6)

5.1 Yn gyffredinol, mae'r Cyngor Sir o'r farn ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau i gynnal a gwella bioamrywiaeth trwy:

a) Paratoi a mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth sy'n nodi camau clir sy'n rhoi sail i gynnal a gwella bioamrywiaeth;
b) Alinio'r Cynllun â dogfennau cynlluniau/polisi eraill y Cyngor a thrwy hynny osgoi meysydd posibl o wrthdaro o ran cyflawni amcanion ee Tuag at Gynllun Sero Net;
c) Nodi dulliau o newid arferion gwaith a fydd o fudd i fioamrywiaeth ond sydd hefyd yn arwain at arbedion cost/effeithlonrwydd i'r Awdurdod;

d) Sefydlu perthnasoedd gweithio cryf gyda phartneriaid allanol a chael mynediad at ffrydiau ariannu priodol (yn bennaf drwy'r LNP ond hefyd drwy weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill) i ddarparu prosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio ar gynnal neu wella bioamrywiaeth;
e) Rheoli safleoedd natur leol er budd bioamrywiaeth;
f) Mynd i'r afael â'r broblem o rywogaethau ymledol sy'n effeithio'n negyddol ar ein rhywogaethau brodorol;
g) Adfer a/neu greu cynefin newydd fel modd o gynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau sy'n gallu byw mewn ardaloedd o'r fath;
h) Lle bo'n bosibl, mynd i'r afael â digwyddiadau o fygythiadau bioddiogelwch i fioamrywiaeth leol;
i) Ymgysylltu â sefydliadau addysgol a diwylliannol i annog diddordeb mewn bioamrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o fanteision amgylchedd bioamrywiol;
j) Annog gwirfoddolwyr i fentrau sy'n seiliedig ar natur;
k) Sicrhau bod cynigion datblygu yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth.

## 6.0 Argymhellion i weithredu yn y dyfodol

6.1 Er gwaethaf fod Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd adran 6 yn effeithiol, mae hefyd yn cydnabod bod sawl gweithred a nodwyd yn y Cynllun Bioamrywiaeth yn parhau i fod angen sylw pellach. Nodir hwy isod a byddant yn cael eu hystyried fel blaenoriaethau yn y cyfnod ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

| | Argymhelliad | Rheswm | Amcanion y Cynllun Gweithredu wedi eu cwblhau |
|---|---|---|---|
| 1 | Mae sefydlu grŵp o swyddogion trawswasanaeth i sicrhau bod cynnal a chadw neu wella bioamrywiaeth yn parhau i fod yn ystyriaeth wrth lunio rhaglenni gwaith a gweithgareddau. Bydd pob gwasanaeth yn enwebu swyddogion priodol i fynychu cyfarfodydd o'r grŵp yn rheolaidd. | Mae'r angen am ddeialog yn hanfodol er mwyn gallu parhau i gyflawni'r Dyletswyddau adran 6 yn effeithiol. Mae'n hanfodol gweithio'n agosach ar draws y gwasanaethau I wneud hynny. | 1.5, 3.1, 6.1, 6.4 |
| 2 | Sefydlu strwythur adrodd ffurfiol o fewn pob gwasanaeth ar gamau gweithredu i gynnal neu wella bioamrywiaeth. | Gall diffyg data gwaelodlin i alluogi mesur llwyddiant rhai camau - effeithio ar asesu cyfraniad y camau hynny i wella bioamrywiaeth. Data a gesglir i lywio'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. | 1.4, 6.1 |
| 3 | Cynnal archwiliad bioamrywiaeth o adeiladau'r Cyngor a'r tirddaliadau ac asesu cynlluniau corfforaethol/gwasanaethau perthnasol a dogfennau polisi - er mwyn sefydlu faint o ystyriaeth i ddarpariaeth bioamrywiaeth mae'r gwasanaethau yn eu rhoi mewn perthynas ag elfennau gweithredol o'u darpariaeth. | I ddeall yr ystod o ddiddordeb bioamrywiaeth sy'n bresennol ar ystâd y Cyngor ac i ddarparu data sylfaenol ar gyfer asesu effeithiolrwydd y camau gweithredu sydd yn y Cynllun Bioamrywiaeth. Sicrhau bod dogfennau polisi perthnasol yn cynnwys cyfeirio at y Ddyletswydd mewn perthynas â chynnal neu wella bioamrywiaeth | 1.2, 3.9, 6.3 |
| 4 | Manteisio ar gyfleoedd ariannu refeniw i feithrin gallu i ddelio â materion sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth o fewn y Cyngor Sir tra'n gwneud y gorau o gyfleoedd ariannu cyfalaf i sicrhau digon o fodd i ymgymryd â | Angen sicrhau digon o gapasiti i ddelio â materion bioamrywiaeth o fewn gwasanaethau (ee cyllid refeniw LNP i gryfhau tîm LNP) tra'n denu cyllid i ariannu prosiectau a mentrau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a fydd yn sicrhau fod y Cyngor Sir yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r | 1.2, 3.9, 6.3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhaglenni newydd a chynnal rhaglenni presennol. | ddyletswydd bioamrywiaeth. Codi ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau mewn cyswllt a gwelliant bioamrywiaeth a'r buddion o safbwynt ymateb i newid hinsawdd a'r agenda net sero. | |
| 5 | Cwblhau'r  CLG gyda Cofnod (LERC dros Ogledd Cymru). | Er mwyn sicrhau mynediad parod i ddata ecolegol y gellir ei ddefnyddio i lywio prosiectau a gweithgareddau eraill lle gallai effeithiau bioamrywiaeth godi a lliniaru fod eu hangen. | 2.1, 3.1 |
| 6 | Ymchwilio I gyfleoedd o gydweithio ag asiantaethau eraill i ddarparu prosiectau mwy a all fod â manteision ehangach i fioamrywiaeth. | I ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth ar raddfa fwy | 3.5, 3.8, 3.9, 6.3 |
| 7 | Darparu hyfforddiant priodol ar faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth i swyddogion perthnasol ac aelodau etholedig. | Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth mewn perthynas â Dyletswydd Adran 6 er mwyn sicrhau bod gofynion y ddyletswydd yn cael eu cymhwyso i'r holl feysydd gwaith perthnasol. | 5.2, 6.2 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **24 Ionawr 2023** |
| Pwnc: | **Darparu Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Jones (Datblygiad Economaidd a Phrosiectau Mawr)** |
| Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr: | **Christian Branch**<br>**Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur H. Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau

Mae'r papur hwn yn ddilyniant o'r Argymhellion a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2022 ynghylch darparu Cronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn.

**Argymhelliad:**

**Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo awdurdod i'r Arweinydd, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Portffolio Datblygiad Economaidd a Phrosiectau Mawr a Chyllid, ar gyfer yr holl benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith, a allai fod yn ofynnol mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn (ar gyfer cyfnod y cyllid).**

**Beth yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin?**

Mae Llywodraeth y DU wedi lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a fydd yn cael ei hariannu'n ddomestig, i ddisodli'r cyllid strwythurol blaenorol gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae Ynys Môn eisoes wedi derbyn cyllid Ewropeaidd sylweddol, ac mae'r rhaglenni wedi ariannu amrywiaeth eang o raglenni i gefnogi busnesau, datblygu sgiliau, a gwella cyflogadwyedd yn ogystal â rhaglenni seilwaith cyfalaf.

Bydd y Gronfa Ffynaint Gyffredin yn darparu gwerth £2.5 biliwn o fuddsoddiad tan fis Mawrth 2025 ar draws y DU. Bwriad y rhaglen yw "meithrin balchder a gwella cyfleoedd bywyd". Mae'r blaenoriaethau buddsoddi a nodwyd gan Lywodraeth y DU fel a ganlyn:

- Cymuned a Lle – Cryfhau ein gwead cymdeithasol a meithrin synnwyr o falchder a pherthyn lleol. Meithrin cymdogaethau gwydn a diogel.
- Cefnogi Busnes Lleol – Creu swyddi a rhoi hwb i gydlyniad cymunedol drwy gefnogi busnesau lleol. Hybu rhwydweithio a chydweithio ac annog arloesedd a thwf.

Cefnogaeth wedi'i thargedu er mwyn helpu busnesau i dyfu – e.e. arloesedd, cynhyrchiant, effeithlonrwydd ynni, carbon isel ac allforio.

- Pobl a Sgiliau – Rhoi hwb i sgiliau craidd a chefnogi oedolion i ddatblygu yn eu gwaith. Cefnogi pobl sydd dan anfantais i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt. Ariannu anghenion sgiliau lleol a gwella darpariaeth sgiliau i oedolion lleol. Lleihau'r lefelau o ddisymudedd economaidd a chefnogi'r rheiny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.

Mae Ynys Môn wedi derbyn £16,081,937 o gyllid Ffyniant Cyffredin (gan gynnwys £2,777,202 ar gyfer gweithgareddau rhifedd i oedolion o'r enw Lluosi).

Mae Llywodraeth y DU yn gofyn i bob 'awdurdod arweiniol' ffurfio Bwrdd gwneud penderfyniadau ffurfiol yn ogystal â Grŵp Partneriaeth *"i sicrhau bod buddsoddiadau o Gronfeydd yn cefnogi gweithgareddau eraill yn yr ardal ac yn bodloni amcanion y Gronfa ac amcanion lleol".* Dylid nodi'n glir na fydd y Grŵp Partneriaeth yn cynnal trafodaethau, a'i fod yn ymgynghorol ei natur. Mae penderfyniadau terfynol ynghylch cymeradwyo prosiectau a gwariant yn nwylo'r Cyngor Sir.

Mae gwaith rhanbarthol wedi bod yn allweddol hyd yma wrth greu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd angen Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol er mwyn defnyddio'r arian. Disgwylir y bydd nifer o brosiectau yn ymestyn ar draws y rhanbarth, ac felly bydd rôl ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wrth ddarparu'r Gronfa Ffynaint Gyffredin. Er mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer rheolaeth a gweinyddiaeth ranbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng ngogledd Cymru, bydd y gwaith i wneud penderfyniadau 'lleol' yn cael ei weithredu drwy'r Grwpiau Partneriaeth/ cyrff gwneud penderfyniadau Awdurdodau Lleol (Byrddau), ar lefel awdurdod lleol unigol.

Bydd y Grŵp Partnetiaeth ymgynghorol a'r Bwrdd gwneud penderfyniadau yn dod yn rhan hollbwysig o sicrhau bod arian yn cael ei reoli a'I ddosbarthu yn lleol mewn ffordd dryloyw ac atebol, ar gyfer buddiolwyr trydydd parti a prosiectau Cronfa Ffyniant Gyffredin y Cyngor ei hun.

**Trefniadau Llywodraethu Arfaethedig**

**Bwrdd Gwneud Penderfyniadau Ffurfiol y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Bydd y Bwrdd hwn yn gyfrifol am adolygu'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Swyddogion Datblygiad Economaidd ynghylch sut i ddyfarnu Cronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn. Yn y pen draw, bydd y Bwrdd yn gyfrifol am ddosbarthu'r cyllid.

Bydd y Bwrdd yn cynnwys yr Arweinydd, yr Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd a'r Aelod Portffolio Cyllid, a byddant yn cael eu cefnogi gan uwch swyddogion y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, Swyddog Adran 151 a'r Prif Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd).

Yn dilyn arweiniad gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith ddirprwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau i'r Arweinydd, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd a'r Aelod Portffolio Cyllid. Byddai hyn yn

cynrychioli proses gwneud penderfyniadau cyfreithiol dan Gyfansoddiad y Cyngor, a bydd y Pwyllgor Gwaith angen gwneud penderfyniad.

**Y Grŵp Partneriaeth**

Bydd y Grŵp hwn yn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd gwneud penderfyniadau, ac mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd yn llwyddo i *"ychwanegu safbwynt ac arbenigedd leol…adnabod ac ymdrin ag anghenion a chyfleoedd, ac ymateb gyda'r datrysiad cywir ar gyfer pob ardal".* Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn ceisio *"gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid lleol a rhanbarthol".*

Mae Prosbectws y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn nodi y dylid gofyn i bartneriaid lleol sy'n cymryd rhan mewn Grwpiau Partneriaeth *"gynnig cyngor ar addasrwydd a danfonadwyedd strategol - gan gymryd pwyll er mwyn osgoi gwrthdaro diddordeb".*

Bydd pob ardal yn pennu'r cyfansoddiad penodol yn seiliedig ar anghenion unigol, ond mae Lywdoraeth y DU yn argymell y dylid canolbwyntio ar y canlynol:

a) Cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol
b) Busnesau a buddsoddwyr lleol
c) Darparwyr cymorth busnes (gan gynnwys cynrychiolwyr adrannol sy'n berthnasol i'r lle e.e. cyrff clwstwr, sefydliadau twristiaeth)
d) Byrddau partneriaeth eraill a chyrff strategol (e.e. partneriaid y Fargen Twf)
e) Cynrychiolwyr rhanbarthol o gyrff hyd braich y llywodraeth
f) Sefydliadau cymunedol a ffydd lleol, amlwg
g) Mentrau cymdeithasol y sector gwirfoddol a sefydliadau'r gymdeithas sifil
h) Darparwyr addysg a sgiliau- e.e. darparwyr addysg uwch / addysg bellach / addysg i oedolion
i) Arbenigwyr a darparwyr cyflogaeth - e.e. Canolfan Byd Gwaith, cynrychiolwyr y byd natur, amgylcheddol neu gynrychiolwyr cysylltiedig
j) Cynrychiolwyr iechyd cyhoeddus
k) Cynrychiolwyr yr heddlu a throsedd (e.e. Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd)
l) Swyddogion gweinyddiaethau datganoledig a'u hasiantaethau
m) Aelodau Seneddol

Mae angen nifer o gamau er mwyn rhoi'r fframwaith arfaethedig ar waith (uchod) ac mae'r strwythur llywodraethu trosfwaol angen ei ffurfioli gan gynnwys gwahodd 'aelodau craidd' o'r Grŵp Partneriaeth at ei gilydd i drafod a chytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer eu gwaith.

Mae gwaith manwl arall eisoes wedi'i ddechrau er mwyn datblygu'r Cylch Gorchwyl, y canllawiau, y meini prawf dethol prosiect, y matrics asesu ac ati er mwyn gweithredu'r grwpiau gwahanol. Mae'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o ddatblygiad Fframwaith Sicrwydd mwy cynhwysfawr fydd yn arwain darpariaeth, a bydd ar gael at ddibenion archwilio mewnol ac allanol dilynol Llywodraeth y DU. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau ar y cyd â'r Awdurdod Arweiniol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Rhanbarth lle darperir y Gronfa Ffynaint Gyffredin.

| |
|---|
| Bydd y gwaith hwn yn sicrhau tryloywder, proses gadarn a chydymffurfiaeth lawn gyda gofynion Llywdoraeth y DU, o ran gweinyddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, er mwyn diogelu enw da'r Cyngor a bod ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg a chyfartal. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Gwneud dim – nid oed gan y Cyngor rôl weithredol o fewn proses y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond nid yw hynny'n opsiwn, a byddai'n peryglu ceisiadau / prosesau ariannu yn y dyfodol. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn cyd-fynd â'r penderfyniad blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â dyfarniadau cyllid Llywodraeth y DU – y Gronfa Adfywio Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Bro |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy. |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae rhai ardaloedd ar Ynys Môn yn wynebu amddifadedd, ac mae ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Drwy sicrhau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gellir darparu gwelliannau pendant a buddion i bobl a chymunedau, gan greu swyddi a chyfleoedd. |
| 2 | A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae ganddo'r gallu i atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol drwy sbarduno twf a ffyniant economaidd. |
| 3 | A ydyn ni wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, dywedwch pwy. | Do – gweithio gyda chydweithwyr o Lywdoraeth y DU a sefydliadau y tu allan i'r Cyngor Sir. |
| 4 | A oes unrhyw drigolion Ynys Môn wedi cyfrannu at y gwaith o ddrafftio'r | Do - cyhoeddasom 'alwad ar gyfer prosiectau posibl' ym mis Mai a Mehefin 2022. |


| | | |
|---|---|---|
| | ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Eglurwch. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith posibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau sydd wedi'u diogelu dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010. | Rydym yn rhagweld y gallai'r penderfyniad hwn effeithio'n gadarnhaol ar yr holl drigolion drwy greu swyddi a chyfleoedd. |
| 6 | Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. | Rydym yn rhagweld bod gan y penderfyniad hwn y gallu i effeithio'n gadarnhaol ar yr holl drigolion, yn enwedig o gofio bod Ynys Môn yn wynebu amddifadedd ac mae nifer o'i thrigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar ddefnyddio'r Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg. | Bydd unrhyw gynnig llwyddiannus yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, a byddwn yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn yr un modd yn union â'r Saesneg. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol) | Cefnogol. Derbyniwyd sylwadau mewn cyfarfod ar 3 Ionawr 2023, ac fe'u hymgorfforwyd mewn adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (mandadol) | |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol) | |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | |
| **5** | Eiddo | |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh) | |
| **7** | Caffael | |
| **8** | Sgriwtini | |
| **9** | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| A – fframweithiau llywodraethu arfaethedig |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| 19 Gorffennaf 2022 – wedi rhannu papur y Gronfa Ffyniant Gyffredin gyda'r Pwyllgor Gwaith yn flaenorol |

Atodiad A – Fframweithiau Llywodraethu Arfaethedig



| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **19 Gorffennaf 2022** |
| Pwnc | **Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Jones (Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur H. Jones<br>2146<br>tudurjones@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bob Aelod Lleol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhellion**

1) **Cymeradwyo datblygu ymhellach y rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn, ac yn rhanbarthol, trwy fewnbwn gan swyddogion yn unol â'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad hwn.**

2) **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Aelod Portffolio i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Ynys Môn i'w cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol er mwyn caniatáu i gyllid y rhaglen gael ei hawlio.**

3) **Cefnogi'r cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i Lywodraeth y DU ac arwain y gwaith o wireddu'r rhaglen wedi hynny.**

4) **Dirprwyo hawl i'r Aelodau Portffolio Datblygu Economaidd a Chyllid, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Arweinyddol, i gymeradwyo blaenoriaethau gwariant SPF y Cyngor ar gyfer 2022/23.**

**1.0 Cyd-destun a Beth yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Roedd rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ffynhonnell gyllido bwysig yng Nghymru dros nifer o ddegawdau, ond byddant yn cau yn ystod y 18 mis nesaf. Yn awr, mae Llywodraeth y DU wedi lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel cynllun ariannu domestig i gymryd lle rhaglenni Ewropeaidd. Mae Ynys Môn wedi derbyn cronfeydd Ewropeaidd sylweddol erioed ac mae'r rhaglenni wedi ariannu ystod eang o gynlluniau i gefnogi busnesau, datblygu sgiliau a gwella cyflogadwyedd, yn ogystal â rhaglenni isadeiledd cyfalaf.

Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu buddsoddiad gwerth £2.5bn ledled y DU hyd at fis Mawrth 2025. Nod y rhaglen yw "meithrin balchder mewn lle a

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

chynyddu cyfleoedd bywyd". Y blaenoriaethau buddsoddi a bennwyd gan Lywodraeth y DU yw:

- Cymuned a Lle – Cryfhau ein gwead cymdeithasol a meithrin ymdeimlad falchder lleol a pherthyn. Datblygu cymdogaethau cydnerth a diogel.
- Cefnogi Busnesau Lleol – Creu swyddi a gwella cydlyniant cymunedol trwy gefnogi busnesau lleol. Hyrwyddo rhwydweithio a chydweithio a symbylu arloesi a thwf. Cymorth wedi'i dargedu i helpu busnesau i dyfu – e.e. arloesi, cynhyrchiant, effeithlonrwydd ynni, carbon isel ac allforio.
- Pobl a Sgiliau – Rhoi hwb i sgiliau craidd a chynorthwyo oedolion i ddatblygu yn y gwaith. Cynorthwyo pobl ddifreintiedig i gael mynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Ariannu anghenion sgiliau lleol at ategu darpariaeth sgiliau oedolion lleol. Lleihau lefelau anweithgarwch economaidd a chefnogi'r rhai hynny sydd fwyaf pell oddi wrth y farchnad lafur.

Rhyddhawyd y canllawiau ar gyfer y rhaglen ar 13 Ebrill 2022. Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli gan lywodraeth leol ar draws y DU. Dyrennir cyllid i lywodraeth leol ac ni ddisgwylir unrhyw fidiau cystadleuol. Mae disgwyl Cynllun Buddsoddi yn nodi'r dull ar gyfer gwireddu'r rhaglen er mwyn rhyddhau'r cyllid a bydd angen i Lywodraeth y DU ei dderbyn erbyn 1 Awst 2022. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i lywodraeth leol yng Nghymru gydweithio i lunio un Cynllun Buddsoddi ar gyfer pob rhanbarth ac enwebu un Corff Arweiniol i gyflwyno'r Cynllun a gweithredu fel corff atebol ar gyfer y cyllid. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn cymeradwyo Strategaethau Buddsoddi erbyn 31 Awst 2022.

Mae disgwyl i lywodraeth leol ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r rhaglen, gan gynnwys y trydydd sector a'r gymuned fusnes, a cheisio darparu cyfleoedd i sefydliadau sicrhau adnoddau o'r rhaglen i gyflawni yn erbyn ei flaenoriaethau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn y mae Ynys Môn wedi'i dderbyn a dylid nodi bod y cyllid hwn ar gyfer cyfnod o 3 blynedd.

Fel rhan o'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol, mae'n rhaid rhannu'r cyllid i'r tri maes buddsoddi â blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â dyraniad Lleol a Rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir y bydd cyfran uwch o gyllid yn cael ei ddyrannu yn lleol (i'w gyflawni ar Ynys Môn), ac yn enwedig o dan y thema Cymuned a Lle, ble mae'n rhaid i'r gwaith cyflawni ddigwydd yn lleol.

Tabl 1 – Dyraniad Môn

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Craidd | £ 13,304,735 |
| Lluosi | £ 2,777,202 |
| | £ 16,081,937 |

Mae'r rhaglen Lluosi a gynhwysir yn y tabl uchod yn fenter gan Lywodraeth y DU i hybu rhifedd oedolion. Mae'r gyllideb ar gyfer y rhaglen yn uchel ac mae rhifedd

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| oedolion wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ei gyflawni ac mae rhaglenni a sefydlwyd eisoes ar waith. Felly, mae trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i benderfynu sut i wneud y defnydd gorau o'r cyfle hwn am gyllid.<br><br>**2.0 Cynnydd hyd yma**<br>Mae'r amserlen a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn caniatáu 16 wythnos i ymgynghori â rhanddeiliaid a chymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi i'w gyflwyno. Er nad oes disgwyl i'r Cynllun Buddsoddi ei hun gynnwys llawer o fanylion er mwyn ei gymeradwyo, mae angen i lywodraeth leol:<br>• ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol ac yn rhanbarthol;<br>• gosod blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen yn rhanbarthol ac yn lleol;<br>• cytuno ar strwythurau llywodraethiant priodol yn lleol ac yn rhanbarthol;<br>• dechrau paratoi methodoleg ar gyfer dyrannu cyllid; a chytuno ar gorff arweiniol rhanbarthol ar gyfer y rhaglen a sefydlu'r strwythurau a'r cytundeb angenrheidiol.<br><br>Sefydlwyd strwythurau rhanbarthol i arwain y broses hon a sefydlwyd grŵp uwch reolwyr i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen a grŵp cydlynu gweithredol i symud y ffrydiau gwaith uchod yn eu blaenau. Ar hyn o bryd, y bwriad yw gofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer y rhaglen. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n barod fel corff arweiniol ar gyfer portffolio Bargen Dwf Gogledd Cymru.<br><br>Cynhaliwyd gweithdai a chyfarfodydd rhanbarthol i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen o ran sgiliau a chyflogaeth. Bu tueddiad i ddarparu'r rhan fwyaf o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar lefel ranbarthol neu is-ranbarthol oherwydd anghenion cyffredin y cleientiaid a'r gallu i sicrhau arbedion maint.<br><br>Yn lleol, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phartneriaid allanol, cynrychiolwyr y trydydd sector a'r gymuned fusnes. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cynnal proses agored i wahodd syniadau a phrosiectau lefel uchel cychwynnol. Defnyddir yr holl wybodaeth a dderbyniwyd i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen ar Ynys Môn.<br><br>Er na phenderfynwyd eto ar drefniadau llywodraethu'r cyllid, ble ceir dyraniad rhanbarthol gellid defnyddio'r Grŵp Adfer Economaidd presennol, sef partneriaeth aml-sector a sefydlwyd yn dilyn y pandemig Covid, i gyfrannu at lywodraethiant y rhaglen. Bydd angen adolygu aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp i'r perwyl hwn.<br><br>**3.0 Camau Nesaf**<br>Mae'r rhaglen yn darparu adnodd ariannol cymharol gyfyngedig o gymharu ag ehangder y blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Argymhellir bod y Cyngor yn canolbwyntio ei adnoddau ar nifer lai o flaenoriaethau er mwyn sicrhau'r effaith orau bosib. Dylent gael eu llywio gan:<br>• Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol<br>• Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant<br>• Deilliannau'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid |

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Bydd angen i'r Cyngor lunio ei flaenoriaethau a ffefrir ar gyfer y rhaglen a'u cyflwyno i'w cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ochr yn ochr ag elfennau rhanbarthol y Cynllun sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd y bydd modd diwygio'r Cynllun Buddsoddi yn ôl y gofyn ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.<br><br>Mae cyfleoedd i weithgareddau o dan y themâu Pobl a Sgiliau a Chefnogi Busnesau Lleol gael eu darparu ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol yn hytrach nac yn lleol. Mae hyn yn helpu i sicrhau arbedion maint ac mae hyn wedi gweithio'n llwyddiannus hyd yma. Mae llai o gyfleoedd ar gyfer hyn yn y thema Lleoedd a Chymunedau. Argymhellir, ble bynnag y mae blaenoriaethau ar y cyd a chyfleoedd i wneud arbedion yn bodoli, y dylid defnyddio dull datblygu a chyflawni rhanbarthol. Bydd modd i'r Cyngor gyflawni gweithgareddau 'lleol-benodol' o hyd, os nodir bod hynny'n fwy priodol. Yn hwyrach ymlaen yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen, yn ddiweddarach yn 2022, bydd angen i sefydliadau sy'n ceisio darparu prosiectau lleol ddangos sut fydd eu prosiect yn cyflawni buddiannau mesuradwy i bob sir er mwyn derbyn cyllid.<br><br>Bydd trafodaethau pellach â rhanddeiliaid strategol yn penderfynu ar y dull i'w ddilyn ar gyfer elfen Lluosi'r rhaglen a sut ddylid ei adlewyrchu yn y Cynllun Buddsoddi.<br><br>Bydd angen cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor wrth gyflawni'r rhaglen. Disgwylir y bydd tri prif ddull ar gyfer cyflawni'r rhaglen:<br>1) Cyflawni uniongyrchol gan dimau'r Cyngor a phartneriaid cyflawni (lle bo'n bosib) gan ddefnyddio cyllid y rhaglen<br>2) Gweithgarwch fydd yn cael ei gaffael<br>3) Rhoi cyllid i drydydd parti trwy alwadau agored a chystadleuol am gynigion<br><br>Oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan amserlen y rhaglen, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o wariant blwyddyn ariannol 2022/23 trwy gyfrwng y dull cyntaf.<br><br>Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i sicrhau fod y Cynllun Buddsoddi'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn y dyddiad cau ar 1 Awst 2022. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Gwneud dim – nid yw'r Cyngor yn cymryd rôl weithredol yn y broses Cronfa Ffyniant Gyffredin, ond nid yw hyn yn opsiwn gan y byddai'n peryglu prosesau / ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn cyd-fynd â phenderfyniadau blaenorol gan y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â dyfarniadau ariannu Llywodraeth y DU – y Gronfa Adfywio Cymunedol (CRF) a'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF). |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae ardaloedd o Fôn yn dioddef amddifadrwydd ac maent ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Gall sicrhau Cyllid SPF gyflwyno gwelliannau diriaethol a creu swyddi a chyfleoedd. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Mae posibl iddo atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol trwy ysgogi twf economaidd a ffyniant. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Ydym – gweithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth y DU a sefydliadau allanol i'r Cyngor Sir. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Ydynt – bu iddynt gynnal proses agored yn gofyn am syniadau a phrosiectau ym mis Mai a Mehefin 2022. |
| 5 | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effaith gadarnhaol posibl ar bob dinesydd drwy greu swyddi a chyfleoedd. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Rhagwelwn fod modd i hyn gael effaith gadarnhaol ar bob dinesydd yn enwedig o ystyried bod Ynys Môn yn dioddef amddifadrwydd a bod nifer o'i thrigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol. |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Caiff unrhyw gais llwyddiannus posibl ei gyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn union yr un modd â'r Saesneg. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Dim sylw |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol) | Dim sylw |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro | Dim sylw |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F – Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

This page is intentionally left blank